



**Wales Centre for Public Policy**  
**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

# **Atal digartrefedd pobl ifanc**

**Adolygiad rhyngwladol o  
dystiolaeth**

**Kaitlin Schwan, David French, Stephen Gaetz,  
Ashley Ward, Jennifer Akerman & Melanie Redman**

Awst 2018



# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Sefydlwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym mis Hydref 2017. Ei chenhadaeth yw gwella polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gefnogi gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol cydnerth ynghylch beth sy'n gweithio.

Mae'r Ganolfan yn cydweithredu ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi eraill er mwyn cyfodod a pharatoi tystiolaeth sy'n bodoli a chanfod bylchau ble mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr er mwyn datblygu syniadau ffres ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill.

Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ganfod, defnyddio a chael mynediad at dystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol all helpu i hysbysu a gwella polisi.
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cynhyrchu, gwerthuso, cymhwyso a chael mynediad at dystiolaeth ynghylch beth sy'n gweithio o ran mynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; a
- Defnyddio ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gwella dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth hysbysu a gwella polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau llunio a gweithredu polisïau.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i greu capasiti ymysg ymchwilwyr i ymgysylltu ag ymchwil dylanwadol sydd yn berthnasol i bolisi.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Wedi ei lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol, sydd yn amcanu at feithrin perthnasoedd rhyngwladol cryf tra'n dangos ei hymrwymiad i Gymru.



**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sy'n sefydliad newydd sydd yn dod â saith cyngor ymchwil y DU, Arloesi yn y DU ac Ymchwil Lloegr at ei gilydd er mwyn gwneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesedd ffynnu.



**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sydd yn gyfrifol am feysydd allweddol yn cynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Cynnwys

<b>Crynodeb</b>	<b>5</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>6</b>
<b>Methodoleg</b>	<b>7</b>
<b>Beth sy'n achosi digartrefedd pobl ifanc</b>	<b>8</b>
<b>Diffinio atal digartrefedd pobl ifanc</b>	<b>9</b>
<b>Ataliaeth strwythurol</b>	<b>12</b>
<b>Diffinio ataliaeth strwythurol</b>	<b>12</b>
<b>Tystiolaeth o ataliaeth strwythurol mewn perthynas â digartrefedd pobl ifanc</b>	<b>12</b>
<b>Crynodeb o'r dystiolaeth a bylchau mewn gwybodaeth</b>	<b>16</b>
<b>Ataliaeth systemau</b>	<b>18</b>
<b>Atal digartrefedd pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid</b>	<b>18</b>
<b>Atal digartrefedd pobl ifanc yn y system amddiffyn plant</b>	<b>23</b>
<b>Atal digartrefedd pobl ifanc yn system iechyd meddwl</b>	<b>27</b>
<b>Crynodeb o'r dystiolaeth a bylchau mewn gwybodaeth</b>	<b>29</b>
<b>Ymyrraeth gynnar</b>	<b>32</b>
<b>Ymyrraeth gynnar yn yr ysgol</b>	<b>32</b>
<b>Ymyrraeth gynnar wedi ei arwain gan da</b>	<b>36</b>
<b>Atgyfnerthu cymorth teuluol a naturiol</b>	<b>40</b>
<b>Cymorth iechyd meddwl a dibyniaeth</b>	<b>41</b>
<b>Crynodeb o'r dystiolaeth a bylchau mewn gwybodaeth</b>	<b>42</b>
<b>Atal troi allan a blaengaeadau</b>	<b>45</b>
<b>Diffinio atal troi allan a blaengaeadau</b>	<b>46</b>

<b>Tystiolaeth ar gyfer atal troi allan a blaengaeadau</b>	<b>46</b>
<b>Crynodeb o'r dystiolaeth a bylchau mewn gwybodaeth</b>	<b>49</b>
<b>Sefydlogrwydd tai</b>	<b>51</b>
<b>Diffinio sefydlogrwydd tai</b>	<b>52</b>
<b>Tystiolaeth ar gyfer ymyriadau a dulliau sefydlogi tai</b>	<b>52</b>
<b>Crynodeb o'r dystiolaeth a bylchau mewn gwybodaeth</b>	<b>55</b>
<b>Safbwyntiau pobl ifanc ar atal digartrefedd pobl ifanc</b>	<b>57</b>
<b>Crynodeb o'r canfyddiadau</b>	<b>59</b>
<b>Argymhellion</b>	<b>62</b>
<b>Cyfeiriadau</b>	<b>67</b>
<b>Geirfa</b>	<b>88</b>
<b>Atodiad</b>	<b>93</b>

# Crynodeb

- Ym Mehefin 2018 cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'n gofyn i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gyfrannu i ymchwil at atal digartrefedd pobl ifanc. Yr adolygiad rhyngwladol hwn o dystiolaeth, a'r adroddiad ategol *digartrefedd pobl ifanc a phobl sy'n gadael gofal: Mapio ymyrraeth yng Nghymru* (Stirling 2018), yw'r cyfraniad hwnnw.
- Mae'r ymateb presennol i ddigartrefedd pobl ifanc, sydd yn canolbwyntio ar achosion brys, yn gwneud cam â phobl ifanc. Mae astudiaethau o bob cwr o'r byd yn dangos ein bod yn colli cyfleoedd allweddol i ymyrryd yn gynnar, ac rydym yn aml yn methu â symud pobl ifanc o ddigartrefedd yn gyflym.
- Mae bywydau pobl ifanc yn gyfoethog a chymhleth. Felly, nid yw'n syndod bod camau ataliol sydd yn amcanu at ymyrryd cyn bod argyfwng digartrefedd yn digwydd yn amrywiol, ac mae arnynt angen camau gweithredu effeithiol a chydlynol ar draws meysydd polisi ac ar draws partneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus.
- Rydym yn mabwysiadu **topoleg atal digartrefedd** pum rhan Gaetz a Dej (2017) fel arf defnyddiol i strwythuro'r adroddiad hwn, a chamau ehangach. Mae yna dystiolaeth dda ar gyfer rhai ymyriadau ar draws y dopoleg.
- **Ataliaeth systemau** Mae tystiolaeth yn cefnogi cynllunio rhyddhau amserol wedi ei arwain gan ieuencid; cyfryngu teuluol ac aduno cyn, yn ystod ac ar ôl gadael systemau cyhoeddus; cymorth ariannol a thai ar ôl gadael gofal neu garchar; rheoli achos wedi ei hysbysu gan drawma; rhaglenni dargyfeirio mewn carchardai; a gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a dibyniaeth.
- **Ymyrraeth gynnar** Mae tystiolaeth yn cefnogi ataliaeth yn yr ysgol, yn arbennig pan fo hynny yn canolbwyntio ar ieuencid ac yn seiliedig ar bartneriaethau yn y gymuned, gan ymgorffori sgrinio ar gyfer adnabod ansicrwydd tai yn gynnar (e.e. Prosiect Geelong, Awstralia), yn ogystal â thai seibiant ynghyd â chyfryngu teuluol a chymorth aduno.
- **Atal troi allan** Mae tystiolaeth gydnerth yn cefnogi effeithlonrwydd tymor agos cymorth ariannol (e.e. cymorthdaliadau rhent) a chyngor, cymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol mewn perthynas ag atal troi allan.
- **Sefydlogrwydd tai** Mae tystiolaeth yn dangos bod modelau tai sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc yn addawol; a gall atgyfnerthu llesiant pobl ifanc, teulu a chysylltiadau cymunedol gyfrannu at atal digartrefedd.
- Er y bydd y ffocws yn anochel ar ymyriadau rhaglennol, mae polisi i ddatblygu **ataliaeth strwythurol** mewn perthynas â digartrefedd - tacio tlodi a thai fforddiadwy yn benodol - yn dal yn gritigol er mwyn sicrhau bod mathau eraill o ataliaeth yn effeithiol.
- Rydym yn argymhell dull integredig 'un llywodraeth', sydd yn cynnig gwir lais a dewis i bobl ifanc o ran mynd i'r afael â'u hanghenion tai eu hunain, ac sydd wedyn yn gallu darparu cymorth wedi ei deilwra i unigolion.

# Cyflwyniad

Yn ystod y blynyddoedd diweddar bu newid amlwg mewn polisi ac ysgolheictod ynglŷn ag atal digartrefedd pobl ifanc. Fel ymateb i ddiffygion polisi ymatebol, mae gwledydd o gwmpas y byd yn datblygu, gweithredu a gwerthuso ffyrdd o leihau'r tebygolrwydd y bydd unrhyw berson ifanc yn dod yn ddigartref (Busch-Geertsema a Fitzpatrick, 2008; Mackie, Thomas, a Bibbings, 2017; Poppe a Gale, 2018).

Yng Nghymru, wrth siarad yn lansiad ymgyrch *Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd Pobl Ifanc* ym Mehefin 2017, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'n gofyn i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gyfrannu ymchwil er mwyn hysbysu polisi ac ymarfer mewn perthynas ag atal digartrefedd pobl ifanc. Yr adroddiad hwn a'r adroddiad ategol *Digartrefedd pobl ifanc a gadawyr gofal: Mapio Ymyrraeth yng Nghymru* (Stirling 2018), yw'r cyfraniad allweddol hwnnw

Mae ysgolheictod diweddar yn awgrymu mai'r ffordd orau o ddeall atal digartrefedd yw:

**“Polisiâu, arferion ac ymyriadau sydd yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn profi digartrefedd. Mae hefyd yn golygu rhoi'r adnoddau a'r cymorth angenrheidiol i bobl sydd wedi bod yn ddigartref er mwyn sefydlogi eu sefyllfa tai, gwella integreiddio a chynhwysiant cymdeithasol, ac yn y pen draw lleihau'r risg o fod yn ddigartref eto.”** (Gaetz and Dej, 2017, t. 35)

Yng nghyd-destun y symud byd-eang tuag at atal, mae'r adolygiad ryngwladol yma yn nodi ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth, arferion addawol, blaenoriaethau atal a nodwyd gan bobl ifanc, ac elfennau polisi sy'n croestorri sydd yn cyfrannu at atal digartrefedd pobl ifanc. Mae'r adolygiad o'r dystiolaeth yn cael ei arwain gan y cwestiynau canlynol:

- Pa ffactorau (neu batrymau o ffactorau) y mae'n hysbys eu bod yn cynyddu risg o ddigartrefedd pobl ifanc?
- Pa bolisiâu a rhaglenni sydd yn effeithiol o ran atal digartrefedd ieuencid?
- Beth yw nodweddion strategaethau effeithiol er mwyn atal digartrefedd pobl ifanc?
- Pa dystiolaeth sydd ei hangen o hyd er mwyn cefnogi atal digartrefedd pobl ifanc, a sut ellid ei chynhyrchu?

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio asesiad gofalus o'r gronfa ddata hon er mwyn datblygu set o argymhellion er mwyn dargyfeirio pobl ifanc yn effeithiol rhag profi digartrefedd.

# Methodoleg

At ddiben yr adolygiad hwn, rydym yn defnyddio *Diffiniad Canada o Digartrefedd Pobl Ifanc*, sydd yn diffinio digartrefedd pobl ifanc fel “sefyllfa a phrofiad pobl ifanc rhwng 13 a 24 oed sydd yn byw yn annibynnol ar rieni a/neu ofalwyr, ond nad oes ganddynt y modd na'r gallu i gael preswylfa sefydlog, diogel na chyson” (Arsyllfa Canada ar Ddigartrefedd, 2016, t.1). O ystyried bod peth llenyddiaeth academaidd, sefydliadau a gwledydd yn defnyddio amrywiol ddiffiniadau o ddigartrefedd pobl ifanc, ni fu i ni eithrio unrhyw ymchwil o'n hadolygiad oedd yn defnyddio diffiniad neu ystod oedran gwahanol (gyda therfyn oedran uchaf o 29).

Gan ddefnyddio'r dopoleg atal digartrefedd a gynigir gan Gaetz a Dej (2017), mae'r adolygiad yma yn nodi ac yn gwerthuso'r gronfa dystiolaeth ryngwladol ar gyfer atal digartrefedd pobl ifanc mewn pum maes craidd: ataliaeth strwythurol, ataliaeth systemau, ymyrraeth gynnar, atal troi allan a sefydlogrwydd tai. Defnyddiwyd dau ddull gyda'r maes ysgolheictod newydd yma: (a) datblygu adolygiad llenyddiaeth rhyngwladol cydnerth o'r ymchwil ysgolheigaidd sy'n bodoli a llenyddiaeth lwyd, a (b) clustnodi ymarferion ac ymyriadau addawol gyda thystiolaeth newydd, mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr a hysbyswyr allweddol. Mae'r dulliau ar gyfer pob tasg fel a ganlyn:

- (a) **Adolygiad llenyddiaeth** - Cynhaliwyd adolygiad rhyngwladol o'r holl ymchwil oedd ar gael ar atal digartrefedd pobl ifanc, yn cynnwys ymchwil ysgolheigaidd a llenyddiaeth lwyd a gyhoeddwyd rhwng 2000 a 2018. Chwliwyd drwy gyfanswm o chwe chronfa ddata ysgolheigaidd fel rhan o'r adolygiad hwn. Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth ehangach er mwyn cynnwys polisïau ac ymyriadau nad ydynt yn benodol yn cael eu hystyried fel 'atal digartrefedd pobl ifanc', ond sydd efallai yn dal i weithredu felly. Roedd yr adolygiad yn gwahaniaethu rhwng dulliau a gefnogir gan dystiolaeth a'r rhai sydd yn dangos addewid neu sydd â chorff o dystiolaeth sydd yn esblygu, gan glustnodi bylchau allweddol mewn gwybodaeth am y broses.
- (b) **Adolygiad o ymarfer rhyngwladol** - Er bod nifer o enghreifftiau o ymarfer atal digartrefedd pobl ifanc yn bodoli, yn aml mae tystiolaeth am eu heffeithiolrwydd yn cael ei chadw'n fewnol gan sefydliadau ac asiantaethau. Bu i'r tîm ymgysylltu ag arbenigwyr rhyngwladol a sefydliadau allweddol sydd yn arwain ymyriadau ataliol addawol er mwyn casglu, curadu ac asesu unrhyw dystiolaeth newydd, arloesedd, a gwybodaeth mewn perthynas ag atal digartrefedd pobl ifanc (Gweler Atodiad A i weld Canllawiau Cyfweliadau). Roedd y cyfweliadau yma nid yn unig yn dilysu elfen adolygiad llenyddiaeth yr adolygiad, ond roedd hefyd yn cynnig sail resymegol a ffocws pwysig ar gyfer argymhellion yr adroddiad.

Yn olaf, mae'r adolygiad hwn hefyd yn cynnwys adolygiad cryno o safbwyntiau pobl ifanc ar atal digartrefedd, o ystyried pwysigrwydd unigryw dylunio datrysiadau polisi sydd yn bodloni anghenion a nodwyd gan bobl ifanc eu hunain.

## Beth sy'n achosi digartrefedd pobl ifanc

Er mwyn atal digartrefedd pobl ifanc, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â'r ffactorau sydd yn ei achosi. Mae ymchwil yn dangos mai'r ffordd orau o ddeall profiad pobl o ddigartrefedd yw fel cyfres o amgylchiadau cymdeithasol ac unigol anafanteisiol sydd yn cynnwys diffyg mynediad at dai sefydlog a diogel parhaol (Gaetz et al, 2014). Mae pobl ifanc sydd yn profi digartrefedd yn wynebu rhwystrau a heriau unigryw o ran sefydlogi eu sefyllfa tai, ymgysylltu ag ysgolion ac addysg, bodloni eu hanghenion dyddiol, a chadw'n ddiogel oherwydd eu hoedran a'r cyfnod datblygiadol yn eu bywydau (Day a Paul, 2007; Vitopoulos et al, 2017).

Mae'r hyn sydd yn achosi digartrefedd pobl ifanc yn cynnwys set cymhleth o ffactorau, sydd yn aml yn gweithredu mewn ffordd gronnus yn ystod oes person ifanc. Gellir defnyddio model ecolegol gymdeithasol er mwyn trefnu ac egluro pam bod pobl ifanc yn dod yn ddigartref, gan rannu ffactorau allweddol i dri phrif faes: ffactorau strwythurol, methiannau'r system, a ffactorau unigol a pherthynol (Gaetz, 2014; Gaetz a Dej, 2017):

**FFACTORAU STRWYTHUROL** yw "materion systemig, economaidd a chymdeithasol eang sydd yn bodoli ar lefel gymdeithasol sydd yn effeithio ar gyfleoedd, amgylcheddau cymdeithasol, a deilliannau unigolion" (Gaetz a Dej, 2017, t. 18). Mewn nifer o achosion, mae digartrefedd pobl ifanc yn cael ei ysgogi gan ffactorau strwythurol a systemig sydd yn *creu'r amodau pan fo* argyfwng personol neu berthynol yn arwain at ddigartrefedd i bobl ifanc. Mae rhai o'r ffactorau strwythurol sydd yn cyfrannu at ddigartrefedd pobl ifanc yn cynnwys:

- Prinder tai fforddiadwy (e.e., Shinn, Brown, a Gubits, 2017)
- Tlodi plentyndod (e.e., Embleton et al, 2016)
- Gwahaniaethau ar sail oedran, hil, ethnigrwydd, dinasyddiaeth, rhywioldeb neu fynegiant o rywedd (e.e., Slesnick a Prestopnik, 2005a)
- Profiad o drais a thrawma rhyng-genedlaethau yn achos ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mewn rhai gwledydd, grwpiau brodorol (e.e., Thistle, 2017; Quilgars et al., 2008)

Mae tystiolaeth yn dangos bod ffactorau strwythurol ehangach (e.e. anhawster cael swydd oherwydd hiliaeth) a methiannau yn y system (e.e. anhawster cael mynediad at gymorth iechyd meddwl) yn braenaru'r tir i bobl ifanc ddod yn ddigartref pan fyddant yn wynebu argyfwng personol neu rhyngpersonol (e.e. trais teuluol).



Mae **METHIANNAU YN Y SYSTEM** yn cyfeirio at sefyllfaoedd pan fo “polisïau a darpariaeth gwasanaethau annigonol mewn a rhwng systemau yn cyfrannu at y tebygolrwydd y bydd rhywun yn dod yn ddigartref (Schwan et al, 2018, t. 3; gweler Gaetz a Dej, 2017). Mae hynny yn cynnwys rhwystrau rhag cael mynediad at systemau cyhoeddus, methu â phontio o sefydliadau a systemau a gyllidir yn gyhoeddus, a seilos a bylchau mewn a rhwng adrannau a systemau a gyllidir gan y llywodraeth, yn ogystal â mewn sectorau di-elw (Gaetz a Dej, 2017). Mae ymgynghoriad a gynhaliwyd ar draws Canada gyda phobl ifanc oedd wedi profi digartrefedd yn amlygu problemau allweddol gyda systemau o ran mynediad, argaeledd a fforddiadwyedd, sy'n golygu bod pobl ifanc yn aml yn methu â chael mynediad at y gwasanaethau, cymorth a'r adnoddau y mae ganddynt hawl eu derbyn (Schwan et al, 2018). Heb gymorth pontio cydnerth, mae ymchwil hefyd yn dangos yn gyson bod nifer o bobl ifanc yn pontio'n uniongyrchol o wasanaeth llesiant plant, cyfleusterau cywiro a gofal iechyd i ddigartrefedd (Nichols a Doberstein, 2016; Wylie, 2014). Dylid pwysleisio bod poblogaethau penodol o bobl, megis newydd-ddyfodiaid, yn wynebu mwy o heriau a rhwystrau systemig, ac mae hynny yn cynyddu eu risg o fod yn ddigartref (Ratnam, Fitzpatrick, a Thang, 2018).

Mae **FFACTORAU UNIGOL A PHERTHYNOL** “yn cyfeirio at yr amgylchiadau personol sydd yn arwain at bobl yn wynebu risg o fod yn ddigartref” (Gaetz a Dej, 2017, t. 21). Un o achosion allweddol digartrefedd pobl ifanc yw gwrthdaro neu fethiant yng nghartref y teulu, a gellir cysylltu hynny â heriau megis defnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl a datgysylltu o systemau cymdeithasol neu addysg (Gaetz, 2014). Mae ymchwil hefyd yn dangos bod profiadau plentyndod niweidiol, megis camdriniaeth ac esgeulustod, yn cyfrannu'n sylweddol at ddigartrefedd ymysg pobl ifanc (e.e. Cutuli et al, 2013). O dan amgylchiadau o'r fath, efallai y byddwch yn ffoi neu yn cael eich tynnu o gartrefi anniogel, camdriniol neu esgeulus (Kidd et al, 2014; Schwan et al, 2018). Er ei bod yn ymddangos mai'r ffactorau unigol a pherthynol yma yw achosion mwyaf uniongyrchol digartrefedd yn achos nifer o bobl ifanc, mae ymchwil yn dangos bod y ffactorau hyn yn cael eu tanategu gan broblemau a methiannau strwythurol a phroblemau systemau.

## Diffinio atal digartrefedd pobl ifanc

Mae ysgolheictod diweddar yn awgrymu y dylai atal digartrefedd pobl ifanc adeiladu ar y diffiniad ehangach canlynol o atal digartrefedd.

**“Polisïau, arferion ac ymyriadau sydd yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn profi digartrefedd. Mae hefyd yn golygu rhoi'r adnoddau a'r cymorth angenrheidiol i bobl sydd wedi bod yn ddigartref er mwyn sefydlogi eu sefyllfa tai, gwella integreiddio a**

## **chynhwysiant cymdeithasol, ac yn y pen draw lleihau'r risg o fod yn ddigartref eto.” (Gaetz a Dej, 2017, t. 35).**

Wrth fabwysiadu'r diffiniad hwn, rydym yn dadlau bod rhaid i unrhyw ymyrraeth atal digartrefedd pobl ifanc rhag digwydd yng nghyd-destun: (1) *darparu* tai ar unwaith i ieuenctid sydd yn ddigartref neu mewn cartref ansicr, neu (2) *diogelu* tai ar unwaith i ieuenctid sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref. Er bod ymyriadau atal digartrefedd yn amrywio'n fawr o ran eu ffocws a'u bwriad, ac nad ydynt o reidrwydd yn canolbwyntio ar dai (e.e. ymdrechion i gyfryngu ymysg teuluoedd), mae'n rhaid i ymyriadau o'r fath *gynnwys mynediad ar unwaith i dai* er mwyn cael eu diffinio fel atal digartrefedd. Gellir dosbarthu digartrefedd i dopoleg 5 rhan:

**1. Ataliaeth Strwythurol** - Mae hynny yn golygu gweithio ymlaen llaw i fynd i'r afael â'r ffactorau strwythurol a systemig sydd yn cyfrannu at ansicrwydd tai ac sy'n arwain teuluoedd ac unigolion at wynebu risg o fod yn ddigartref. Drwy ddeddfwriaeth, polisi a buddsoddi, y nod yw gwella sefydlogrwydd tai a chynhwysiant drwy ddeddfwriaeth, polisi a buddsoddi sydd yn hyrwyddo lleihau tlodi, diogelwch incwm, mynediad at dai priodol, cynhwysiant, diogelwch, llesiant a sicrwydd deiliadaeth.

**2. Ataliaeth Systemau** - Mae'r ffocws yma ar fynd i'r afael â methiannau sefydliadol a systemig sydd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn cyfrannu at y risg o fod yn ddigartref. Mewn rhai achosion, mae polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu dylunio mewn ffyrdd sydd yn tanseilio gallu unigolion i gael mynediad at gymorth angenrheidiol fyddai yn sefydlogi eu sefyllfa tai. Mewn achosion eraill, gall y diffyg cynllunio a chymorth i bobl sydd yn pontio o systemau cyhoeddus (e.e. ysbytai, cyfleusterau cywiro a diogelu plant), arwain at risg uwch o ddigartrefedd.

**3. Ymyrraeth Gynnar** - Mae hynny yn cynnwys polisiâu, arferion ac ymyriadau sydd yn helpu unigolion a theuluoedd sydd yn wynebu risg eithafol o fod yn ddigartref, neu sydd wedi profi hynny yn ddiweddar, gael y cymorth sydd ei angen i gadw eu tai presennol neu i gael mynediad cyflym at dai newydd a phriodol. Mae strategaethau ymyrraeth gynnar yn golygu bod angen mecanweithiau adnabod ac asesu effeithiol, cymorth llywio systemau, ac o bosibl ymatebion rheoli achos a systemau integredig. Dyluniwyd y cymorth yma er mwyn darparu datrysiadau tai dros dro yn lleol petai pobl yn colli eu tai fel eu bod yn gallu cynnal cymorth naturiol (ffrindiau a pherthnasau) a chysylltiadau lleol â sefydliadau y maent wedi ymgysylltu â nhw ar hyn o bryd (e.e. gofal iechyd, addysg, gwasanaethau cymunedol).

**4. Atal Troi Allan** - Mae hynny yn cynnwys rhaglenni a strategaethau sydd wedi eu dylunio i gadw unigolion a theuluoedd sydd yn wynebu risg o gael eu troi allan o'u cartrefi, ac sydd yn eu helpu i osgoi bod yn ddigartref. Mae atal troi allan yn fath o ymyrraeth gynnar ac mae'n canolbwyntio fwy ar gymorth tai, ac mae'n cynnwys deddfwriaeth a pholisi ynghylch

landlordiaid/tenantiaid, rheolaethau rhent ac ategion, cronfeydd mewn argyfwng, addysg tai, a chymorth mewn argyfwng i bobl sydd yn wynebu risg o gael eu troi allan ar unwaith.

**5. Sefydlogrwydd Tai** - Mae hynny yn cynnwys mentrau a chymorth i bobl sydd wedi bod yn ddigartref fel y gall pobl gefnu ar ddigartrefedd mewn ffordd amserol a “pheidio â bod yn ddigartref fyth eto” (Gaetz a Dej, 2017, t. 44).

Mae'r dystiolaeth yn y penodau canlynol wedi ei threfnu yn ôl topoleg Gaetz a Dej (2017), ac yna ceir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol a'r argymhellion o ran camau i'w cymryd gan y llywodraeth.

# Ataliaeth strwythurol

Mae gwreiddiau digartrefedd wedi eu hymgorffori yn y “materion systemig, economaidd a chymdeithasol eang sydd yn bodoli ar lefel gymdeithasol sydd yn effeithio ar gyfleoedd, amgylcheddau cymdeithasol, a deilliannau unigolion” (Gaetz a Dej, 2017, t. 18). Heb fynd i'r afael ag ysgogwyr strwythurol digartrefedd, mae ymchwil yn awgrymu ein bod yn annhebygol o atal neu ddiweddu digartrefedd pobl ifanc (Culhane a Metraux, 2008; Parsell a Marston, 2012). Yn ffodus, mae yna dystiolaeth gref sy'n awgrymu bod newidiadau strwythurol penodol yn effeithio'n gadarnhaol ar leihau digartrefedd, cynyddu incwm pobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal â gwella iechyd, llesiant a sefydlogrwydd tai pobl ifanc.

## Diffinio ataliaeth strwythurol

Mae ataliaeth strwythurol yn golygu datgymalu polisïau, deddfwriaeth, arferion a systemau sydd yn cyfrannu at ansicrwydd tai ymhlith ieuenctid a'u teuluoedd, a'u hamnewid gyda pholisïau sydd wedi eu dylunio i gynyddu sicrwydd economaidd, sefydlogrwydd tai, a chynhwysiant cymdeithasol i bawb. Oherwydd bod pobl ifanc yn aml yn rhan o berthnasoddedd o ddibyniaeth gydag oedolion (Gaetz, 2014), mae'n rhaid i ataliaeth strwythurol hefyd fynd i'r afael â ffactorau strwythurol sydd yn cyfrannu at ansicrwydd tai yn achos oedolion hefyd.

Er bod pobl ifanc yn wynebu nifer o'r un heriau strwythurol sydd yn arwain oedolion i wynebu risg o fod yn ddigartref, mae'r anawsterau hyn yn amlygu eu hunain yn wahanol ym mywydau pobl ifanc (Sefydliad Joseph Rowntree, 2017). Pan fo'n effeithiol, mae ataliaeth strwythurol yn cyfrannu at leihau nifer y bobl ifanc sydd yn dod yn ddigartref, drwy fynd i'r afael â'r *ffyrdd unigryw* y mae ffactorau strwythurol yn arwain pobl ifanc i wynebu risg ansicrwydd tai.

## Tystiolaeth o ataliaeth strwythurol mewn perthynas â digartrefedd pobl ifanc

Mae'r adran hon yn archwilio dystiolaeth ar lefel poblogaeth o dair elfen allweddol o atal digartrefedd pobl ifanc: lleihau a diweddu tlodi, cynyddu argaeledd tai fforddiadwy, a pholisi a deddfwriaeth atal digartrefedd.

### a) Lleihau a diweddu tlodi

Mae tlodi yn un o ysgogwyr allweddol digartrefedd yn achos pawb yn cynnwys pobl ifanc (Embleton et al, 2016). Gall profiadau plentynod o dlodi effeithio'n ddifrifol ar ddatblygiad pobl ifanc (Tucker, Marx, a Long 1998), a gall tlodi gyfrannu at straen mawr a methiant y

teulu yn y cartref (Sefydliad Joseph Rowntree, 2017). Mae newidiadau strwythurol yn yr economi hefyd yn golygu bod yna lai o swyddi llawn amser parhaus ar gael, a bod y rhai hynny sydd ar gael yn rhai cyflog isel ac ansicr yn aml (Ng, Schweitzer, a Lyons 2016). Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae tlodi plant yn y DU wedi codi i 29%, ac mae tlodi ymysg oedolion oed gweithio sydd â phlant wedi codi i 20% (Sefydliad Joseph Rowntree, 2017, t. 19). Yng Nghymru, er bod nifer y plant sydd yn byw mewn tlodi yn sylweddol is nag yr oedd ddau ddegawd yn ôl, roedd nifer y plant oedd yn byw mewn tlodi erbyn 2016 yn 2% yn uwch nag oedd yn 2006 (Barnard, 2018). Mae Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn rhagfynegi cynnydd sylweddol mewn tlodi plant yn y DU erbyn 2020 o ganlyniad i ddiwygio lles (Browne a Hood, 2016).

Mae ymchwil yn dangos bod gwledydd sydd â gwladwriaethau lles cydnerth a strategaethau lleihau tlodi sydd wedi eu hymgorffori yn adrodd am gyfraddau is o dlodi plant a digartrefedd (Fitzpatrick a Stephens, 2007; Olsson a Nordfeldt, 2008). *Yn ystod ein hymgyngoriad ag arbenigwyr rhyngwladol, dywedodd Dr. Beth Watts, "Mae'n rhaid i unrhyw strategaeth neu gynllun atal gydnabod mai gwreiddiau digartrefedd pobl ifanc yw tlodi plant* (Watts, Beth. Uwch Gymrawd Ymchwil ym Mhrifysgol Heriot-Watt. Cyfweiliad personol, 22 Mehefin, 2018). Mae **Adroddiad Tlodi y DU** Sefydliad Joseph Rowntree (2017) yn argymhell set sylweddol o strategaethau seiliedig ar dystiolaeth er mwyn lleihau tlodi plant a theluoedd, yn cynnwys:

- Codi incwm teuluoedd â phlant drwy fuddsoddi mwy mewn rhaglenni budd-daliadau (e.e. Budd-dal Plant a Chredyd Treth Plant)
- Lleihau neu ddiddymu'r gofynion sydd eu hangen i gael mynediad at raglenni budd-daliadau (e.e. Credyd Cynhwysol)
- Cynyddu a symleiddio cymorth incwm i deuluoedd ifanc ac incwm isel, yn cynnwys drwy well lwfansau mamolaeth, cymorthdaliadau gofal plant, a chymorthdaliadau i gefnogi teuluoedd sydd â phlant anabl.
- Atgyfnerthu addysg i bob plentyn, yn cynnwys drwy ymdrechion a dargedir er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol plant o gefndiroedd incwm isel.

Oherwydd nad yw llesiant yn fater datganoledig, mae'r argymhellion hyn wedi eu hanelu'n bennaf at Lywodraeth y DU.

## b) Cynyddu argaeledd tai fforddiadwy

Ers peth amser mae ymchwil wedi dangos bod prinder tai fforddiadwy yn un o achosion allweddol digartrefedd plant, pobl ifanc ac oedolion (Brisson a Covert, 2015; Canolfan Astudiaethau Tai ar y Cyd, 2013; Poppe a Gale, 2018). Mae data o'r Unol Daleithiau yn dangos mai incwm a deinameg y farchnad dai yw dau brif benderfynydd digartrefedd yn achos unigolion a theuluoedd (Culhane, Metraux, a Byrne, 2011; Quigley a Raphael, 2002). Mewn nifer o wledydd, ni all y farchnad dai ymateb i'r galw (e.e. Canolfan Astudiaethau Tai ar y Cyd, 2013). Mae stoc cyfyngedig o dai fforddiadwy yn creu cystadleuaeth ymysg rhentwyr incwm isel (Brisson a Covert, 2015), ac mae hynny gwaethygu ansefydlogrwydd tai i aelwydydd nad oes ganddynt yr adnoddau na'r incwm i gystadlu (Koebel, 1997).

**“Yr un peth sydd yn gyffredin ymysg pobl ddigartref yw diffyg tai. Beth bynnag fo'r problemau sydd yn eu hwynebu, mae tai digonol, sefydlog a fforddiadwy yn rhagofyniad i'w datrys.” (Dolbeare, 1996, t. 34)**

Mae gwledydd sydd â'r cyfraddau digartrefedd isaf yn y byd, megis y Ffindir a Denmarc, wedi buddsoddi'n drwm mewn tai fforddiadwy (O'Sullivan, 2017). Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod cyfraddau is o ddigartrefedd yn cyfateb i gynnydd mewn buddsoddiad mewn tai fforddiadwy (e.e., Fitzpatrick a Stephens, 2007; Pleace, Teller, a Quilgars, 2011), sydd yn awgrymu y dylai hynny fod yn flaenoriaeth allweddol i unrhyw lywodraeth sydd yn ceisio lleihau digartrefedd. Mae astudiaethau hefyd yn dangos y gellir lleihau digartrefedd yn ddramatig drwy roi cymorthdaliadau tai a dargedir (Culhane et al, 2011; Quigley a Raphael, 2002). Mae canfyddiadau o'r fath yn awgrymu bod angen strategaethau lluosog er mwyn cynyddu argaeledd tai fforddiadwy i bobl ifanc sydd yn profi ansicrwydd o ran eu sefyllfa tai. Mae'r Ffindir wedi defnyddio dull unigryw o wynebu'r her yma, gan ddatblygu system tai yn benodol ar gyfer pobl ifanc (a weithredir gan [Gymdeithas Tai Pobl Ifanc Y Ffindir](#)) sydd yn darparu tai a chwnsela i bobl ifanc sydd yn pontio at annibyniaeth (18-29 oed) (Pleace et al, 2015).

## Cymdeithas Tai Pobl Ifanc Y Ffindir (NAL)

---

Mae digartrefedd pobl ifanc yn Y Ffindir yn cael ei gynnal yn rhannol o ganlyniad i brinder unedau rhent bychan a fforddiadwy mewn ardaloedd metropolitan. Bu i **adolygiad diweddar** o bolisi digartrefedd Y Ffindir ganfod bod digartrefedd i rai pobl ifanc yn Y Ffindir yn bennaf yn ganlyniad i brinder incwm i dalu am gostau uchel yr unedau rhent. Nid yw'r grŵp yma o bobl ifanc o reidrwydd angen gwasanaethau cymorth dwys er mwyn gallu cynnal eu sefyllfa tai, ond maent wirioneddol angen unedau rhent fforddiadwy os ydynt am osgoi digartrefedd (Pleace et al, 2015, t. 71).

Mae Cymdeithas Tai Pobl Ifanc Y Ffindir (NAL) (Nuorisuasuntoliitto mewn Ffinneg) yn ymateb i'r angen am dai fforddiadwy i'r ifanc ar draws Ffindir. Mae NAL yn sefydliad ambarél anllywodraethol dielw sydd yn cynnwys 24 cymdeithas leol a 7 sefydliad cenedlaethol sydd yn targedu amddiffyn buddiannau pobl ifanc o ran materion tai ar draws y Ffindir. Mae NAL yn berchen ar y ddau sefydliad adeiladu dielw, NAL Asunnot a NAL Palvelut. Mae NAL yn darparu cyfleoedd tai fforddiadwy i'r holl bobl ifanc 18 i 29 oed nad ydynt yn fyfyrwyr, gan gynnig dros 3100 eiddo rhent mewn dros 30 o ddinasoedd ar draws y Ffindir.

Mae'r gwasanaethau a gynigir drwy NAL yn cynnwys:

Prosesau ymgeisio hygyrch a chyfeillgar i bobl ifanc er mwyn gwneud cais am dai NAL. Gwasanaeth cwnsela mewn perthynas â thai i bob tenant, yn cynnwys cyngor ar arian a dyled.

Adnoddau a chanllawiau er mwyn cefnogi pobl ifanc sydd yn pontio i dai annibynnol.

Cymorth unigol (e.e. cymorth fel bo'r angen) i rai tenantiaid ifanc.

Atgyfeirio at wasanaethau a chymorth ychwanegol.

Mae NAL yn cydweithio gyda sefydliadau a rhanbarthau eraill sy'n gwasanaethu pobl ifanc er mwyn bodloni anghenion pobl ifanc a sefydlogi tai pobl ifanc. Mae Pleace a'i gydweithwyr (2015) yn dadlau y gall model NAL fod yn fodel buddiol iawn ar gyfer pobl ifanc sydd yn pontio o'r system llesiant plant, y system cyfiawnder troseddol, yn ogystal â gwasanaethau iechyd a dibyniaeth. Ond, efallai na fydd y 'cymorth dwyster isel' a ddarperir drwy NAL yn ddigon i rai pobl ifanc sydd angen mwy o wasanaethau cymorth er mwyn sefydlogi eu sefyllfa tai.

---

Mae'n rhaid i ataliaeth digartrefedd pobl ifanc gynnwys cynyddu argaeledd opsiynau tai fforddiadwy i bobl ifanc a'u teuluoedd drwy amrywiaeth o fecanweithiau, yn cynnwys:

- Adeiladu a chynnal stoc o dai fforddiadwy (yn cynnwys tai rhent, tai cymdeithasol, a thai â chymorth);

- Cyflwyno mecanweithiau er mwyn cynyddu fforddiadwyedd tai rhent (e.e. cymorthdaliadau rhent, cronfeydd tai mewn argyfwng);
- Gweithredu camau rheoli rhent;
- Cosbi landlordiaid sydd yn gwahaniaethu yn y farchnad dai; a
- Chyflwyno a gorfodi deddfwriaeth er mwyn diogelu hawl unigolion i dai (yn cynnwys plant a phobl ifanc).

### c) Polisi a deddfwriaeth atal digartrefedd

Gellir atgyfnerthu, cefnogi, gorfodi a diogelu pob ymdrech i atal digartrefedd pobl ifanc drwy ddeddfwriaeth a pholisi cymdeithasol. Mae enghreifftiau rhyngwladol diweddar yn cynnwys: Deddf Tai (Cymru) (2014) *Deddf Lleihau Digartrefedd* Lloegr (2017); *Strategaeth Atal Digartrefedd* Cenedlaethol Iwerddon (2002); a *Deddf Atal a Diogelu Pobl Ifanc Ddigartref* talaith Washington (2015). Mae deddfwriaeth Cymru, ac yna Lloegr, yn ei gwneud yn gyfreithiol ofynnol i'r cyngor lleol gynorthwyo ar unwaith unrhyw un sydd yn ddigartref neu sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref, os ystyrir eu bod yn gymwys i dderbyn cymorth. Tra bod tystiolaeth yn dal i ddod i'r amlwg, mae gwerthusiadau cynnar o Ddeddf Tai (Cymru) (2014) yn dangos bod yr ymyrraeth polisi yma yn llwyddo i leihau nifer y bobl ddigartref (yn cynnwys pobl ifanc), yn ogystal â lleihau nifer y bobl mewn llety dros dro (Mackie, Thomas, a Bibbings, 2017). Er nad yw effeithiau penodol y polisi yma ar bobl ifanc wedi cael eu harchwilio hyd yma, mae'r dystiolaeth yma yn addawol iawn ar gyfer atal digartrefedd pobl ifanc yn strwythurol.

## Crynodeb a bwllch mewn gwybodaeth

Er mwyn atal digartrefedd pobl ifanc yn effeithiol, mae'n rhaid i lywodraethau fynd i'r afael â'r ffactorau tanategol sydd yn arwain pobl i wynebu risg o fod yn ddigartref yn y lle cyntaf (Parsell a Marston, 2012), yn cynnwys tlodi, gwahaniaethu, prinder tai fforddiadwy a phrinder rhwydi diogelwch cymdeithasol. Mae tystiolaeth yn awgrymu'n gryf y gall ymyriadau sydd yn canolbwyntio ar leihau tlodi, cynyddu incwm, a gwella mynediad at dai fforddiadwy i deuluoedd mewn tlodi fod yn effeithiol o ran lleihau ffactorau risg sydd yn gysylltiedig â digartrefedd pobl ifanc. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos pan fo ymyriadau ataliol yn lliniaru ysgogwyr strwythurol digartrefedd (e.e. drwy ddarparu cymorth ariannol i wrthbwysu'r bwllch rhwng incwm lleiafswm cyflog a chostau tai), mae'r ymyriadau yma yn fwy llwyddiannus o ran sefydlogi'r sefyllfa tai. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod ymdrechion ataliaeth strwythurol (e.e. cynyddu stoc tai fforddiadwy) yn aml yn sylfaen i fathau eraill o ataliaeth allu cyflawni eu hamcanion (e.e. Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc).

Er bod y rhan fwyaf o'r gwaith ysgolheigaidd ar atal digartrefedd yn cyfeirio at ataliaeth strwythurol, mae mwyafrif helaeth yn canolbwyntio ar strategaethau atal unigol (Culhane et al, 2011; Gaetz a Dej, 2017; Pawson et al, 2007). Er y gall ymyrraeth gynnar neu ymdrechion



i atal troi allan gynorthwyo unigolion i osgoi digartrefedd, dim ond drwy ataliaeth strwythurol y gallwn atal achosion *newydd* o ddigartrefedd (Shinn, Baumohl, a Hopper, 2001). Er mwyn bod mor effeithiol â phosibl, mae'n rhaid i atal digartrefedd pobl ifanc gynnwys ataliaeth strwythurol. Mae angen mwy o ymchwil a chreu cysyniadau er mwyn deall yn well effeithiau unigryw mathau penodol o ymyriadau strwythurol (e.e. strategaethau lleihau tlodi, deddfwriaeth atal digartrefedd) ar bobl ifanc digartref neu'n sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref.

# Ataliaeth systemau

Mae mynd i'r afael â digartrefedd pobl ifanc yn golygu bod angen datgymalu'r prosesau sy'n galluogi i systemau cyhoeddus (e.e. gofal iechyd, tai, cyfiawnder troseddol) gyfrannu at lwybrau pobl ifanc tuag at ddigartrefedd. Mae methiannau systemau allweddol sydd yn gynwysedig yn y broses hon yn cynnwys: "(1) rhwystrau rhag cael mynediad at systemau cyhoeddus, (2) methu â phontio o sefydliadau a systemau a gyllidir yn gyhoeddus, a (3) seilos a bylchau mewn a rhwng adrannau a systemau a gyllidir gan y llywodraeth, yn ogystal â mewn sectorau di-elw" (Gaetz a Dej, 2017, t.20). Mae astudiaethau yn dangos cysylltiadau uniongyrchol rhwng methiannau system a digartrefedd (Nichols a Doberstein, 2016). Mewn nifer o achosion mae'r methiannau sefydliadol a systemig yma yn cyfuno mewn ffyrdd sydd yn cyfuno anfanteision a risgiau digartrefedd yn achos unigolion a theuluoedd.

Mae ataliaeth systemau yn mynd i'r afael â'r "methiannau sefydliadol a systemig sydd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn cyfrannu at y risg o fod yn ddigartref" (Gaetz a Dej, 2017, t. 44). Mae pedair strategaeth allweddol ar gyfer ataliaeth systemau yn cynnwys:

1. "Datrys rhwystrau polisi a gweithdrefnol er mwyn hwyluso mynediad at raglenni a chymorth;
2. Gwella mynediad at systemau, gwasanaethau a chymorth priodol cyhoeddus;
3. Mae ailintegreiddio yn cefnogi: Hwyluso pontio effeithiol o sefydliadau neu systemau cyhoeddus" (Gaetz a Dej, 2017, t. 56-57); a
4. Cydlynu ac integreiddio systemau.

Mae'r canlynol yn cyflwyno'r dystiolaeth sydd ar gael ac ymarfer newydd sydd yn cefnogi atal digartrefedd pobl ifanc drwy ataliaeth systemau mewn tair system gyhoeddus allweddol: cyfiawnder troseddol, diogelu plant a'r system iechyd meddwl. Dwy system gyhoeddus arall sy'n gynwysedig o ran atal digartrefedd pobl ifanc yw addysg (gweler Ymyrraeth Gynnar) a mewnfudo. Nid oes digon o ymchwil o bell ffordd wedi ei wneud i'r dystiolaeth am sut y gall y system fewnfudo atal digartrefedd pobl ifanc yn effeithiol, ac mae angen egluro mwy ar hynny.

## Atal digartrefedd pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol

Mae pobl ifanc sydd yn profi ansefydlogrwydd tai yn wynebu risg sylweddol o ymwneud â'r system gyfiawnder troseddol (O'Grady, Gaetz, a Buccieri, 2013) ac maent yn adrodd am

nifer o achosion a ryngweithio negyddol â swyddogion gorfodi'r gyfraith (Schwan et al, 2018). Ar ôl eu cyhuddo o gyflawni trosedd, mae pobl ifanc yn wynebu heriau cymhleth wrth geisio llywio drwy'r system cyfiawnder troseddol, goroesi ac ymdopi yn y ddalfa, a gadael y carchar yn llwyddiannus (Mares a Jordan, 2012). Mae pontio o'r ddalfa i annibyniaeth yn anodd yn aml ac mae'n creu mwy o risg y bydd pobl ifanc yn ddigartref (Estrada a Marksamer, 2006). Er bod yna gyfleoedd amlwg i atal digartrefedd pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol, nid yw cyfiawnder troseddol wedi ei ddatganoli yng Nghymru. Mae hynny yn cyfyngu ar gwmpas gweithredu posibl Llywodraeth Cymru.

## **a) Gwella cymorth, cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i bobl ifanc**

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod darparu cymorth, cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol yn aml yn gwella deilliannau yn y llys a dedfrydau i bobl ifanc (Mendes, Baidawi, a Snow, 2014). Bu i'r ymchwil sydd ar gael ddangos angen am:

- Well cymorth cyfreithiol i bobl ifanc mewn gofal (Pecora et al, 2017);
- Cymorth cyfreithiol teg i blant a phobl ifanc sydd yn gadael y system gyfiawnder troseddol (Hollingsworth, 2013);
- Gwasanaethau allgymorth cyfreithiol i bobl ifanc (Schwan et al, 2018);
- Cymorth a gwasanaethau cyfreithiol sydd yn mynd i'r afael ag anghenion a hawliau cyfreithiol pobl ifanc LGBTQ+, pobl ifanc ddu a phobl ifanc â statws cyfreithiol ansicr megis ffoaduriaid a cheiswyr lloches (e.e., Estrada a Marksamer, 2006); a
- Chymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol i bobl ifanc ddigartref sydd wedi dioddef troseddau, yn cynnwys mewn systemau cyhoeddus (e.e. gofal maeth) (Britton & Pilnik, 2018).

## **b) Dargyfeirio o garchar**

Er bod nifer o astudiaethau yn dangos effeithiolrwydd rhaglenni sydd yn dargyfeirio pobl ifanc o garchardai (e.e. Wilson a Schwarz, 2012), dim ond ymchwil cyfyngedig sydd yn asesu effaith hynny ar sefydlogrwydd tai i bobl ifanc neu bobl ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref. Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth gref bod rhaglenni dargyfeirio yn ymdrin yn effeithiol â rhai o'r ffactorau personol a theuluol sydd yn cyfrannu at ddigartrefedd (e.e. gwrthdaro teuluol) (e.e., Routt ac Anderson, 2011). O gofio hynny, dylai rhaglenni dargyfeirio sydd yn canolbwyntio ar y teulu ac sydd wedi eu hysbysu gan drawma daclo rhai o'r heriau y mae carcharu yn eu creu i bobl ifanc, yn cynnwys: perthnasoedd bregus gyda theulu a chymuned, cyrhaeddiad addysgol anghyflawn, a heriau iechyd meddwl (y mae pob un yn creu anhawster wrth geisio mynediad at dai a chynnal hynny) (Dodge, Dishion, a Lansford, 2007; Gaetz a O'Grady, 2013).

Mewn nifer o wledydd, mae cofrestru gyda rhaglenni dargyfeirio yn dibynnu ar ddisgresiwn y gwasanaethau heddlu lleol (Jordan a Farrell, 2012). Mae hynny yn dangos angen i weithredu strategaethau dargyfeirio ehangach sydd yn ymestyn y tu hwnt i ymyriadau rhaglennol. Bydd gwneud hynny yn gofyn am fwy o gydweithredu, gyda chefnogaeth ymdrechion deddfwriaethol a pholisi megis:

- Addasu neu ddiddymu polisïau ‘dim goddefgarwch’ yn achos pobl ifanc;
- Hwyluso partneriaethau rhwng ysgolion a rhaglenni dargyfeirio er mwyn ymyrryd yn gynnar pan fo pobl ifanc yn wynebu risg o wrthdaro â’r gyfraith. Mae deddfwriaeth megis *Deddf Disgyblaeth Ysgol Doeth* Colorado yn enghraifft ragorol;
- Diddymu polisïau ac ymarfer sydd yn troseddoli pobl ifanc digartref, megis rhoi dirwyon am fegera yn gyhoeddus (O’Grady, Gaetz, a Buccieri, 2011, 2013; Sylvestre a Bellot, 2014);
- Ymestyn mandad oedran rhaglenni dargyfeirio er mwyn cynnwys pobl ifanc dros 18 oed; a
- Hyfforddiant a chymorth i swyddogion yr heddlu fel eu bod yn ymateb yn fwy grasol i bobl ifanc digartref (Schwan et al, 2018).

Hefyd, mae ymchwil wedi dangos gwerth ymyriadau megis diddymu neu gwtogi polisïau dedfrydu gorfodol (Webster a Doob, 2015), a sefydlu rhaglenni amnest sydd yn galluogi i bobl ifanc ddigartref dileu cyhuddiadau sy’n gysylltiedig â throseddau megis begera oddi ar eu cofnodion - sydd yn gronnu yn ei gwneud yn anodd i bobl ifanc adael y strydoedd (O’Grady et al, 2013). (Rydym yn cydnabod bod y cyfryw fesurau y tu hwnt i gymhwysedd datganoledig Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd oherwydd eu bod yn faterion cyfiawnder troseddol).

### c) Lleihau’r llwybrau i bobl ifanc mewn gofal tuag at ymwneud â chyfiawnder troseddol

Mae nifer o astudiaethau yn dangos bod ymwneud â llesiant plant yn aml yn arwain at ymwneud â chyfiawnder troseddol yn achos pobl ifanc (Halemba et al, 2004; Wylie, 2014), ac mae un astudiaeth o Ohio yn dangos bod dros hanner y carcharorion mewn carchardai ar draws y dalaith yn arfer bod mewn gofal maeth pan oeddent yn bobl ifanc (DeRouselle, 1999). Mae angen cymorth sefydlogi tai ac ataliaeth digartrefedd ar bobl ifanc sydd yn ymwneud â’r ddwy system (yr hyn a elwir yn “bobl ifanc sy’n croesi”) (Mendes et al, 2014; Wylie, 2014), gyda thystiolaeth sydd yn cefnogi:

- Ymyriadau sydd yn lleihau colli byw yn annibynnol drwy gynllunio a gwasanaethau pan fo pobl ifanc yn cael eu gosod yn y ddalfa (Brown et al, 2008);

- Deddfwriaeth a chymorth er mwyn helpu i bobl ifanc ddychwelyd i ofal ar ôl eu carcharu, pan fo'n ddiogel a phriodol gwneud hynny (Wylie, 2014), a dangoswyd bod hynny hefyd yn gost effeithiol (Courtney et al, 2009);
- Gwell cynrychiolaeth ac eiriolaeth i bobl ifanc mewn gofal yn y system gyfiawnder troseddol (Mendes et al, 2014); ac
- Adnoddau ac eiriolaeth gyfreithiol i bobl ifanc sydd wedi dioddef trais, gwahaniaethu, aflonyddu, a thrawma yn y system cyfiawnder troseddol a/neu systemau llesiant plant (Estrada a Marksamer, 2006).

## d) Sicrhau sefydlogrwydd tai a chymorth ar ôl pontio o'r system cyfiawnder troseddol

Mae pontio o gyfleuster cadw yn anodd i nifer o bobl ifanc, yn arbennig pan nad oes ganddynt wasanaethau neu oedolion cefnogol i'w helpu i ganfod tai, cynnal addysg neu gael swydd (Wylie, 2014). Hefyd, mae pobl ifanc sydd â chofnod troseddol yn cael anawsterau mawr o ran cael tai rhent (Mendes et al, 2014). Mae ymchwil yn dangos y gellir cefnogi sefydlogrwydd tai yn dilyn pontio â'r system cyfiawnder troseddol drwy:

- Ailgyssylltu ac aduno â theulu a chymuned a chael mynediad at dai, gyda chymorth rheolaeth achos dwys gan bobl broffesiynol sydd wedi eu hyfforddi'n dda (Mares a Jordan, 2012);
- Cynllunio ar gyfer symud pobl ifanc o sefydliadau cywiro pan maent yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, yn cynnwys cynllunio ar gyfer dychwelyd i'r ysgol a chyflogaeth (Menon et al, 1995); a
- Chydlynu effeithiol a chynllunio amlasiantaeth er mwyn cynyddu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a lleihau costau (St.Basils, 2017).

Bu i ysgolheigion ym maes digartrefedd yn y DU, Dr. Suzanne Fitzpatrick a Dr. Beth Watts nodi bod ***Llwybr Llety Cyfiawnder Pobl Ifanc*** St Basil (2017) yn fodel addawol yn y maes yma yn ystod ein hymgyngoriad ag arbenigwyr rhyngwladol. Mae hwn yn addasiad o fodel '***Llwybrau Cadarnhaol***' (2015) a ddatblygwyd gan St. Basil (Lloegr). Gellir ystyried y model yma ynghyd â model llwybr carcharorion presennol Llywodraeth Cymru, sydd yn nodi darpariaethau er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn pontio o systemau ieuencid i lety sefydlog (Llywodraeth Cymru, 2015).

## Llwybr Llety Cyfiawnder Pobl Ifanc St Basil

Mae **Llwybr Llety Cyfiawnder Pobl Ifanc** St Basil yn cynnig pedwar maes gweithgaredd er mwyn cefnogi sefydlogrwydd tai i bobl ifanc sydd yn pontio o sefydliadau cywiro.

Maes	Elfennau allweddol:
1: Pobl ifanc yn y gymuned yn atal digartrefedd a lleihau troseddu	Ymyrraeth gynnar er mwyn atal pobl ifanc sydd yn troseddu rhag bod yn ddigartref Gwybodaeth a chynllunio amlasiantaeth er mwyn lleihau aildroseddu Diogelu pobl ifanc a theuluoedd sydd yn wynebu risg o niwed
2: Pobl ifanc yn y ddalfa: cynllunio ar gyfer adsefydlu'n llwyddiannus	Cynllunio adsefydlu gyda theuluoedd o'r cychwyn Clustnodi cymorth a thai ar ôl rhyddhau Paratoi cynlluniau wrth gefn
3: Llety a chymorth wedi ei gomisiynu ar y cyd	Tai â chymorth wedi ei sicrhau cyn rhyddhau Gwasanaethau arbenigol i bobl ifanc ag anghenion cymhleth Paratoi pobl ifanc ar gyfer annibyniaeth
4: Amrywiaeth o opsiynau tai gyda chymorth adsefydlu	Ymgysylltu â landlordiaid er mwyn cynhyrchu opsiynau tai a rennir ac opsiynau unigol Mae gan bobl ifanc fynediad at amrywiaeth o fathau o ddeiliadaeth Cymorth i sefydlu a chynnal tenantiaeth

## e) Hyrwyddo ailgysylltu teuluoedd, cymorth cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol i bobl ifanc ar ôl pontio o'r system cyfiawnder troseddol

Yn ogystal â chymorth tai, mae astudiaethau yn dangos y gellir lleihau'r achosion o ddychwelyd i'r system cyfiawnder troseddol trwy ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol cefnogol (Spencer a Jones-Walker, 2004; Todis et al, 2001), a chymorth addysgol a chyflogaeth (Menon et al, 1995). Mae'n bwysig nodi bod ymchwil yn dangos bod perthnasoedd cefnogol ag oedolion yn un o'r ffactorau pwysicaf wrth bennu statws tai a llesiant pobl ifanc ar ôl pontio o garchar (Louisell, 2006). Mae yna gronfa gynyddol o dystiolaeth o blaid ymyriadau teuluol yn achos pobl ifanc sydd yn troseddu, pan fo'n briodol (Knorth et al, 2008; Murphy et al, 2010; Wilson, 2013). Mae ymchwil yn dangos bod angen i

wasanaethau cyfiawnder troseddol ymchwilio i p'un a allai ymyriadau teuluol gefnogi pobl ifanc sydd yn arddangos ymddygiadau troseddol, aildroseddu neu ryngweithio negyddol â'r gyfraith, a sut y byddai hynny yn digwydd ac ar ba ffurf (Mendes et al, 2014). Mae ymchwil yn dangos pwysigrwydd ymyriadau cynnar er mwyn mynd i'r afael â chamdriniaeth ac esgeulustod yn y cartref, o ystyried bod y profiadau hynny yn aml yn cyfrannu at ymddygiadau troseddol. Bu i un astudiaeth Americanaidd ganfod bod plant a phobl ifanc o'r cefndiroedd yma yn 55% yn fwy tebygol o gael eu harestio ac yn 93% yn fwy tebygol o gael eu harestio am droseddu treisgar, o'u cymharu â phlant a phobl ifanc sydd heb brofi camdriniaeth neu esgeulustod (Tuell, 2003). Mae'r ystadegau hyn yn dangos yr angen brys i atal y profiadau hyn yn achos pobl ifanc, gan liniaru cyfrannwr allweddol i ymddygiad troseddol, a'r risgiau dilynol mewn perthynas ag ansicrwydd tai y mae ymwneud â chyfiawnder troseddol yn ei achosi.

## Atal digartrefedd pobl ifanc yn y system diogelu plant

Mae dystiolaeth o bob cwr o'r byd yn dangos yn gyson bod cyfran fawr iawn o boblogaethau pobl ifanc digartref wedi cael cysylltiad â'r system llesiant plant (Fowler et al, 2006; Fowler, Toro, a Miles, 2009; Gaetz et al, 2016). Bu i astudiaeth ar draws Canada gyfan ganfod bod 57.8% o'r bobl ifanc ddigartref wedi cael cysylltiad blaenorol â'r system llesiant plant (Gaetz et al, 2016) ac mae astudiaethau ar draws y DU gyfan wedi dangos bod rhwng 22-33% o bobl ifanc yn ystod eu blwyddyn gyntaf ar ôl gadael gofal wedi bod yn ddigartref (Stein, 2012). Hefyd, mae ymchwil yn dangos gorgynrychiolaeth o blant a phobl ifanc LGBT ac o hiliau eraill yn y system llesiant pobl ifanc a phlant (e.e., Blackstock, Trocmé, a Bennett, 2004; Gaetz et al, 2016), yn ogystal â phlant anabl (Bruhn, 2004; Hill, 2012), gan ddangos bod cysylltiad â llesiant plant yn fater pwysig o ran tegwch (Nichols et al, 2017).

Mae yna dystiolaeth gydnerth sydd yn dangos bod angen dirfawr am newid i'r system llesiant plant mewn nifer o wledydd er mwyn atal digartrefedd ymysg pobl ifanc. Er gwaethaf deddfwriaeth llesiant amrywiol o gwmpas y byd, gall systemau llesiant plant gyfrannu at atal digartrefedd pobl ifanc drwy: (1) atal pobl ifanc rhag cael cysylltiad â'r system llesiant plant; (2) gwella profiadau pobl ifanc mewn gofal; a (3) cefnogi pobl ifanc wrth bontio o ofal. Mae'r canlynol yn archwilio'r dystiolaeth sydd yn cefnogi ymyriadau polisi ac ymarfer mewn systemau llesiant plant allai gyfrannu at atal digartrefedd pobl ifanc. Ymdrinnir yn fanylach â'r ddarpariaeth i bobl ifanc sydd yn gadael gofal yng Nghymru yn ein hadroddiad ategol *Digartrefedd pobl ifanc ac ymadawyr gofal: Mapio ymyriadau yng Nghymru* (Stirling 2018).

## d) Sicrhau sefydlogrwydd tai a chymorth ar ôl pontio o'r system diogelu plant

Mae pontio o wasanaethau llesiant plant yn eithriadol heriol, ac yn aml mae'n gysylltiedig ag iechyd, addysg, tai a deilliannau cyflogaeth gwael (Courtney a Dworsky, 2006; Courtney et al, 2011b; Perez a Romo, 2011; Wertheimer, 2002). Mae astudiaethau yn dangos effeithiolrwydd penodol opsiynau tai cymorthdaledig, trosiannol a chefnogol i bobl ifanc ar ôl pontio o ofal, mewn cyfuniad â chymorth addysg a chyflogaeth, gofal iechyd a hyfforddiant sgiliau byw (Courtney a Huerling, 2005; Kimberlin, Anthony, a Austin, 2009; Lemon, Hines, a Merdinger, 2005; Lorentzen et al, 2008; Montgomery, Donkoh, a Underhill, 2006). Hefyd, mae tystiolaeth hydredol am raglenni byw yn annibynnol ar gyfer pobl ifanc sydd yn gadael y system llesiant plant yn dangos effeithiau cadarnhaol ar sefydlogrwydd tai (Pecora et al, 2006). Mae'n bwysig nodi bod pontio llwyddiannus i annibyniaeth yn achos pobl ifanc wedi cael ei gysylltu â darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddewis eu math o dai (Kroner a Mares, 2011).

Dylai pobl ifanc ymgysylltu â'r broses o gynllunio'r pontio yma mewn da bryd cyn eu bod yn cyrraedd oedran gadael gofal, yn cynnwys drwy broses reoli achos gydnerth tra yn y ddalfa (Nichols et al, 2017; Senedd yr Alban, 2012). Mae astudiaethau wedi dangos bod yna gysylltiad agos rhwng ansawdd a swm y cymorth a roddir ar ôl gadael gwasanaethau llesiant plant a llwyddiant mewn nifer o feysydd bywyd (Stein, 2006; Wade a Dixon, 2006), a bod cymorth ôl-ofal yn lleihau'r tebygolrwydd o droseddu (Mendes et al, 2014). Gall cymorth o'r fath fod yn arbennig o bwysig ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth lluosog (Hiles et al, 2013; Whalen, 2015).

Bu i arbenigwyr rhyngwladol yr ymgysylltwyd â nhw fel rhan o'r adolygiad yma nodi bod angen mynd i'r afael ar frys â mater pontio a warchodaeth plant. Bu i arbenigwyr hefyd ddweud y byddai nifer y bobl ifanc ddigartref yn gostwng yn sylweddol petai gwasanaethau'r llywodraeth a'r gwasanaethau cymunedol yn cael eu cydlynu a/neu integreiddio er mwyn sicrhau bod pontio yn esmwyth, yn seiliedig ar hawliau ac yn canolbwyntio ar sefydlogrwydd tai (Watts, Beth. Uwch Gymrawd Ymchwil ym Mhrifysgol Heriot-Watt. Cyfweiliad personol, 22 Mehefin, 2018; Morton, Matthew. Cymrawd Ymchwil Neuadd Chapin Prifysgol Chicago. Cyfweiliad personol, 29 Mehefin, 2018). Bu i arbenigwyr nodi **Fframwaith Llety a Chymorth Gadawyr Cymorth** Barnardo's fel model addawol ar gyfer hyrwyddo sefydlogrwydd tai ymysg gadawyr gofal (Watts, Beth. Uwch Gymrawd Ymchwil ym Mhrifysgol Heriot-Watt. Cyfweiliad personol, 22 Mehefin, 2018).

Ymyrraeth polisi sydd hefyd yn addawol yw'r '**Gwarant Ôl-ofal**', a ddatblygwyd gan FEANTSA a nifer o wledydd Ewropeaidd er mwyn darparu 'gweithiwr ôl-ofal' i bobl ifanc 16-24 oed er mwyn cynorthwyo gyda thai, addysg, iechyd a llesiant.

## b) Sefydlogrwydd tai wrth ymwneud â llesiant plant



Canfuwyd bod diffyg sefydlogrwydd mewn gofal yn cynhyrchu ystod o ddeilliannau negyddol i bobl ifanc (Gypen et al, 2017; Salazar et al, 2013; Villegas et al, 2014; Wade a Dixon, 2006), a bod newid rheolaidd o ran tai a lleoliadau cymorth yn gysylltiedig â deilliannau tai hirdymor gwael (Havlicek, 2011; Mares, 2010). Er mwyn lleihau methiant gofal maeth ac ansefydlogrwydd tai mewn gofal, mae tystiolaeth yn awgrymu:

- Effeithiolrwydd **model Gofal Maeth Triniaeth** o ran lleihau ansefydlogrwydd lleoliadau (Fisher & Gilliam, 2012; Reddy a Pfeiffer, 1997);
- Yr angen i weithredu gwell mecanweithiau sgrinio er mwyn canfod ac ymateb i gamdriniaeth ac esgeulustod mewn cartrefi gofal maeth (Schwan et al, 2018);
- Pwysigrwydd cymorth iechyd, iechyd meddwl a dibyniaeth hygyrch i ofalwyr a phobl ifanc (Day a Paul, 2007), yn ogystal â chyfyngu a chymorth cwnsela; a'r
- Angen i wella mynediad teuluoedd maeth at wybodaeth, adnoddau, a gwasanaethau all gefnogi eu gofal o'r person ifanc (Brown et al, 2007)

Mae corff llai o ysgolheictod yn ymdrin ag anghenion tai pobl ifanc mewn gofal preswyl (e.e. tai grwpiau), ac yn awgrymu bod gwell deilliannau i bobl ifanc yn gysylltiedig ag arferion sy'n canolbwyntio ar blant ac wedi eu hysbysu gan drawma (Clough, 2008). Bu i adolygiad strwythuredig o'r dystiolaeth am fodolau gofal preswyl nodi pedwar model addawol sydd yn gwella deilliannau tai i bobl ifanc mewn gofal: **y Model Noddfa, y Model Dros Dro, y Model Dysgu Teuluoedd**, a'r **Model Diwylliant Cyfoedion Cadarnhaol** (James, 2011).

### **c) Ymyriadau i wella deilliannau iechyd meddwl, addysgol a chyflogaeth i bobl ifanc mewn gofal ac sy'n pontio o ofal**

Mae ymchwil yn gyson wedi dangos deilliannau iechyd meddwl, addysgol a chyflogaeth gwael i bobl ifanc mewn gofal, ac sydd wedi pontio o ofal (McAuley a Davis, 2009; Mendes a Moslehuddin, 2006). Bu i astudiaeth hydrefol o Awstralia ddangos bod 50% o'r bobl ifanc, ar ôl pontio o ofal, wedi ceisio lladd eu hunain o fewn pedair blynedd (Cashmore a Paxman, 2007). Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos:

- Yr angen i gynyddu argaeledd gwasanaethau iechyd meddwl yn dramatig ar gyfer y boblogaeth yma, yn cynnwys drwy ymyriadau allgymorth ac yn yr ysgol (Gaetz, 2014; Schwan et al, 2018);
- Pwysigrwydd mabwysiadu gwasanaethau iechyd meddwl sydd wedi eu hysbysu gan drawma ar gyfer pobl ifanc mewn gofal ac sydd yn pontio o ofal (Tarren-Sweeney a Vetere, 2013; Mendes et al, 2014);

- Mae ymyriadau sydd yn atgyfnerthu gallu therapiwtig gweithwyr achos a gofalwyr pobl ifanc yn dangos addewid o ran lleihau afiechyd meddwl ymysg pobl ifanc mewn gofal (Herman et al, 2016)

Er bod yna nifer o ymyriadau sydd yn amcanu at wella deilliannau iechyd meddwl, addysgol a chyflogaeth i bobl ifanc mewn gofal neu sy'n pontio o ofal, tystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael am eu heffaith ar sefydlogrwydd tai.

## d) Ailgysylltu ac aduno pobl ifanc a theuluoedd

Mae ymchwil yn awgrymu nad yw systemau llesiant plant yn rhoi digon o gymorth i bobl ifanc ffurfio cysylltiadau cadarnhaol gydag oedolion, ac mae hynny yn gadael nifer o bobl ifanc wedi eu datgysylltu o gymorth cymdeithasol pan maent yn gadael y system (Courtney et al, 2011b; Gaetz et al, 2016). Mae'n bwysig nodi bod astudiaeth ddiweddar wedi canfod, ymysg y bobl ifanc a roddwyd mewn gofal maeth, bod gan y rhai a adunwyd â'u teuluoedd debygolrwydd llawer is o fod yn ddigartref o'i gymharu â phobl ifanc na adunwyd (Fowler et al, 2017), ac mae hynny yn amlygu rôl gadarnhaol aduno teuluoedd mewn perthynas â sefydlogrwydd tai. Er bod astudiaethau eraill wedi dangos arwyddocâd perthnasoedd o ansawdd da mewn perthynas â deilliannau ôl-ofal i bobl ifanc (Cashmore a Paxman, 2006), mae angen mwy o ymchwil er mwyn deall yn well pa fathau o fodolau cymorth sydd orau am hyrwyddo'r perthnasoedd yma i ymadawyr gofal.

## e) Ymestyn yr oedran gofal a darparu cymorth 'ôl-ofal'

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae rhai rhanbarthau a gwledydd yng Ngogledd y Byd wedi ymestyn y gofyniad oedran a/neu gymorth i bobl ifanc mewn gofal y tu hwnt i 18 oed. Er enghraifft, mae'r Alban wedi cyflwyno deddfwriaeth sydd yn ymestyn oedran gofal ac sy'n dwysau ymrwymiad y wladwriaeth i gefnogi pobl ifanc nes eu bod yn eu 20iau cynnar (Llywodraeth Yr Alban, 2013). Yng Nghymru mae Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 a Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) wedi sefydlu darpariaethau sylweddol er mwyn galluogi gweithredu ar bolisïau (Stirling, 2018). Er mai dim ond ychydig o astudiaethau hyd yma sydd wedi asesu deilliannau y ddeddfwriaeth newydd yma oherwydd ei bod yn newydd, mae ymchwil blaenorol wedi canfod gostyngiad mewn digartrefedd ymysg pobl ifanc mewn gofal mewn taleithiau yn America sydd yn ymestyn oedran gofal y tu hwnt i 18 (Dworsky, Napolitano, a Courtney, 2013). Mae'n ymddangos bod y gostyngiad yma ond yn parau nes bod yr estyniad yn dod i ben ar 21 oed, ac mae hynny yn awgrymu bod yr estyniad efallai ond yn oedi digartrefedd i rai pobl ifanc, ac nad yw'r cymorth a ddarperir mewn gofal yn ddigon i fynd i'r afael â'r ffactorau risg sydd yn arwain at digartrefedd pan maent yn cyrraedd oedran gadael (Dworsky, Napolitano, a Courtney, 2013). Dylai ymchwil yn y dyfodol asesu a yw ymestyn oedran gofal yn gysylltiedig â gostyngiadau mewn

digartrefedd ymysg ymadawyr gofal, a pha newidiadau systematig fydd eu hangen efallai i wneud y mwyaf o effaith buddiol polisiâu o'r fath.

## Atal digartrefedd pobl ifanc yn y system iechyd meddwl

Mae yna gysylltiad amlwg rhwng iechyd meddwl a statws tai (Hadland et al, 2011; Kidd, 2013; Kidd et al, 2017). Mae ymchwil yn dangos bod heriau iechyd meddwl yn rhagflaenu (Craig and Hodson, 1998; Karabanow et al, 2007), ac yn ganlyniad i (Kidd et al, 2017, Kidd et al, 2018), ddigartrefedd ymysg pobl ifanc. Bu i ymchwil diweddar ar draws Canada ddangos bod 85% o bobl ifanc digartref Canada yn dioddef argyfwng iechyd meddwl, a bod 42% wedi ceisio lladd eu hunain o leiaf unwaith (Gaetz et al, 2016).

Mae yna angen dybryd am gymorth a gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc *cyn* eu bod ar y strydoedd, yn ogystal â mynediad ar unwaith at y gofal yma pan fyddant yn ddigartref (Kidd et al, 2018). Mae nifer o bobl ifanc sydd yn profi digartrefedd yn dweud y byddai cymorth gyda iechyd meddwl a dibyniaeth ar eu cyfer eu hunain a'u teuluoedd wedi eu rhwystro rhag bod yn ddigartref, ac y byddai mynediad at y cymorth yma wedi gwneud i'r pontio i dai fod yn gyflymach, yn fwy effeithiol ac yn fwy llwyddiannus (Schwan et al, 2018). Mae'r adran yma yn cyflwyno tri phrif faes newid i'r system iechyd meddwl allai gyfrannu at atal digartrefedd pobl ifanc.

### a) Newid yn y system er mwyn gwella mynediad pobl ifanc a theuluoedd at wasanaethau iechyd meddwl a dibyniaeth

Mae fforddiadwyedd, hygyrchedd ac argaeledd gwasanaethau iechyd meddwl a dibyniaeth yn faterion allweddol i bobl ifanc a theuluoedd sydd yn wynebu risg o fod yn digartref neu sydd yn ddigartref (Schwan et al, 2018). Mae pobl ifanc yn profi rhwystrau enbyd rhag cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, ac mae ymchwil yn dangos mai'n anaml iawn y bydd pobl ifanc yn ceisio mynediad at gymorth ar yr adegau pan mae eu hangen fwyaf arnynt (Merikangas et al, 2011; Ratnasingham et al, 2013). Mae gwaharddiadau ynghylch oedran ac ymddygiad defnyddio cyffuriau hefyd yn creu rhwystrau rhag cael mynediad at gymorth (Krüsi et al, 2010).

Mae newidiadau allweddol i systemau ac ymyriadau addawol ar gyfer gwella mynediad pobl ifanc a theuluoedd at wasanaethau iechyd meddwl a dibyniaeth yn cynnwys:

- Ymyrraeth gynnar, rhaglenni cymunedol, a gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl newydd. Mae modelau o raglenni seiliedig ar dystiolaeth yn cynnwys [Jigsaw](#) yn Iwerddon (O’Keeffe et al, 2015) a [Headspace](#) yn Awstralia (Muir et al, 2009);
- Gwasanaethau iechyd meddwl hygyrch iawn mewn ysgolion gyda chymorth dulliau sgrinio effeithiol er mwyn adnabod problemau newydd (MacKenzie, 2018);
- Cwnsela a chyfryngu teuluol am ddim i deuluoedd sydd yn wynebu ansicrwydd tai a heriau eraill, gan ddefnyddio modelau seiliedig ar dystiolaeth megis therapi teulu seiliedig ar ecoleg (Cully, Wu, a Slesnick, 2018);
- Lleihau costau ac amseroedd aros er mwyn cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, yn ogystal â gofynion megis prawf o hunaniaeth, prawf o ddinasyddiaeth a chaniatâd rhiant (Kidd et al, 2018);
- Sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth iechyd meddwl ar draws yr holl asiantaethau yn cael eu hysbysu gan drawma, nad ydynt yn gwahaniaethu, ddim yn orthrymol, yn diwylliannol sensitif ac yn seiliedig ar degwch (Abramovich, 2016; Kezelman a Stavropoulos, 2012);
- Gweithredu modelau darparu hygyrch iawn, megis ‘canolbwyntiau pobl ifanc’ sydd yn cydleoli gwasanaethau iechyd meddwl gydag eraill megis gofal sylfaenol, cymorth cyflogaeth a gwasanaethau tai. Mae enghreifftiau cryfion yn Canada yn cynnwys [ACCESS Open Minds](#) (ar draws Canada), a [The Foundry](#) (British Columbia, Canada); a
- Sefydlu trefniadau rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau sy’n gwasanaethu pobl ifanc er mwyn gwella mynediad ac ansawdd gofal (Nichols a Doberstein, 2016).

## b) Gofal integredig i bobl ifanc a theuluoedd

Mae gwahanu gwahanol systemau gofal (e.e. iechyd, tai, gwasanaethau dibyniaeth), ac ymdrechion digyswllt sefydliadau yn y systemau hynny, yn golygu ei bod yn anodd mynd i’r afael ag anghenion y person cyfan wrth ddelio â phobl ifanc a theuluoedd sydd yn cael trafferthion gydag ansefydlogrwydd tai a heriau iechyd meddwl. Mae ysgolheigion, eiriolwyr a phobl ifanc sydd wedi byw yn ddigartref wedi galw’n gyson am ‘ofal integredig’, pan fo gwasanaethau ieuencid yn ceisio mynd i’r afael ag anghenion pobl ifanc mewn cydweithrediad ar draws darparwyr, gwasanaethau, sectorau a systemau (McGorry et al, 2007). Mae’r ddau ddimensiwn o ofal integredig y mae dystiolaeth ar gael er eu cyfer yn cynnwys:

- **Mynediad wedi ei gydlynu** - Mae mynediad wedi ei gydlynu yn cyfeirio at gymeriant wedi ei safoni a phrosesau asesu pan fo anghenion pobl ifanc yn cael eu cyfateb gan wasanaethau a chymorth priodol ar draws systemau. Mae ymchwil wedi dangos bod mynediad wedi ei gydlynu - megis [Fframwaith Asesu Cyffredin](#) y DU - yn arwain at

well deilliannau i blant a phobl ifanc (ac yn arwain at arbedion cost sylweddol) (Easton et al, 2011).

- Rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau a systemau - Mae rheoli data a rhannu gwybodaeth yn gritigol ar gyfer darparu gwasanaethau cydlynol yn effeithiol ar draws systemau ac asiantaethau lluosog, gan ganiatáu tracio llif cleientiaid, mesur effaith ymdrechion ataliol ac ymateb yn gyflyn pan fo ymyriadau yn methu (Nichols a Doberstein, 2016).

Mae nifer o wledydd yng Ngogledd y Byd wedi bod yn symud tuag at gydlynu ac integreiddio systemau drwy ymarferion, megis cynlluniau cymunedol er mwyn atal a diweddu digartrefedd pobl ifanc, rhannu data a dulliau 'effaith cydlynol' (e.e. Fforwm dros Fuddsoddi mewn Pobl Ifanc, 2014; Turner, 2016). Mae angen ymchwil a gwerthuso systematig er mwyn asesu effeithiau cydlynu ac integreiddio systemau wrth i hynny gael ei roi ar waith mewn cymunedau. Fel y nododd Dr. Matthew Morton, "Sgrinio cynnar i benderfynu ar ansefydlogrwydd tai a mynediad at y cysylltiadau priodol ddylai fod y flaenoriaeth i unrhyw raglen atal" (Morton, Matthew. Cymrawd Ymchwil Neuadd Chapin Prifysgol Chicago. Cyfweiliad personol, 29 Mehefin, 2018).

### **c) Sicrhau sefydlogrwydd tai i bobl ifanc sydd yn pontio o ofal iechyd a sefydliadau gofal cleifion preswyl**

Mae ymchwil hefyd wedi cysylltu pontio heb gymorth o sefydliadau gofal iechyd, wardiau seiciatrig a chanolfannau adsefydlu â digartrefedd pobl ifanc (Backer, Howard, a Moran, 2007). Mewn astudiaeth o bobl ifanc a ryddhawyd o driniaeth preswyl seiciatrig, bu i un rhan o dair brofi digartrefedd ar ôl eu rhyddhau (Embry et al, 2000). Er bod Forchuck a'i gydweithwyr (2006, 2008) wedi dangos effeithlonrwydd tai pontio a chymorth pontio ar gyfer oedolion sydd yn pontio, mae tystiolaeth am boblogaethau o bobl ifanc yn llawer prinnach. Er y gellid addasu'r modelau oedolion yma ar gyfer anghenion pobl ifanc, mae angen mwy o ymchwil yn y maes yma er mwyn asesu pa gymorth sydd ei angen er mwyn sefydlogi tai ar gyfer pobl ifanc sydd yn gadael y sefydliadau hyn.

## **Crynodeb o'r dystiolaeth a bwlech mewn gwybodaeth**

Mae ysgolheictod presennol yn dangos y gall trawsnewid polisiau ac ymarferion mewn perthynas â systemau cyhoeddus gefnogi atal digartrefedd pobl ifanc. Efallai bod y dystiolaeth fwyaf cydnerth yn bodoli ar gyfer ymyriadau ym maes llesiant plant, yn cynnwys

ymyriadau sydd yn meithrin cymorth teuluol a naturiol, sydd yn ehangu gwasanaethau ôl-ofal ac yn paratoi ieuencid ar gyfer byw yn annibynnol. Hefyd mae ymchwil yn dangos bod pontio o ofal, sefydliadau cywiro, a sefydliadau gofal iechyd cleifion preswyl heb gymorth yn uniongyrchol yn achosi digartrefedd i nifer o bobl ifanc. Mae ymyriadau effeithiol sy'n cefnogi ieuencid yn ystod y cyfnodau pontio yma yn cynnwys: cynllunio rhyddhau cynnar wedi ei arwain gan ieuencid; cyfryngu teuluol ac aduno cyn, yn ystod ac ar ôl gadael systemau cyhoeddus; cymorth ariannol a thai ar ôl gadael gofal neu garchar; rheoli achos wedi ei hysbysu gan drawma; rhaglenni dargyfeirio mewn carchardai; a gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a dibyniaeth ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd / gofalwyr.

Fel mater polisi cyfunedig sydd yn croesi systemau a sectorau lluosog, mae ysgolheigion wedi dadlau y dylai atal digartrefedd pobl ifanc gael ei gefnogi gan ddull traws-system integredig sydd yn canolbwyntio ar ddatgymalu'r methiannau system sydd yn cyfrannu at ddigartrefedd pobl ifanc. Mae newidiadau traws-system ychwanegol fyddai'n helpu i atal digartrefedd pobl ifanc yn cynnwys:

- Mabwysiadu cyfeiriadedd sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc a theuluoedd (MacKenzie, 2018) yn yr holl systemau cyhoeddus, gan weithio gyda phobl ifanc ac aelodau eu teuluoedd er mwyn mynd i'r afael â'r heriau maent yn eu hwynebu, pan fo'n ddiogel, priodol a dymunol i wneud hynny;
- Gwella ymwybyddiaeth pobl ifanc o'u hawliau a'r budd-daliadau sydd yn ddyledus iddynt, yn ogystal â'r gwasanaethau a chymorth sydd ar gael ac sydd yn ddyledus iddynt;
- Mabwysiadu dull integredig ar draws systemau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref neu sydd yn ddigartref;
- Gwella proses pontio pobl ifanc o sefydliadau a systemau a gyllidir yn gyhoeddus drwy ymyriadau a dargedir a newid systemau;
- Gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau a dargedir at sefydlogi tai ar gyfer pobl ifanc sydd yn pontio o sefydliadau a systemau a gyllidir yn gyhoeddus;
- Ffocws traws-system ar ddeilliannau y tu hwnt i dai ar gyfer pobl ifanc yn cynnwys deilliannau sy'n gysylltiedig â heriau iechyd meddwl, cynhwysiant cymdeithasol, llesiant, ymgysylltu â chyflogaeth ac addysg, a pherthnasoedd teuluol;
- Datblygu offer sgrinio, mewn a rhwng systemau cyhoeddus, sydd yn gallu lleihau risg pobl ifanc o fod yn ddigartref (yn ogystal ag asedau pobl ifanc);
- Defnyddio lens sydd wedi ei hysbysu gan degwch a thrawma wrth ddylunio newidiadau mewn systemau er mwyn atal digartrefedd pobl ifanc; a
- Chymhwyso modelau ac athroniaethau lleihau niwed yn y systemau diogelu plant er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a thwf cadarnhaol i bobl ifanc.

Er gwaetha'r canfyddiadau yma, mae'r gronfa dystiolaeth ar gyfer ataliaeth systemau mewn perthynas â digartrefedd pobl ifanc yn brin mewn rhai ardaloedd. Cafwyd ysgolheictod mwy cyfyngedig ar y cyfraniad y gall gofal iechyd, addysg a systemau mewnfudo ei wneud i atal digartrefedd pobl ifanc. Hefyd, mae yna nifer o heriau methodolegol yn gysylltiedig â phriodoli cysylltiadau rhwng mathau penodol o ataliaeth systemau (e.e. cydlynu systemau) a gostyngiadau mewn digartrefedd pobl ifanc, ac mae hynny yn dangos angen am ymchwil arloesol, traws ddisgyblaethol er mwyn deall yr effeithiau yma yn well.

# Ymyrraeth gynnar

Mewn nifer o rannau o'r byd, mae ein hymateb i ddigartrefedd pobl ifanc wedi bod drwy ddarparu gwasanaethau brys a chyfreithiol neu gosbau troseddol. Yn ôl y rhan fwyaf o fesuriadau, mae hynny wedi bod yn aneffeithiol iawn, ac mae digartrefedd pobl ifanc yn parhau i gynyddu mewn nifer o wledydd Gogledd y Byd (MacKenzie et al, 2016; Canolfan Genedlaethol Addysg Digartrefedd, 2017; Pleace a Fitzpatrick, 2004). I'r gwrthwyneb, mae dulliau ymyrraeth gynnar yn ceisio adnabod a mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc a'u teuluoedd cyn iddynt fod yn ddigartref, gan leihau'r niferoedd fydd yn ddigartref. Mae'r ymyriadau yma yn nodi ac yn mynd i'r afael ag "anghenion corfforol, emosiynol, materol, rhyngbersonol, cymdeithasol ac addysgol pobl ifanc sydd ar fin wynebu risg o fod yn ddigartref neu sydd newydd ddod yn ddigartref (Gaetz, 2014, p. 482).

Drwy ymdrechion i ymyrryd yn gynnar, mae pobl ifanc yn derbyn y cymorth i barhau mewn tai diogel gyda'u teuluoedd, neu i bontio i lety priodol, diogel ac annibynnol (Gaetz et al, 2014). Mae nifer o raglenni ymyrraeth gynnar yn amcanu at atgyfnerthu'r ffactorau diogelu sydd yn lliniaru'r risg o ddigartrefedd ac yn sefydlogi tai i bobl ifanc drwy gynyddu ymgysylltiad ag ysgolion, meithrin cymorth teuluol a naturiol, gwella iechyd a llesiant a gwella sgiliau datrys anghydfodau.

Mae adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos pedwar math o ymyrraeth gynnar y mae yna dystiolaeth gref ar eu cyfer: **ymyriadau yn yr ysgol, ymyriadau gaiff eu harwain gan dai** (e.e. Cartrefi Gwesteio), **gwella cymorth teuluol a naturiol, a chymorth iechyd a dibyniaeth sy'n canolbwyntio ar atal**.

**"Mae angen i ni gynyddu ein cymorth i gymhlethdodau'r ymyriadau yma. Mae gormod o'n hymyriadau yn cael eu galw'n 'ataliaeth', ond nid ydynt yn cynorthwyo pobl ifanc dim ond pan fyddant yn ddigartref."**

(Hayes, Jasmine. Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyngor Rhyngasiantaeth ar Ddigartrefedd yr Unol Daleithiau. Cyfweiliad personol, 29 Mehefin, 2018).

## Ymyrraeth gynnar yn yr ysgol

Mae pobl ifanc ddigartref yn aml yn wynebu anawsterau dybryd o ran cael addysg (Gaetz, 2016; Gaetz a O'Grady, 2002; Karabanow et al, 2010; Liljedahl et al, 2013). Mewn astudiaeth ar draws Canada gyfan o bobl ifanc (13-24) ddigartref, nododd 50.5% nad oeddent yn ymgysylltu â chyflogaeth, addysg na hyfforddiant (Gaetz et al, 2016). Mae cyfraddau isel o gwblhau ysgol yn gysylltiedig â nifer o ffactorau, yn cynnwys anabledau dysgu, problemau dibyniaeth, trawma, a phroblemau iechyd meddwl (Gaetz et al,



2016). Mae'n bwysig nodi bod tystiolaeth yn awgrymu y gall mynychu ysgol atgyfnerthu ffactorau diogelu cymdeithasol allweddol i blant a phobl ifanc (Henley, 2010), a bod hynny yn galluogi i bobl ifanc feithrin cydnerthedd, sgiliau cymdeithasol a pherthnasoedd cymdeithasol cadarnhaol (Alvord a Grados, 2005; Henley et al, 2010).

Mae ysgolion yn amgylcheddau optimaidd er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc sydd yn wynebu ansicrwydd tai a lleihau'r rhwystrau rhag darparu gwasanaethau (Bradley, 2011), yn arbennig o ystyried bod 77% o'r bobl ifanc o deuluoedd digartref yn mynychu ysgol yn rheolaidd (Sulkowski a Michael, 2014). Amcan rhaglenni ymyrraeth gynnar yn yr ysgol yw adnabod pobl ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref, o ddatgysylltu â'r ysgol, a heriau arwyddocaol eraill er mwyn darparu cymorth fydd yn lleihau'r risgiau yma yn effeithiol, yn sefydlogi tai pobl ifanc, yn atgyfnerthu perthnasau â'u teuluoedd, ac yn cadw pobl ifanc yn eu cymunedau (Gaetz a Dej, 2017). Mae ymchwil a gwerthusiadau diweddar yn dangos effeithiolrwydd penodol partneriaethau rhwng ysgolion, darparwyr gwasanaethau cymdeithasol, ac adnoddau cymunedol eraill o ran darparu ymyriadau cynnar (Poppe a Gale, 2018), yn arbennig pan ddefnyddir "dull sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc a theuluoedd" (MacKenzie, 2018).

Mae rhaglen **Youth Reconnect** yn Awstralia yn enghraifft gynnar ac effeithiol o'r dull yma. Fe'i lanswyd yn 1999, ac erbyn hyn mae yna dros 100 o raglenni Youth Reconnect ar draws Awstralia. Fe'i targedir at bobl ifanc 12-18 oed a'u teuluoedd, ac mae Youth Reconnect wedi eu lleoli mewn ysgolion pobl ifanc ac yn amcanu at atal digartrefedd drwy ddarparu cymorth a gwasanaethau drwy rwydwaith o wasanaethau ymyrraeth gynnar yn y gymuned (Llywodraeth Awstralia., 2013). Mae Youth Reconnect yn amcanu at:

- Gysylltu ysgolion a phobl ifanc â gwasanaethau cymunedol all roi cymorth i bobl ifanc a'u teuluoedd;
- Gwella ymwybyddiaeth o ddigartrefedd pobl ifanc ymysg staff ysgolion, athrawon a gweinyddwyr, yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau lleol sydd ar gael;
- Adnabod yn systematig pan fo pobl yn wynebu risg neu'n profi digartrefedd, ac ymyrryd yn gyflym er mwyn sefydlogi'r sefyllfa tai; a
- Gwella ymgysylltiad pobl ifanc ag addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a chymuned (Llywodraeth Awstralia., 2013).

Mae gwerthusiadau o raglen Youth Reconnect wedi dangos nifer o ddeilliannau cadarnhaol (Evans & Shaver, 2001; Llywodraeth Awstralia., 2013), ac mae arolwg cynhwysfawr Llywodraeth Awstralia. (2003) wedi dangos deilliannau cadarnhaol mewn perthynas â: sefydlogrwydd tai i bobl ifanc, gallu pobl ifanc a'u rhieni i reoli anghydfod teuluol, ymgysylltu ag addysg a chyflogaeth, a chysylltiad cymunedol. Enghraifft o Ganada sydd yn defnyddio model debyg yw rhaglen **Youth Reconnect** RAFT, sydd yn darparu cymorth mewn

lleoliadau er mwyn dargyfeirio pobl ifanc rhag mynd i mewn i'r system loches ac i aros mewn tai yn eu cymunedau.

Mae **Prosiect Geelong** (TGP) – ymyrraeth gynnar yn yr ysgol yn Awstralia - yn adeiladu ar lwyddiant Youth Reconnect. Mae TGP yn seiliedig ar “fodel o gymuned o ysgolion a gwasanaethau pobl ifanc” o ymyrraeth gynnar (COSS) (MacKenzie, 2018, t. 5). Mae model COSS yn cynnig cymorth mewn lleoliadau ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd gyda'r nod o leihau ddatgysylltu ag addysg, atal bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn ifanc, a mynd i'r afael â materion teuluol sy'n cyfrannu at ddigartrefedd. Rhwng 2013-2016, mae'r canlyniadau yn dangos:

- Bu i nifer y bobl ifanc oedd yn mynd i'r system gymorth digartrefedd **ostwng 40%**, ac mae ymchwil wedi nodi cysylltiad a TGP; ac
- Ymysg ysgolion sydd yn peilota TGP, bu i'r gyfradd gadael ysgol yn gynnar **ostwng 20%** (MacKenzie, 2018).

**“Geelong yw'r math mwyaf cyflawn o ataliaeth. Byddai ei hyblygrwydd i wahanol gyd-destunau, systemau lleol a seilwaith yn caniatáu iddo gael ei ehangu a'i fabwysiadu'n rhyngwladol.”**

**(Morton, Matthew. Cymrawd Ymchwil Neuadd Chapin Prifysgol Chicago. Cyfathrebiad personol, 29 Mehefin, 2018).**

Mae llwyddiant TGP ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio gan yr *Upstream International Living Lab* (UILL) - consortiwm ymchwil a datblygu cymdeithasol rhyngwladol sydd yn canolbwyntio ar ddylunio, gweithredu ac astudio ymyriadau rhaglenni a pholisi sydd yn meithrin newid mewn systemau sydd yn arwain at atal digartrefedd pobl ifanc. Craidd y gwaith yma yw hwyluso, addasu a gweithredu'r model TGP ym mhob un o'r gwledydd sydd yn cymryd rhan yn y consortiwm.

## Prosiect Geelong a Model COSS (Awstralia)

---

Cychwynwyd Prosiect Geelong yn 2010 ac mae'n seiliedig ar "fodel o gymuned o ysgolion a gwasanaethau pobl ifanc" o ymyrraeth gynnar (COSS) (MacKenzie, 2018, t. 5). Mae'r model yn cynnig cymorth mewn lleoliadau ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd gyda'r nod o leihau ddatgysylltu ag addysg, atal bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn ifanc, a mynd i'r afael â materion teuluol sy'n cyfrannu at ddigartrefedd pobl ifanc,

### **Nodweddion Darpariaeth Gwasanaeth Allweddol:**

**Cydweithrediaeth Gymunedol:** Mae 'cymuned o ysgolion a gwasanaethau ieuencid' yn rhannu cyfrifoldebau ar y cyd am adnabod ac atgyfeirio myfyrwyr sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref. Mae yna un pwynt mynediad i'r holl fyfyrwyr, ac mae 'gweithwyr ymyrraeth gynnar' yn cefnogi pobl ifanc drwy gymorth rheoli achosion. Mae penderfyniadau ynghylch atgyfeirio yn seiliedig ar ddata ac maent yn defnyddio proses sgrinio aml-gam er mwyn adnabod pobl ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref.

**Sgrinio'r boblogaeth am risg:** Mae'r model yn defnyddio strategaeth unigryw er mwyn adnabod pobl ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref. Tra bod rhaglen Youth Reconnect yn dibynnu ar oedolion a phobl ifanc yn hunan adrodd pan fyddant yn wynebu argyfwng, mae'r model CASS yn sgrinio'r *holl* fyfyrwyr am risgiau ac asedau. Mae'r holl fyfyrwyr yn cwblhau **Arolwg o Anghenion Myfyrwyr**, ac mae'r canlyniadau yn cael eu cymharu â data arsylwi ychwanegol gan athrawon a chwnsleriaid. Mae pobl ifanc yr ystyrir eu bod yn wynebu risg o fod yn ddigartref, o ymwneud â throseddu, neu ddatgysylltu yn cael cyfweiliad sgrinio byr. Yna mae'r myfyrwyr yn cael eu hatgyfeirio at gymorth cymunedol sydd yn defnyddio model tair haen yn eu hymateb.

**Fframwaith ymarfer hyblyg ac ymatebol:** Mae gan y model dair lefel o ymateb:

Haen 1: Monitro actif gan staff ysgol, neu ymgynghoriad eilaidd pan atgyfeirir at raglen neu asiantaeth arall.

Haen 2: Cymorth gwaith achos, naill ai cwnsela cryno neu reoli achos gan TGP.

Haen 3: Rheolaeth achos 'cofleidiol' ar gyfer achosion cymhleth sydd angen cyfraniad ffurfiol gan nifer o asiantaethau.

Drwy ddefnyddio'r dull yma mae darparu'r ymateb yn dibynnu ar y math o gymorth sydd ei angen, a gall hynny amrywio gydag amser. Mae gallu'r model i weithredu'n hydredol a hyblyg yn allweddol er mwyn darparu gwasanaethau yn effeithiol a gwella deilliannau digartrefedd.

**Ymgorffori monitro a mesur deilliannau hydredol:** Mae ymagwedd cymunedol model COSS at ddeilliannau pobl ifanc yn dilyn y grŵp cyfan o bobl ifanc yn y gymuned sydd yn wynebu risg, gan fonitro cyflawniadau dros amser.

---

Ceir mwy o fanylion am y model, a gwerthusiad diweddar am ei effeithiolrwydd yng [Ngwerthusiad Rhaglen Interim 2018](#) (MacKenzie, 2018).

---

Mae partneriaethau cymuned-ysgol eraill sydd yn defnyddio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd wedi dangos deilliannau cadarnhaol tebyg. Bu i werthusiad o [Raglen Teuluoedd Sefydlog](#) Sefydliad Siemer (Unol Daleithiau) ddangos, ymysg teuluoedd oedd yn derbyn ystod o wasanaethau tai, cwnsela a rheoli achos drwy ymyriadau yn yr ysgol, bod 72% yn gallu cael tai sefydlog, bod 65% wedi cynyddu eu hincwm, a bod 99% o'r bobl ifanc wedi parhau i fod yn sefydlog yn yr ysgol (Poppe a Gale, 2018, p. 54). Mae effeithiolrwydd y rhaglenni hyn yn gysylltiedig ag offer sgrinio yn yr ysgol all ganfod yn sydyn pan fo pobl ifanc yn wynebu risg o fod yn ddigartref ac yn wynebu anawsterau (MacKenzie, 2018; Poppe a Gale, 2018).

## Ymyriadau cynnar wedi ei arwain gan dai

Mae ymchwil yn dangos pan fo pobl ifanc yn gadael cartref bod nifer yn ceisio aros dros dro gyda ffrindiau neu deulu. Fodd bynnag, nid yw rhai pobl ifanc yn gallu canfod llety dros dro neu gymorth, ac maent yn diweddu ar y stryd neu mewn llochesi sydd yn aml ymhell oddi wrth eu cymunedau, eu ffrindiau a'u hysgol (Schwan et al, 2018). Mae ymyriadau cynnar wedi eu harwain gan dai yn darparu atebion tai tymor byr (e.e. cartrefi gwesteio) neu hirdymor (e.e. Ailgartrefu Cyflym) i'r heriau tai yma y mae pobl ifanc yn eu hwynebu.

**“Sut ydym yn ymgysylltu â'r bobl ifanc hynny nad ydynt wedi ymgysylltu â gwasanaethau?”**

**(Slesnick, Natasha. Athro Datblygiad Dynol a Gwyddor Teulu Prifysgol talaith Ohio. Cyfathrebiad personol, 29 Mai, 2018).**

## Tai seibiant (Cartrefi Gwesteio)

Mae tai seibiant, y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel “[Cartrefi Gwesteio](#),” yn fath o ddargyfeiriad lloches sydd yn darparu tai dros dro a chymorth i bobl ifanc sydd wedi gorfod gadael cartref. Nod model Cartrefi Gwesteio yw rhoi cymorth ar unwaith a lle diogel i aros yn y gymuned, gan ddargyfeirio pobl ifanc rhag mynd i'r system loches, a galluogi pobl ifanc i aros mewn cysylltiad â theulu a chyfoedion, tra'n parhau i fynd i'r ysgol (Gaetz a Dej, 2017). Mae'r model yma yn rhoi cyfle i bobl ifanc a'u teuluoedd fynd i'r afael â materion tanategol (ar wahân neu ar y cyd), yn gyfun â strategaeth aduno teuluoedd, pan fo hynny yn briodol a

diogel. Er bod modelau Cartrefi Gwesteio yn wahanol, maent yn aml yn cynnwys aelodau'r gymuned sy'n cynnig ystafell yn eu cartrefi i berson ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref, gan alluogi'r bobl ifanc a'u teuluoedd i dderbyn cymorth tra penderfynir ar y camau nesaf i'w cymryd mewn perthynas â thai.

Gall canolbwyntio ar ailgysylltu teuluoedd atgyfnerthu teuluoedd a lleihau faint o amser y bydd pobl ifanc yn ei dreulio yn ddigartref (Gaetz et al, 2013). Hefyd gall y model yma atal pob ifanc sydd yn pontio o ofal maeth rhag bod yn rhan o'r system digartrefedd pobl ifanc drwy leihau eu teimlad o arwahanrwydd (Gaetz et al, 2013). Er bod gwerthusiadau o raglenni Cartrefi Gwesteio penodol yn bodoli, tystiolaeth gymharol gyfyngedig sydd ar gael sy'n dangos effeithiolrwydd y model Cartrefi Gwesteio ar draws cymunedau a gwledydd. Fodd bynnag, mae dwy raglen Cartrefi Gwesteio yn darparu tystiolaeth gref o addewid y rhaglen:

- **Nightstop** (Depaul, DU) yw'r rhaglen Cartrefi Gwesteio fwyaf helaeth yn y DU, sy'n darparu gwasanaethau cymorth yn y gymuned i bobl ifanc mewn 40 o gymunedau. Bu i werthusiad yn 2010 ddangos bod 21% o'r bobl ifanc wedi dychwelyd i gartref y teulu ar ôl aros mewn cartref Gwesteio Nightstop, symudodd 36% i dai â chymorth, bu i 14% gael llety annibynnol, symudodd 11% i dai cymdeithasol a symudodd 14% i fewn gyda ffrind (Insley, 2011).
- Mae **Youth Advocates of Sitka** (Sitka, Alaska) yn darparu llety dros dro gyda theulu gwesteio â thrwydded gwladol am hyd at 18 mis i bobl ifanc 5-21 oed. Mae gwerthusiad yn dangos bod 96% o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn Youth Advocates rhwng 2008-2012 wedi pontio i amgylchedd tai sefydlog ar ôl gadael (Raising the Roof, 2018).

Hefyd, nodwyd bod Cartrefi Gwesteio yn ymyrraeth gynnar effeithiol oherwydd eu hyblygrwydd ac effeithiolrwydd cost (Adran Tai a Datblygiad UDA, 2016). Oherwydd nad yw Cartrefi Gwesteio yn dibynnu ar safleoedd byw ynghyd penodol, gallent gostio llawer llai am bob person ifanc na llochesi cymunol (Raising the Roof, 2018). Hefyd, mae hyblygrwydd Cartrefi Gwesteio yn galluogi i'r model yma gael ei defnyddio fel llety mewn argyfwng neu dai tymor hirach ar gyfer pobl ifanc sydd yn pontio o ofal (Adran Tai a Datblygiad UDA, 2016). Mae **Point Source Youth**, yn Efrog Newydd wedi dechrau gwaith pwysig ar Gartrefi Gwesteio fel dewis amgen i aros mewn lloches, gan dargedu pobl ifanc LGBTQ yn benodol.

Mae'n rhaid i ymdrechion ymyrraeth gynnar, yn cynnwys ymyriadau cynnar wedi ei arwain gan dai, adnabod pobl ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref yn gyflym ac effeithiol. Yn anffodus ymchwil cyfyngedig sydd ar gael ar offer allai gynorthwyo'r broses hon. Mae **offeryn sgrinio cyffredinol** Prosiect Geelong yn enghraifft gref yn Awstralia. Mae **Offeryn Asesu a Blaenoriaeth Pobl Ifanc (YAP)** yn offeryn o Ganada sydd wedi ei ddatblygu i sgrinio am risg o ddigartrefedd ymysg pobl ifanc, ac ar hyn o bryd mae'n cael ei brofi fel rhan

o brosiect **Making the Shift** . Gall yr offeryn fod yn addawol ar gyfer sgrinio risg mewn amryw o sectorau a gwasanaethau cymdeithasol.

## Offeryn Asesu a Blaenoriaethu Pobl Ifanc (Canada)

---

Mae **Offeryn Asesu a Blaenoriaethu Pobl Ifanc (YAP)** yn offeryn o Ganada sydd wedi ei ddatblygu er mwyn sgrinio am risg o ddigartrefedd ymysg pobl ifanc. Fel arfer mae'n cael ei ddefnyddio pan fo person ifanc sy'n agored i niwed yn dod i gysylltiad â'r system gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r offeryn yn cynnwys 22 o gwestiynau cyn sgrinio gorfodol sydd yn canolbwyntio ar risgiau digartrefedd tymor byr a hirdymor, gaiff eu dilyn gan gyfweiliad (os bydd angen). Mae'r cyfweiliad yn canolbwyntio ar hanes bywyd y person ifanc a'i sefyllfa bresennol, yn ogystal â'i gryfderau a'i asedau. Yn ystod yr asesiad, bydd sgoriau yn cael eu rhoi mewn pum prif faes.

- a. Risg o ddigartrefedd ar unwaith
- b. Risg o ddigartrefedd hirdymor
- c. Blaenoriaethu
- d. Iechyd meddwl
- e. Trawma

Mae'r wybodaeth a geir drwy'r asesiad yn helpu'r aseswr (gweithiwr achos yn aml) i wneud penderfyniad ar y llwybr gwasanaeth gorau ar gyfer y person ifanc, yn ogystal ag argymhellion mewn perthynas ag atgyfeirio a blaenoriaethau. Yn wahanol i nifer o offerynnau asesu eraill, mae'r YAP yn seiliedig ar gryfder - yn canolbwyntio ar gryfderau, sgiliau, asedau a nodau'r bobl ifanc, yn ogystal â'u nodweddion bregus.

Bydd Prifysgol Ottawa yn cynnal proses ddilysu'r offeryn YAP a bydd y canlyniadau yn cael eu rhyddhau ar ôl ei chynnal.

---

# Atgyfnerthu cymorth teuluol a naturiol

Mae gwahanu a gwrthdaro teuluol yn gysylltiedig â digartrefedd, ac mae ymchwil yn gyson yn dangos cysylltiadau rhwng gwrthdaro teuluol, camdriniaeth, cysylltiad â llesiant plant, tlodi ac ansicrwydd tai (Pleace et al, 2015). Hefyd, mae ymchwil yn dangos bod ymgysylltiad â llesiant plant, methiant teuluol, a gwahanu teuluol mewn rhai cyd-destunau yn ddigwyddiadau cyffredin ymysg teuluoedd sydd yn profi digartrefedd (Shinn et al, 2015; Shinn, Brown, a Gubits, 2017), a dangoswyd bod methiant teuluol yn cynyddu'r risg o dlodi (Sefydliad Joseph Rowntree, 2017). Mae pwysigrwydd teuluol ac oedolion tosturiol ym mywydau'r bobl ifanc yn dangos yr angen i fuddsoddi mewn rhaglenni sydd yn atgyfnerthu cymorth teuluol a naturiol (e.e. athrawon, cydweithwyr, hyfforddwyr) pan fo pobl ifanc a'u teuluoedd yn profi ansicrwydd tai.

**“Bu i ni ddysgu bod nifer o bobl ifanc yn gallu aros yn eu cartrefi gydag addewid am gymorth, nad yw neb eisiau bod yn rhiant gwael, nad yw teuluoedd eisiau cicio eu plant allan, ond eu bod yn credu nad oes ganddynt fwy o atebion.”**

**(Ledene, Kim. Cyfarwyddwr Tai a Lloches Pobl Ifanc a Chlybiau Bechgyn a Genethod Calgary. Cyfweiliad personol, 12 Mehefin, 2018).**

Prin yw'r ymchwil ar effaith rhaglenni cymorth teuluol a naturiol ar sefydlogrwydd tai i bobl ifanc, er mai cyfryngu a chymorth teuluol yw'r mathau mwyaf cyffredin o ataliaeth (Pawson et al, 2007). Mae tueddiadau yn yr ymchwil sydd ar gael yn dangos:

- Gall llety dros dro i bobl ifanc, yn cynwys llety seibiant hybu cymhelliant i deuluoedd a gofalwyr geisio ac ymgysylltu ag ymyriadau cefnogol (Day a Paul, 2007; Slesnick a Prestopnik, 2005b); ac
- Mae therapi teuluol seiliedig ar ecoleg yn dangos addewid fel mesur ataliol i bobl ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref. Mae treialon rheoli ar hap wedi dangos gwell perthnasoedd teuluol, yn ogystal â llai o ddefnyddio sylweddau a gwell llesiant meddyliol (Slesnick a Prestopnik, 2005b).

Hefyd, mae **Prosiect Arddangos Making the Shift** (Canada) yn cynnal gwerthusiad datblygiadol o ymyriadau ataliol Cymorth Teuluol a Naturiol ar draws wyth o ddinasoedd Canada. Mae'r arddangosiadau yma yn profi sut mae'r ymyriadau yn gweithio mewn gwahanol sefydliadau (e.e. lloches, ysgol a chyd-destunau allgymorth) ar gyfer pobl ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref neu sydd wedi bod yn ddigartref yn ddiweddar (Gaetz, 2017).



# Cymorth iechyd meddwl a dibyniaeth

Mae ymchwil yn dangos bod pobl ifanc sydd yn agored i fod yn ddigartref yn wynebu risg yr un pryd o ddatblygu problemau iechyd meddwl, o ystyried bod y ffactorau risg yn achos y ddau beth yn aml yn gorgyffwrdd (e.e. tlodi, camdriniaeth, absenoldeb o'r ysgol, anghydweld teuluol) (Breugel a Smith, 1999; Day a Paul, 2007; Toro, Lesperance, a Braciszewski, 2011). Mae nifer o bobl ifanc ond yn ceisio triniaeth am iechyd meddwl a defnyddio sylweddau pan maent mewn argyfwng neu'n agos at fod (Vitopoulos et al, 2017), ac mae rhai yn wynebu rhwystrau sylweddol wrth geisio cael cymorth (Schwan et al, 2018). Mae ymyrryd yn gynnar, pan fo trallod iechyd meddwl ac ansicrwydd tai yn codi, yn allweddol er mwyn sicrhau deilliannau hirdymor cadarnhaol i bobl ifanc (Kidd et al, 2015). Mae hynny yn arbennig o wir o ystyried y dystiolaeth sy'n dangos bod pobl ifanc sydd yn cefnu ar ddigartrefedd yn gyflym yn llai tebygol o brofi problemau iechyd meddwl a defnyddio sylweddau (Milburn et al, 2012; Toro, Lesperance, a Braciszewski, 2011).

Mae yna brinder ymchwil ar gymorth *ataliol* i bobl ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref ac sy'n dioddef problemau iechyd meddwl a/neu defnyddio sylweddau. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod:

- Cael sbectwm o wasanaethau ar gael yn bwysig i gefnogi'r cymorth iechyd meddwl a dibyniaeth amrywiol sydd ei angen ymysg pobl ifanc. Bydd pobl ifanc sydd ag anghenion lefel uchel angen mwy o gymorth dwys a hirdymor mewn perthynas â sefydlogrwydd tai ac annibyniaeth (Kidd et al, 2016).
- Mae perthnasoedd therapiwtig agos â gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol yn allweddol i driniaeth, ymgysylltiad a dargadw person ifanc, ac mae ymchwil yn dangos pwysigrwydd penodol ymagweddau seiliedig ar drawma tuag at ofal (Kidd et al, 2014; Vitopoulos et al, 2017);
- Gall cymorth ôl-argyfwng helpu i atal troi allan a methiannau tenantiaeth, a chefnogi cyfryngu teuluol, datblygu sgiliau cymdeithasol, datblygu sgiliau personol (e.e. adnoddau ymdopi), a chyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth (Day a Paul, 2007).
- Mae gweithwyr proffesiynol sydd yn gweithio mewn ysgolion mewn lle da i eirioli dros anghenion iechyd meddwl pobl ifanc ar eu pennau eu hunain (Sulkowski a Michael, 2014); ac
- Mae darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl yn yr ysgol yn helpu i leihau anghysonderau iechyd meddwl a brofir gan bobl ifanc ddigartref (Cummings, Ponce, a Mays, 2010).

Yn olaf, fel mae Day a Paul (2007 t.21) yn ei nodi "mae gwaith ataliol yn ymwneud nid yn unig â phobl ifanc ond hefyd â'u rhieni neu ofalwyr." Mae gofalwyr pobl ifanc sydd yn gadael y system llesiant plant yn adrodd am lefelau uchel o straen a heriau o ran ymdopi (Day a

Paul, 2007; Herman et al, 2011). Mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu y gall cefnogi iechyd meddwl a llesiant gofalwr a gweithwyr yn y system helpu i wella'r broses o bontio o'r system llesiant plant i bobl ifanc (Herman et al, 2011).

## Crynodeb o'r dystiolaeth a bwlech mewn gwybodaeth

Er bod yna nifer o fodelau a rhaglenni ymyrraeth gynnar mewn cymunedau o gwmpas y byd, mae ymchwil a gwerthuso yn dechrau dal i fyny ag effeithiau'r rhaglenni hyn. Mae'r adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos:

- Mae ymyrryd yn gynnar pan nodir bod pobl ifanc yn wynebu risg o fod yn ddigartref yn gritigol i ddeilliannau cadarnhaol tymor byr a hirdymor i bobl ifanc, ac mae peth ymchwil hefyd yn nodi arbedion cost yn gysylltiedig â'r dull yma.
- Mae yna dystiolaeth seiliedig ar boblogaeth sy'n cefnogi effeithiolrwydd ymyriadau yn yr ysgol, effeithiau cadarnhaol y mae ymchwil ac arbenigwyr yn eu cysylltu â phartneriaethau cymunedol, ymyriadau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd ac offer sgrinio ar gyfer adnabod pobl ifanc sy'n wynebu risg;
- Gall tai seibiant, ynghyd â chyfryngu teuluol a chymorth aduno, fod yn effeithiol o ran atal digartrefedd pobl ifanc. Mae angen ymchwil hydredol er mwyn deall effeithiau hirdymor yr ymyriadau yma.
- Mae pobl ifanc a'u teuluoedd yn elwa'n fawr iawn o fynediad cynnar at gymorth iechyd meddwl a dibyniaeth sydd wedi ei hysbysu gan drawma; a
- Mae angen ymchwil helaeth er mwyn deall yn well effeithiolrwydd rhaglenni ymyrraeth gynnar ar atal digartrefedd pobl ifanc, cyfraniad cymharol gwasanaethau rhaglenni unigol i ddeilliannau gweledig, a deilliannau ymyriadau cynnar ar gyfer grwpiau penodol o bobl ifanc (e.e. pobl ifanc LGBT+, pobl ifanc tywyll eu crwyn, pobl ifanc sy'n newydd-ddyfodiaid, pobl ifanc â phlant, pobl ifanc ag anableddau, pobl ifanc â heriau iechyd meddwl, pobl ifanc sy'n ymwneud â gangiau, ac eraill).

Wrth weithredu modelau a rhaglenni ymyrraeth gynnar ar draws systemau cyhoeddus, dylid ystyried ymagwedd 'system gofal'. Mae ymagwedd o'r fath yn amcanu at sicrhau bod gwasanaethau, cymorth a systemau cyhoeddus perthnasol yn cael eu cydlynu neu eu hintegreiddio er mwyn gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd ymyriadau cynnar. Model addawol ar gyfer gweithredu ymateb ymyrraeth gynnar traws-system yw model '**Llwybrau Cadarnhaol**' (2015), a ddatblygwyd gan St. Basils (Lloegr).

## Model Llwybrau Cadarnhaol (St. Basils, Lloegr)

---

Mae **Model Llwybrau Cadarnhaol** yn fframwaith hyblyg i awdurdodau lleol a'u partneriaid ei ddefnyddio er mwyn darparu dull cynlluniedig o atal digartrefedd a thai i bobl ifanc (St. Basils, 2015). Mae'r model yn seiliedig ar ddadansoddi polisi, ymchwil ac ymgynghoriadau â phobl ifanc, awdurdodau lleol, elusennau, a sefydliadau eraill.

### Meysydd Gwasanaeth Allweddol

#### 1. Gwybodaeth a chyngor i deuluoedd

Gwybodaeth a chyngor amserol a chywir am opsiynau tai, wedi eu darparu mewn amryw o ffyrdd yn cynnwys drwy ysgolion er mwyn cyrraedd pobl ifanc, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

#### 2. Help Cynnar

Ymyrraeth gynnar wedi ei dargedu er mwyn cyrraedd aelwydydd ble mae pobl ifanc yn fwyaf tebygol o wynebu risg o fod yn ddigartref, yn ychwanegol at 1 uchod. Darpariaeth sy'n golygu bod yr holl wasanaethau lleol yn gweithio â phobl ifanc a theuluoedd sydd yn wynebu risg e.e. rhaglen Teuluoedd mewn Trafferth, Cymorth i Deuluoedd, Cymorth i Bobl Ifanc a Gwasanaethau Troseddu Ieuentid.

#### 3. Ymateb integredig ('canolbwynt' neu 'ganolbwynt rhithwir') a phorth i lety a chymorth wedi ei gomisiynu

Dan arweiniad yr Awdurdod Tai a Gwasanaethau Plant, gwasanaeth integredig i bobl ifanc digartref, sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref neu sydd angen helpi bontio i annibyniaeth. Daw gwasanaethau opsiynau tai ac atal digartrefedd at ei gilydd, yn aml wedi eu cydleoli gyda gwasanaethau eraill yn cynnwys cymorth mewn perthynas â llwybrau i ddysgu ac i waith. Mae hyn wedi ei danategu gan asesu ac yn cynnwys porth seiliedig ar angen am lety â chymorth wedi ei gomisiynu a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai hyblyg. Pwynt casglu data allweddol er mwyn hysbysu datblygu'r llwybr yn barhaus.

#### 4. Llety a chymorth wedi ei gomisiynu

Ystod o opsiynau llety a chymorth wedi eu dylunio ar gyfer pobl ifanc iau a mwy agored i niwed. Mae llety a chymorth wedi eu cysylltu â'i gilydd mewn rhai opsiynau, er enghraifft llety â chymorth, Cyntedd, a Thai yn Gyntaf. Mae allgymorth hyblyg ar gael hefyd er mwyn cynorthwyo pobl ifanc ble bynnag maent yn byw (yn cynnwys yng nghartref y teulu) ac mae'n aros gyda nhw pan maent yn symud, os bydd angen.

#### 5. Ystod o opsiynau tai

Ystod o opsiynau tai diogel, gweddus a fforddiadwy, wedi eu rhannu ac ar wahân, yn y sectorau preifat a chyhoeddus a'r trydydd sector. Gall gynnwys ymagweddau creadigol megis partneriaethau gyda darparwyr dysg a chyflogwyr er mwyn darparu llety penodol

---

sydd yn tanategu cyfranogiad mewn dysgu a gwaith. Mynediad at allgymorth hyblyg (4)  
rhag ofn bod pobl ifanc ei angen.

---

# Atal troi allan a blaengaeadau

Mae ymchwil sydd ar gael yn dangos cyfraddau uchel o droi allan mewn nifer o wledydd yng Ngogledd y Byd, ac mae data arolwg o America yn dangos y gall troi allan ddiwydd mewn hyd at 1 o bob 14 o aelwydydd rhent (Desmond a Schollenberger, 2015). Mae Isaacs (2012) yn amcangyfrif bod 2.3 miliwn o blant a'u teuluoedd yn yr Unol Daleithiau wedi colli eu cartrefi o ganlyniad i flaengaeadau rhwng 2007 a 2012, ac roedd 6 miliwn o blant eraill yn byw mewn cartrefi oedd yn wynebu risg o flaengaeadau. Mae nifer o wledydd Ewropeaidd hefyd yn adrodd am gyfraddau uchel o droi allan a blaengaeadau (Fitzpatrick et al, 2012; Stenberg et al, 2011), ac amcangyfrifir bod 100,000 o achosion o droi allan "gyda chymorth beilliaid" yn digwydd yn Awstralia bob blwyddyn (Beer et al, 2006). Gall tueddiadau troi allan a blaengaeadau amrywio gydag amser, fel ymateb i newidiadau mewn ystod o ffactorau economaidd, llesiant a rheoleiddiol (Ystadegau Cymru. 2016).

Er nad yw nifer o bobl gaiff eu troi allan yn dod yn ddiartref, mae ymchwil yn dangos cydberthyniad mawr rhwng troi allan a digartrefedd (Holl, van den Dries, a Wolf, 2016). Mae pobl yn fwy tebygol o fod yn ddiartref pan fo nodweddion bregus unigol yn dod i'r amlwg ar yr un pryd â marchnadoedd rhentu cyfyngedig, newid yn y gymdogaeth, annhegwch systemig (e.e. hiliaeth), cyfraddau cymorth cymdeithasol isel, a marchnadoedd gwaith cystadleuol (Desmond, 2016; Desmond a Gershenson, 2017).

Mae troi allan o blaengaeadau yn llwybrau i digartrefedd ac ansicrwydd tai i bobl ifanc a'u teuluoedd, ac mae hynny'n aml yn cael ei yrru gan arae cymhleth o ffactorau (Poppe a Gale, 2018). Mae ysgolheigion wedi dadlau mai plant yn aml yw "dioddefwyr anweledig" blaengaeadau a throi allan (Isaacs, 2012), a bod ansefydlogrwydd tai canlyniadol yn gysylltiedig â heriau iechyd (Curtis et al, 2010), rhwydweithiau cymdeithasol tameidiog (Manzo et al, 2008) a deilliannau academaidd gwael (Mueller a Tighe, 2007; Rumberger, 2003). Gall troi allan hefyd gyfrannu at sylw annigonol gan rieni (Luginaah et al, 2010), straen rhieni (Desmond a Kimbro, 2015) a methiant teuluol (Libman et al, 2012). Nid yw'n syndod bod achosion blaenorol o droi allan yn gymharol gyffredin ymysg pobl ifanc sydd yn ddiartref (Zivanovix et al, 2016).

Mae ymdrechion i atal troi allan yn gritigol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd tai a llesiant pobl ifanc. Mae ymchwil yn dangos y gallwn eu categoreiddio i 6 phrif gategori:

- Atal troi allan a blaengaeadau drwy bolisïau a deddfwriaeth;
- Atal troi allan a blaengaeadau ar gyfer darparwyr tai;
- Atal troi allan a blaengaeadau ar gyfer landlordiaid marchnad breifat;
- Atal troi allan a blaengaeadau ar gyfer darparwyr gwasanaethau;
- Ymyriadau a chymorth i denantiaid sydd yn wynebu troi allan a blaengaeadau; a

- Atal troi allan a blaengaeadau drwy'r llysoedd.

## Diffinio atal troi allan a blaengaeadau

Mae troi allan, sydd yn cael ei ddiffinio'n gyffredinol fel "symud gorfodol o eiddo rhent gan landlord" (Desmond a Kimbro, 2015, t. 4), yn digwydd yn ffurfiol (e.e. drwy'r system llysoedd) ac yn anffurfiol (e.e. cais gan landlord i adael yr uned), ac mae ymchwil yn dangos bod landlordiaid hefyd yn defnyddio ystod o dactegau anghyfreithlon i orfodi tenantiaid i symud (Brescia, 2008). Yn yr un modd, mae blaengaeadau yn golygu ailfeddiannu eiddo â morgais gan fenthyciwr pan fo'r perchennog yn methu ag ad-dalu'r morgais (Mian, Sufi, a Trebbi, 2015, t. 2587).

Yn gyffredinol mae atal troi allan a blaengaeadau yn cyfeirio at unrhyw raglen, polisi, ymyrraeth, neu strategaeth a anelir at gadw unigolion a theuluoedd yn eu cartrefi gyda deiliadaeth, gan osgoi troi allan a blaengaeadau a lleihau'r risg o fod yn ddigartref (gweler Gaetz a Dej, 2016; Poppe a Gale, 2018). Oherwydd hynny, gellir deall atal troi allan a blaengaeadau fel math o *ymyrraeth gynnar a sefydlogi tai* o fewn topoleg atal digartrefedd (Gaetz a Dej, 2017).

## Tystiolaeth o atal troi allan a blaengaeadau

Mae'r gronfa dystiolaeth sy'n dangos effeithiolrwydd ymdrechion i atal troi allan a blaengaeadau yn gymharol fychan, ac mae adolygiad systematig o'r llenyddiaeth yn 2012 ond yn nodi 7 erthygl berthnasol (Holl, van den Dries, a Wolf, 2016). Ni nodwyd unrhyw ymyriadau i atal troi allan neu blaengaeadau yn achos pobl ifanc mewn adolygiad o lenyddiaeth ysgolheigaidd. Er bod pobl ifanc 18 i 24 oed fel arfer yn gynwysedig mewn astudiaethau ar atal troi allan, yn anaml y mae deilliannau pobl ifanc yn cael eu dadagregu ar wahân i ddeilliannau oedolion. Hefyd, mae astudiaethau ar atal troi allan a blaengaeadau yn achos teuluoedd yn aml yn cynnwys plant a phobl ifanc, ond ychydig sydd yn darparu mewnwelediad i brofiadau unigryw plant a phobl ifanc o'r ymyriadau yma.

Bu i adolygiad o'r llenyddiaeth ddangos dystiolaeth sydd yn cefnogi 4 strategaeth ar gyfer atal troi allan a blaengaeadau sydd â goblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol i bobl ifanc: (a) **cymorth ariannol i denantiaid**; (b) **cymorth, cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol**; (c) **sgrinio ac atgyfeirio aelwydydd sy'n wynebu risg**; a (d) **chymorth cynhwysfawr ynglŷn ag arian, tai, iechyd, cyfryngu a rheoli achos**. O ystyried nad oes yna ymchwil wedi ei adolygu gan gymheiriaid ar ymyriadau wedi eu targedu at bobl ifanc, dylid pwylllo wrth gymhwyso'r canfyddiadau hyn i boblogaethau o bobl ifanc. Er hynny, mae cynnwys pobl

ifanc hŷn (18 i 24 oed) a theuluoedd mewn astudiaethau sydd ar gael yn awgrymu bod yr ymyriadau yma yn dangos addewid i bobl ifanc.

## a) Cymorth ariannol i denantiaid

Mae tystiolaeth sydd ar gael yn dangos effeithiolrwydd penodol cymorth ariannol (e.e. cymorth rhentu, ategion rhentu, cymorthdaliadau rhentu, cronfeydd tai brys, talebau tai) o ran atal unigolion a theuluoedd rhag dod yn ddigartref. Mae astudiaethau o Ogledd America, ble nad yw'r cymorth yma ar gael mor gyson ag y mae yn y DU, yn dangos cyfraddau uchel o effeithiolrwydd hyd yn oed pan fo'r cymorth ariannol yn fach.

- Bu i astudiaeth Evans, Sullivan a Wallskog (2016) o raglen cymorth ariannol brys yn Chicago ganfod bod rhai oedd yn derbyn budd-dal untro o \$1000 yn 76% yn llai tebygol o fod yn ddigartref o fewn chwe wythnos na rhai nad oedd yn derbyn hynny.
- Ymysg rhai oedd yn byw â HIV/AIDS, canfuwyd bod cymhorthdal rhent o \$200-\$400 y mis yn lleihau digartrefedd ac yn galluogi'r derbynyddion i gynnal tai annibynnol (Dasinger a Speigman, 2007).

Hyd yn oed ymysg astudiaethau oedd yn rheoli ffactorau risg (e.e. gwrthdaro teuluol, hanes o dlodi, trais domestig), canfuwyd bod cymorth ariannol ar gyfer dyledion rhent neu forgais yn lleihau digartrefedd teuluoedd, o 20% i rhwng 2 a 5%, o'i gymharu â theuluoedd nad oeddent yn derbyn dim cymorth (Burt et al, 1999).

Hefyd, mae peth tystiolaeth cyfyngedig yn cefnogi effeithiolrwydd cyngor ar ddyledion mewn perthynas â rhent. Bu i Evans a McAteer (2011) ddangos bod tenantiaid tai rhent oedd yn derbyn cyngor ar ddyled wedi gweld gostyngiad o 37% mewn dyledion rhent o fewn blwyddyn, tra bod y rhai na dderbyniodd gyngor wedi profi cynnydd o 14% mewn dyledion rhent. Yn fwy cyffredinol, mae ymchwil hefyd yn awgrymu y gall cymorth ariannol i rai sydd yn wynebu risg o gael eu troi allan wella deilliannau iechyd a lleihau'r defnydd o wasanaethau iechyd, yn cynnwys ymysg pobl ifanc (Wolitski et al, 2010). Fodd bynnag, mae ymchwil cynnar i effeithiau diwygio lles wrth i hynny gael ei gyflwyno yn y DU, sy'n cynnwys rhoi'r gorau i daliadau rhent uniongyrchol i landlordiaid, yn awgrymu y bydd y diwygio yma yn cynyddu nifer yr aelwydydd rhent fydd mewn dyled (Protheroe et al, 2017).

Ni chanfuwyd unrhyw astudiaethau oedd yn cymharu effeithiolrwydd cymharol gwahanol fodolau cymorth ariannol, sut mae deilliannau yn gysylltiedig â hyd rhaglenni, neu effeithiolrwydd penodol cymorth ariannol ymysg pobl ifanc sydd yn wynebu cael eu troi allan tra'n byw yn annibynnol.

## b) Cymorth, cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol

Mae cronfa o dystiolaeth gref yn bodoli ar gyfer rôl cymorth, cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol mewn perthynas ag atal troi allan. Mae'n bwysig nodi bod hyd yn oed

cynrychiolaeth a chymorth cyfreithiol byr iawn yn effeithiol, a bu i un ymyrraeth yn Efrog Newydd adrodd am effeithiolrwydd o 99% o ran atal troi allan pan roddwyd ychydig o gymorth cyfreithiol i denantiaid yn ystod eu hachosion llys (Seedco, 2010, p.14). Dangoswyd bod cynrychiolaeth gyfreithiol wedi cynyddu tebygolrwydd tenant o osgoi troi allan yn ddramatig (Gunn, 1995; Seron et al, 2001). Er enghraifft, bu i arbrawf ar hap Seron et al (2001) ganfod bod tenantiaid oedd yn derbyn cyngor a chymorth cyfreithiol yn llawer llai tebygol o dderbyn gwarant troi allan (24% o'i gymharu â 44% yn y grŵp rheoli), ac roedd cynrychiolaeth lawn gan gyfreithiwr yn y llys yn lleihau gwarantau troi allan yn sylweddol yn achos tenantiaid oedd yn cael cynrychiolaeth (10% o'i gymharu â 44% yn y grŵp rheoli). Mae Bight a Whitehouse (2014) yn nodi effeithiolrwydd cynrychiolaeth i ddifinyddion mewn achosion meddiannu yng Nghymru a Lloegr.

Nid yw'r rhan fwyaf o'r astudiaethau sydd ar gael yn adrodd ar oedran y rhai sydd yn derbyn cymorth, cyngor neu gynrychiolaeth gyfreithiol. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd unigryw cynrychiolaeth gyfreithiol i blant a phobl ifanc sydd yn mynd drwy'r system cyfiawnder troseddol (Khoury, 2010), mae'r ymyriadau yma yn addawol i bobl ifanc a theuluoedd ifanc, yn arbennig os ydynt wedi eu teilwra'n ddatblygiadol ac unigol.

### **c) Sgrinio ac atgyfeirio teuluoedd sy'n wynebu risg**

Ychydig iawn o werthusiadau sydd ar gael o effeithiolrwydd rhaglenni sydd yn sgrinio ac atgyfeirio unigolion neu deuluoedd sydd yn wynebu risg o droi allan neu flaengaeadau at wasanaethau a chymorth. Mae'r astudiaethau sydd ar gael yn awgrymu bod angen gweithredu 'systemau larwm' ar draws systemau tai cyhoeddus a rhwydweithiau gofal er mwyn adnabod ac atgyfeirio aelwydydd sydd angen cymorth tai (Nettleton a Burrows, 1998; Crane a Warnes, 2000; Allen, 2006; Salize et al, 2006; Phinney et al, 2007). Mae yna amrywiaeth mawr mewn perthynas â sut y gellir gweithredu'r systemau larwm yma. Er enghraifft bu i astudiaeth Van Laere, de Wit a Klazinga's (2009) o dai yn Amsterdam ganfod bod aelwydydd, yn cynnwys aelwydydd ifanc, oedd yn derbyn ymweliadau tai, yn gysylltiedig â chynnydd mewn adnabod problemau'n gynnar a gostyngiad mewn troi allan. Ni chanfuwyd unrhyw astudiaethau sydd yn adrodd yn benodol ar ddulliau o sgrinio ac atgyfeirio yn aahcos aelwydydd ifanc.

### **d) Cymorth mewn perthynas ag arian, tai, iechyd, cyfryngu a rheoli achos**

Mae adolygiad o'r llenyddiaeth lwyd yn dangos bod nifer o raglenni atal troi allan yn cyfuno ystod o gymorth mewn perthynas ag arian, tai a rheoli achos, a bod rhai yn darparu gwasanaethau 24 awr y dydd drwy'r flwyddyn. Er bod y rhaglenni yma yn amrywio'n sylweddol mewn perthynas â'r poblogaethau a wasanaethir a'r cymorth a ddarperir, mae nifer o astudiaethau yn dangos y dystiolaeth ar gyfer yr ymagwedd hon yn achos teuluoedd



(Goodman, Messeri, a O'Flaherty's, 2016; Hill et al, 2002; Rolston et al, 2013). Mae'n werth cyfeirio at ddwy astudiaeth:

- Bu i ddadansoddiad Goodman, Messeri, a O'Flaherty's (2016) o *Homebase* – ymyrraeth aml-ddull Americanaidd ar gyfer teuluoedd sydd yn wynebu troi allan - ganfod bod yr ymyrraeth wedi lleihau nifer y bobl oedd yn mynd i lochesi yn Efrog Newydd o tua 5% - 11% dros gyfnod o bedair blynedd. Yn yr un modd bu i werthusiad Rolston a'i gydweithwyr (2013) o raglen *Ataliaeth Gymunedol* (CP) Homebase ganfod y bu gostyngiad o 22.6 o nosweithiau mewn arhosiad teuluoedd mewn llochesi ymysg y rhai oedd wedi derbyn gwasanaethau.
- Bu i astudiaeth Hill a'i gydweithwyr (2002) yn yr Alban ar dai â chymorth cynhwysfawr i deuluoedd oedd wedi eu troi allan neu oedd yn wynebu risg o gael eu troi allan (*Prosiect Teuluoedd*) ddangos llwyddiant cymharol dull cynhwysfawr. Bu i'r ymyrraeth ddarparu unedau tai, gwaith grŵp ac allgymorth i deuluoedd am hyd at 2 flynedd. O'r 56 o deuluoedd oedd yn rhan o'r astudiaeth, bu i 33 adrodd eu bod wedi cyrraedd eu prif amcanion, ac roedd 6 o'r 10 a gyfwelwyd yn teimlo bod eu sefyllfa tai wedi gwella ar ôl yr ymyrraeth. Mae'n bwysig nodi bod 75% o'r plant a gyfwelwyd yn teimlo bod eu tai wedi gwella a bu i rai plant adrodd am ostyngiad mewn gwrthdaro teuluol, gwell perthnasoedd a mwy o deimlad o sefydlogrwydd. Bu i deuluoedd oedd yn derbyn tai adrodd am fwy o lwyddiant o ran cyflawni eu prif amcanion na theuluoedd oedd ond yn derbyn allgymorth (83% o'i gymharu â 56%), ac mae hynny yn dangos gwerth darpariaeth tai fel rhan o swît o wasanaethau.

Hefyd, mae yna beth tystiolaeth sydd yn dangos pwysigrwydd cyfryngu a chyswllt â landlordiaid o fewn swît o wasanaethau cynhwysfawr ar gyfer oedolion a theuluoedd (Curcio, 1992; Ecker, Holden, a Schwan, 2018; Nelson a Sharp, 1995), ond dadansoddi cyfyngedig fu ar gyfraniadau unigryw cyfryngu o ran atal troi allan a blaengaeadau pan fo hynny yn cael ei ddarparu mewn swît o wasanaethau a chymorth.

## Crynodeb o'r dystiolaeth a bwloch mewn gwybodaeth

Yn y llenyddiaeth ar atal troi allan a blaengaeadau drwyddi draw, mae'r dystiolaeth gryfaf yn bodoli ar gyfer: (1) cymorth ariannol i denantiaid; (2) cymorth, cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol; a (3) cymorth cynhwysfawr ynglŷn ag arian, tai, iechyd, cyfryngu a rheoli achos. Er bod yna beth tystiolaeth gyfyngedig sydd yn cefnogi sgrinio ac atgyfeirio er mwyn atal troi allan, mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai darparu adnoddau concred ar unwaith (e.e. tai, cymorth ariannol) sydd fwyaf effeithiol o ran atal troi allan yn achos unigolion a theuluoedd yn cynnwys teuluoedd ifanc a theuluoedd â phlant a phobl ifanc.

Er gwaetha rhai canfyddiadau arwyddocaol yn y meysydd yma, mae gwir angen mwy o ymchwil. Fel mae adolygiad systematig Holl a'i gydweithwyr (2016) yn ei ddangos, mae'r dystiolaeth ar gyfer atal troi allan yn fychan ac amrywiol - mae ymyriadau yn targedu grwpiau amrywiol, mae ganddynt ddibenion amrywiol, ac mae eu cyfnodau yn amrywio. Mae hynny yn golygu bod cymharu effeithiolrwydd cymharol ymyriadau yn anodd. Data hydredol cyfyngedig sydd ar gael er mwyn penderfynu ar effeithiau hirdymor a thafllu goleuni ar p'un a yw ymyriadau yn *dargyfeirio* yn hytrach nag *atal* troi allan neu flaengaeadau.

Yn bwysicaf oll, ychydig iawn o wybodaeth sydd yn bodoli am atal troi allan a blaengaeadau yn achos pobl ifanc, ac mae hynny yn golygu ei bod yn anodd pennu: (1) pa ymyriadau sydd yn fwyaf effeithiol ar gyfer pobl ifanc, (2) pa ffactorau sydd yn effeithio ar effeithiolrwydd yr ymyriadau yma ar gyfer pobl ifanc, (3) sut mae pobl ifanc o boblogaethau amrywiol sydd wedi eu hymylu yn ymateb i wahanol ymyriadau ataliol, a'r (4) mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc mewn perthynas ag atal troi allan a blaengaeadau. Mae bylchau yn y wybodaeth yn awgrymu bod angen ymchwil i nifer o feysydd, yn cynnwys:

- Astudiaethau sy'n cymharu'r deilliannau sy'n gysylltiedig ag ymagweddau amrywiol tuag at atal troi allan a blaengaeadau ymysg pobl ifanc, yn ddelfrydol drwy ddefnyddio RCT;
- Cymorth ariannol effeithiol ac effeithlon er mwyn atal troi allan ymysg pobl ifanc a theuluoedd. Mae astudiaeth o Sweden sydd yn dangos bod gan 80% o bobl Sweden oedd wedi cael eu troi allan ddyled o lai €2000 (Eriksson et al, 2010), ac astudiaeth o Toronto yng Nghanada sy'n dangos bod y dyledion rhent cyfartalog yn \$4,065 (CA) (Ecker et al, 2018), yn awgrymu y dylai ymchwilwyr archwilio effeithiolrwydd cymharol ac effeithlonrwydd cost cymorthdaliadau rhent bas ymysg pobl ifanc a'u teuluoedd;
- Sut y gall ymdrechion i atal troi allan a blaengaeadau sefydlogi addysg, cyflogaeth a/neu hyfforddiant orau i bobl ifanc o ystyried canlyniadau negyddol symud yn rheolaidd ac ansefydlogrwydd mewn perthynas â chyraeddiadau addysg a chyflogaeth (Mueller a Tighe, 2007; Rumberger, 2003; Schwartz et al, 2007);
- Sut mae sgrinio pobl ifanc sydd yn wynebu risg o gael eu troi allan neu flaengaeadau yn effeithiol mewn systemau cyhoeddus (e.e. addysg, gofal iechyd sylfaenol) a gwasanaethau cymdeithasol (e.e. rhaglenni galw heibio), er mwyn cysylltu'r bobl ifanc yma â'r cymorth angenrheidiol; a
- Sut y gall atal troi allan a blaengaeadau roi'r cymorth gorau i ieuencid iau (13 i 17 oed) mewn ffyrdd sydd yn ddatblygiadol briodol.

# Sefydlogrwydd tai

Mae atal digartrefedd pobl ifanc nid yn unig yn amcanu at atal digartrefedd ymysg pobl ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref; mae hefyd yn amcanu at atal digartrefedd ymysg pobl ifanc sydd eisoes wedi profi ansicrwydd tai a digartrefedd. Mae sefydlogrwydd tai yn cyfeirio at strategaethau ac ymyriadau sydd yn sicrhau bod pobl ifanc yn gadael digartrefedd mor gyflym â phosibl, ac nad ydynt yn dod yn ddigartref fyth eto (Gaetz & Dej, 2017, t. 78). Mae sefydlogi tai yn fath o ataliaeth trydyddol, ac mae Tai yn Gyntaf yn enghraifft gref seiliedig ar dystiolaeth o sefydlogrwydd tai.

Mae pobl ifanc sydd wedi profi byw ar y stryd yn wynebu heriau mawr wrth sefydlu a sefydlogi eu hamodau byw a thai, yn rhannol oherwydd eu hoedran datblygiadol a'r adeg yn eu bywydau y maent y profi hynny (Gaetz et al, 2013; Kidd et al, 2016). Mae nifer o'r bobl ifanc yma yn wynebu cyfrifoldeb annibyniaeth cyn iddynt gael y sgiliau, profiadau a'r adnoddau seico-gymdeithasol angenrheidiol i ymgymryd â'r pontio hwnnw (Crane et al, 2014; Hagan a McCarthy, 2005). Yn aml mae pobl ifanc sydd yn profi digartrefedd yn brin o'r adnoddau a'r cymorth cymdeithasol sydd ei angen i feithrin y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byw yn annibynnol (Milburn et al, 2009; Mayock, Corr, a O'Sullivan, 2011; Tevendale, Comulada, a Lightfoot, 2011). O gofio hynny, mae ymyriadau sefydlogi tai yn gritigol ar gyfer pontio pobl ifanc oddi ar y strydoedd ac atal bod yn ddigartref eto.

Er nad oes yna gorff mawr o ymchwil i daflwybrau tai pobl ifanc sydd wedi pontio o ddigartrefedd, mae'r canlyniadau yn ysgogol. Mae ymchwil yn awgrymu y gellir sicrhau a chynnal sefydlogrwydd tai drwy ddarparu cymorth tai ac incwm, ynghyd ag ymyriadau sydd yn meithrin sgiliau, asedau, adnoddau ac iechyd pobl ifanc er mwyn gallu gadael digartrefedd yn hirdymor. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod profiadau hir o ddigartrefedd yn tanseilio sefydlogrwydd tai a llesiant hyd yn oed os bydd pobl ifanc yn gadael digartrefedd, oherwydd bydd nifer yn parhau i ymrafael â thrawma, heriau iechyd meddwl, dibyniaethau a thlodi eithafol. Felly, ni fydd pontio o ddigartrefedd i dai o reidrwydd yn arwain i well llesiant i bobl ifanc, ac nid yw chwaith yn rhagfynegydd cryf o fywyd iach, cyfranogiad mewn gweithlu neu gynhwysiant cymdeithasol (Kidd et al, 2016).

Mae'r mewnwelediadau hyn yn dangos er bod tai diogel, fforddiadwy a hygyrch yn allweddol ar gyfer sefydlogi tai i bobl ifanc, mae ffactorau ychwanegol megis cyflogaeth a chymorth incwm, cymorth iechyd meddwl a defnyddio sylweddau, a chreu rhwydweithiau perthynol a chymdeithasol yn bwysig hefyd ac yn cyfrannu at ddatblygiad, sefydlogrwydd a bywyd ystyrlon i bobl ifanc (Gaetz a Dej, 2017).

## Diffinio sefydlogrwydd tai

Mae ymdrechion i sefydlogi tai, yn eu hanfod, yn amcanu at sicrhau bod gan bob ifanc fynediad at dai parhaol a sefydlog. Yn gyffredinol mae ysgolheigion wedi diffinio sefydlogrwydd tai ar hyd continwwm. Ar un pen mae yna ddiffyg mynediad cyffredin mawr at dai rhesymol (sydd yn aml yn cael ei ddisgrifio fel “syrrffio sofffa”, arosiadau mewn llochesi brys, neu “fyw ar y stryd”), ac ar ben arall y continwwm mae yna fynediad at dai diogel, parhaol a fforddiadwy heb unrhyw risgiau neu fygythiadau i’w sefydlogrwydd (Crane et al, 2014). Mae rhai awduron wedi dadlau, pan fyddwn yn diffinio sefydlogrwydd tai, y dylem gynnwys newidynnau megis diogelwch, ansawdd tai a pherthnasau da â landlordiaid (Crane et al, 2014), ac y dylem ystyried ffactorau megis statws ariannol a statws cyfreithiol (Frederick et al, 2014).

## Tystiolaeth ar gyfer ymyriadau a dulliau sefydlogi tai

Mae yna ddau gategori o ymyriadau sefydlogi tai: **gwasanaethau tymor byr/ar unwaith** (yn cynnwys lloches brys a gwasanaethau galw heibio) ac **ymyriadau hirdymor** sydd yn darparu cymorth tai a rheoli achos. Mae gwerthusiadau ffurfiol o effeithiolrwydd gwasanaethau tymor byr/ar unwaith ar gyfer pobl ifanc digartref yn gyfyngedig (Slesnick et al, 2009), ac mae eu heffeithiolrwydd yn aneglur (Kidd et al, 2016). Hefyd, mae’r rhan fwyaf o’r astudiaethau yn canolbwyntio ar oedolion ac nid yw’n hysbys a yw’r ymyriadau yma yn ddatblygiadol briodol neu’n effeithiol ar gyfer pobl ifanc (Altena, Brilleslijper-Kater, a Wolf, 2010; Kozloff et al, 2016; Slesnick et al, 2009).

Gellir trefnu’r dystiolaeth ar gyfer sefydlogrwydd tai ymysg pobl ifanc i bum maes allweddol y mae Gaetz a Dej (2017) yn dadlau y dylent fod yn rhan o unrhyw strategaeth sefydlogi tai eang: **cymorth tai; cymorth iechyd, iechyd meddwl, a defnyddio sylweddau, cymorth incwm, addysg a chyflogaeth; cymorth ategol; a chynhwysiant cymdeithasol** (Gaetz, 2017, t. 79; Gaetz, 2014)

### a) Cymorth tai er mwyn sefydlogi tai

Mae cymorth tai er mwyn sefydlogi tai yn cynnwys cymorth tuag at sicrhau a chadw tai, ategion rhent, atal troi allan, a chymorth cynhaliadau ar unwaith a thymor hirach (Gaetz a Dej, 2017). Y ffactor llwyddiant mwyaf arwyddocaol mewn perthynas ag ymyriadau sefydlogi tai - a cham cyntaf cymorth - yw mynediad at dai diogel, fforddiadwy a phriodol (Kidd et al, 2014). Mae prinder opsiynau tai yn hyrwyddo cylch pobl ifanc drwy systemau megis lloches, cyfiawnder a thriniaeth camddefnyddio sylweddau (Vitopoulos et al, 2017).

Mae cronfa dystiolaeth enfawr yn bodoli ar gyfer effeithiolrwydd **Tai yn Gyntaf** mewn perthynas â sefydlogi tai ar gyfer oedolion digartref, ac mae hynny yn golygu ei fod yn wir yn 'ymarfer gorau' (Gaetz a Dej, t. 78; Goering a Streiner, 2015). Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos bod **Model Llwybrau** Tai yn Gyntaf ymhell o fod yr un mor effeithiol ar gyfer pob ifanc o dan 25 oed (Kozloff et al, 2016). Fel ymateb i hynny, mae Tai yn Gyntaf yn cael ei addasu a'i deilwra fel ymyrraeth i bobl ifanc digartref (Cheng et al, 2013; Gaetz, 2017; Goering a Streiner, 2015; Holtschneider, 2016; Kozloff et al, 2016; Tsemberis a Eisenberg, 2000). **Model Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc** (HF4Y), a ddatblygwyd gan Arsyllfa Canada ar Ddigartrefedd (Gaetz, 2014, 2017), yw'r fersiwn o fodel y rhaglen sydd wedi ei fynegi gliriaf, ac mae wedi ei fframio gan yr egwyddorion craidd canlynol: (1) hawl i dai heb unrhyw rag-amodau; (2) dewis i bobl ifanc, llais i bobl ifanc a hawl yr unigolyn i benderfynu; (3) datblygiad pobi ifanc cadarnhaol a chyfeiriadedd llesiant; (4) cymorth unigol wedi ei arwain gan gleientiaid heb unrhyw derfynau amser; a (5) cynhwysiant cymdeithasol ac integreiddio cymunedol (Gaetz, 2017). Mae'r model yma wedi cael ei addasu mewn nifer o wledydd Ewrop yn cynnwys Yr Alban, Iwerddon a Gwlad Belg. Mae Prosiect Arddangos Making the Shift (Canada) ar hyn o bryd yn profi model Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc mewn tair dinas yng Nghanada, ac mae'n cydweithredu ag ymchwilwyr o Ewrop er mwyn creu fframwaith asesu safonol ar gyfer HF4Y.

Mae yna beth tystiolaeth sy'n cefnogi effeithiolrwydd model **The Foyer** o ran sefydlogi tai i bobl ifanc. Mae model Foyer yn ymyrraeth tai a chymorth ar gyfer pontio sydd yn amcanu at helpu pobl ifanc i bontio at annibyniaeth drwy roi cymorth mewn perthynas â'u sefydlogrwydd tai ac incwm/adnoddau ariannol (Gaetz a Scott, 2012). Bu i adolygiad ganfod ychydig o astudiaethau oedd yn adrodd ar werthusiadau o raglen Foyer, felly mae yna lawer sydd angen ei brofi. Bu i un astudiaeth o UDA nodi effeithiau cadarnhaol model Foyer ar bobl ifanc oedd angen tai a chymorth (Culhane, Metraux, a Hadley, 2002), ond nid oeddent yn dansoddi deilliannau pobl ifanc yn benodol. Mewn un astudiaeth oedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc 18-25 oed (Raithel et al, 2015), roedd yna lai o arosiadau mewn lloches neu garchar yn achos y rhai oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen yn ystod y ddwy flynedd ar ôl iddynt ddechrau ar y rhaglen.

Yn ystod ein hymgyngoriad ag arbenigwyr rhyngwladol ar ddigartrefedd, thema amlwg ar draws trafodaethau ynghylch tai oedd y rhwystrau sydd yn bodoli wrth osod terfynau amser ar dai. Bu i arbenigwyr hefyd fynegi'r angen i sicrhau bod gan bobl ifanc ddewis a llais o ran mynd i'r afael â'u hanghenion tai.

## **b) Cymorth iechyd a llesiant er mwyn sefydlogi tai**

Rhan ganolog o sicrhau sefydlogrwydd tai effeithiol yw darparu cymorth ar gyfer iechyd a llesiant, yn cynnwys cymorth ar gyfer gofal iechyd sylfaenol, iechyd meddwl, ansawdd bywyd a llesiant cyffredinol. Canfuwyd bod cymorth lleihau niwed a defnyddio sylweddau fel rhan o ymyriadau sefydlogi tai yn sefydlogi tai (Kreindler a Coodin, 2010), ac yn gwella

iechyd meddwl, yn cynnwys ymysg pobl ifanc LGBTQ+ (Powell et al, 2016). Hefyd, mae astudiaethau o Ganada gan Sean Kidd a'i gydweithwyr (Kidd et al, 2016; Vitopoulos et al, 2017) yn dangos pwysigrwydd dull wedi ei hysbysu gan drawma o weithio â phobl ifanc mewn rhaglenni sefydlogi tai.

Mae rhai astudiaethau wedi dangos hyd yn oed flwyddyn ar ôl bod yn ddigartref bod gan rai pobl ifanc iechyd meddwl ac ansawdd bywyd gwael - ac mae hynny yn golygu eu bod yn wynebu risg o fod yn ddigartref eto (Kidd et al, 2016). Mae canfyddiadau o'r fath yn dangos yr angen am gymorth iechyd a llesiant parhaus pan fo pobl ifanc wedi cael tai sefydlog, gan alluogi pobl ifanc i gael mynediad yn gyflym at gymorth pan fo pethau yn mynd o chwith.

### **c) Cymorth incwm, ymgysylltu addysgol a mynediad at gyflogaeth er mwyn sefydlogi tai**

Mae cymorth incwm yn ogystal ag addysg a chyflogaeth, yn cynnwys cyrsiau, gweithdai, hyfforddiant a chyfleoedd i feithrin sgiliau, yn allweddol i bobl ifanc er mwyn cynnal eu sefydlogrwydd tai (Gaetz, 2014). Mae'n ymddangos bod argaeledd cymorth incwm a chymorthdaliadau tai yn achosi rhai o'r effeithiau mwyaf arwyddocaol ar sefydlogrwydd tai ymysg pobl ifanc, yn ogystal â mynediad at gyflogaeth (isafswm cyflog yn benodol) a hyfforddiant a chymorth cyflogaeth (Frederick et al, 2014; Kidd et al, 2014; Rog a Buckner, 2007). Mae ymchwil wedi canfod bod sefydlogrwydd incwm a mynediad at isafswm cyflog yn arwain at dai sefydlog ac yn rhagfynegi hynny'n bendant.

Mae ymchwil hefyd yn dangos bod ailgysylltu ag addysg yn nod bwysig i nifer o bobl ifanc, ond bod sefydlogrwydd tai yn effeithio'n fawr ar hynny (Day a Paul, 2007). Mewn astudiaeth hydredol ar sefydlogrwydd preswyl, bu i Roy a'i gydweithwyr (2016) ganfod bod pobl ifanc oedd wedi ceisio cymorth seicolegol, wedi ennill diploma ysgol uwchradd, ac oedd yn gweithio yn ystod cyfnod dilynol flwyddyn yn ddiweddarach, yn 50% yn fwy tebygol i gael sefydlogrwydd tai o'u cymharu â phobl ifanc eraill. Mae yna hefyd beth tystiolaeth sydd yn cefnogi effeithiolrwydd Ymyriadau Amser Critigol o ran gwella ymgysylltu addysgol yn achos plant a phobl ifanc sydd yn profi digartrefedd teuluol (Shinn et al, 2015)

### **a) Cymorth ategol er mwyn sefydlogi tai**

Mae cymorth ategol wedi ei "ddylunio er mwyn hwyluso sefydlogrwydd tai ymysg rhai sydd wedi cael mynediad at dai gyda'r nod o helpu unigolion a theuluoedd wella ansawdd eu bywyd, integreiddio i'r gymuned a llwyddo i fod yn hunangynhaliol o bosibl" (Gaetz a Dej, 2017, t. 82). Mae amodau ansicr sydd yn cyfrannu at ansefydlogrwydd tai, yn cynnwys diffyg maeth, arwahanrwydd cymdeithasol a datgysylltu ag ysgolion, yn cael eu creu pan fo pobl ifanc yn cael eu hailgartrefu heb ddigon o gymorth (Gaetz et al, 2013).

Ar gyfer pobl ifanc, mae cymorth ategol allweddol yn cynnwys sgiliau bywyd, cymorth rheoli arian (Day a Paul, 2007), a chymorth llywio drwy systemau. Mae ymchwil yn dangos

pwysigrwydd cymorth wedi ei gydlynu i bobl ifanc, yn cynnwys i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig ble gallai fod yn anodd cael mynediad at wasanaethau a ble ceir prinder adnoddau (Farrin, Dollard, a Cheers, 2005; Skott-Myhre, Raby, a Nikolaou, 2008). Hefyd, mae'n bwysig bod pobl ifanc yn gallu ailgysylltu â gwasanaethau y bu iddynt eu gadael yn flaenorol heb orfod wynebu canlyniadau (Vitopoulos et al, 2017). Gallai hynny fod yn gritigol o ystyried y dystiolaeth bod teimlad person o reolaeth bersonol mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir yn effeithio'n uniongyrchol ar sefydlogrwydd tai (Slesnick et al, 2017).

## e) Cymorth cynhwysiant cymdeithasol er mwyn sefydlogi tai

Mae cymorth cynhwysiant cymdeithasol yn meithrin perthnasoedd cymdeithasol a gweithgareddau gyda ffrindiau a gofalwyr pobl ifanc, yn ogystal â chyfuno diwylliannol a chysylltiad cymunedol (Gaetz a Dej, 2017). Mae gan y rhan fwyaf o bobl digartref berthnasoedd ynysig, cyfyngedig a bregus gyda ffrindiau, cyfoedion ac aelodau teulu neu ofalwyr (Crane et al, 2014).

Tystiolaeth gyfyngedig sy'n bodoli ar gyfer strategaethau effeithiol er mwyn cynyddu cynhwysiant cymdeithasol ymysg pobl ifanc mewn rhaglenni sefydlogi tai, o bosibl oherwydd bod y data hydredol sydd yn archwilio'r meysydd bywyd yma yn brin. Mae dystiolaeth o leisiau pobl ifanc eu hunain (Slesnick et al, 2017; Schwan et al, 2018; Thistle, 2017), yn ogystal ag astudiaethau hydredol ar sefydlogrwydd tai (Kidd et al, 2016) yn dangos bod cysylltiad ag eraill, ailgysylltu â theulu a mynediad at amrywiaeth o gymorth yn cynyddu deilliannau sefydlogi tai yn gynaliadwy. Gall pobl ifanc gymryd amser i ddarganfod a sefydlu enillion o ran integreiddio cymunedol ac ansawdd bywyd. Bu i un astudiaeth ddilydol (Kidd et al, 2016) ganfod nad oedd pobl ifanc yn profi enillion o ran integreiddio cymunedol ac ansawdd bywyd flwyddyn ar ôl cael tai. Mae canfyddiadau o'r fath yn dangos yr angen am gymorth cynhwysiant cymdeithasol tymor hirach i bobl ifanc.

## Crynodeb o'r dystiolaeth a bwloch mewn gwybodaeth

Mae'r llenyddiaeth sydd ar gael ar ddulliau sefydlogi tai ac ymyriadau ar gyfer pobl ifanc yn dangos:

- Mae sefydlogrwydd tai yn cael ei wella ar gyfer pobl ifanc gyda chynnydd mewn mynediad at gymorthdaliadau tai a chymorth ariannol, yn ogystal â meithrin sgiliau rheoli arian.

- Mae cryfder y dystiolaeth sydd yn cefnogi Tai yn Gyntaf yn awgrymu bod y model yma yn addawol i bobl ifanc sydd yn ddigartref, a dylid dilyn ymchwil newydd ar effeithiolrwydd rhaglenni Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc (e.e. Gaetz, 2017) yn agos.
- Dylid cynnig sbectrwm o opsiynau tai er mwyn bodloni anghenion pobl ifanc amrywiol yn y ffordd orau;
- Dylai rhaglenni gael eu teilwra er mwyn bodloni anghenion datblygiadol pobl ifanc a dylent ymgorffori lens sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd wedi ei hysbysu gan drawma ac sy'n seiliedig ar gryfder sydd yn ystyried datblygiad cadarnhaol pobl ifanc mewn cyd-destun. Mae egwyddorion craidd Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc yn alinio â'r ymagwedd yma;
- Dylai poblogaethau sydd yn profi lefelau uwch o ansicrwydd ac anfantais fod yn flaenoriaeth ac yn ffocws strategol wrth ddatblygu rhaglenni sefydlogi tai seiliedig ar dystiolaeth.
- Dylai gwasanaethau cymorth fod ar gael i fodloni anghenion amrywiol pobl ifanc, a dylid eu teilwra yn unol â'r anghenion a fynegir gan bob unigolyn ifanc (Kidd et al, 2014);
- Hefyd dylai hyd a dwyster y gwasanaethau gael eu pennu gan y person ifanc (Crane et al, 2014), gyda thystiolaeth yn dangos y dylai cymorth gael ei gynnal a/neu fod yn hygyrch am gyfnod sylweddol o amser ar ôl i ieuencid gael mynediad at dai; a
- Mae perthnasoedd dibynadwy, parchus a therapiwtig rhwng pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol sydd yn rhoi cefnogaeth drwy'r cyfnod pontio o ddigartrefedd yn gritigol i gyflawni sefydlogrwydd tai.(Kidd et al, 2014).



# Safbwyntiau pobl ifanc ar atal digartrefedd pobl ifanc

Y cam cyntaf a mwyaf amlwg ddylid ei gymryd wrth feddwl am atal digartrefedd pobl ifanc fyddai gofyn i bobl ifanc am eu mewnwelediadau. Y anffodus, mae'r math yma o ymgysylltu yn cael ei ddiystyru yn aml wrth ystyried adnewyddu polisi neu newid cyfeiriad rhaglenni. Er bod yr adolygiad yma o dystiolaeth wedi canfod ychydig iawn o ymchwil i ddealltwriaeth a mewnwelediad pobl ifanc i atal digartrefedd, bu i un ymgynghoriad mawr gyda 114 o bobl ifanc yng Nghnada ar atal digartrefedd (Schwan et al, 2018) ddatgelu rhai blaenoriaethau atal pwysig ar gyfer pobl ifanc.

## Argymhellion pobl ifanc ynghylch ataliaeth strwythurol

- Cynyddu cyfraddau cymorth cymdeithasol a chreu llwybrau hygyrch er mwyn cael cymorth cymdeithasol, dogfennau hunaniaeth a chymorthdaliadau rhent yn gyflym i bobl ifanc a'u teuluoedd
- Adeiladu ac ymestyn tai fforddiadwy i bobl ifanc a'u teuluoedd, gan gynnig ystod o fodolau tai er mwyn bodloni anghenion pobl ifanc amrywiol
- Peidio â phriodoli mynediad i dai pobl ifanc yn seiliedig ar orfod mynychu rhaglenni, ysgol, neu gyflogaeth, a lleihau'r meini prawf aciwtedd sydd yn ofynnol er mwyn cael mynediad at dai pobl ifanc
- Ei gwneud yn haws i bobl ifanc anabl gael mynediad at wasanaethau, cymorth, budd-daliadau a hawliau yn yr holl systemau

## Argymhellion pobl ifanc ynghylch ataliaeth systemau

- Gwella cydlyniant a chydweithredu ar draws gwasanaethau a systemau er mwyn lleihau'r rhwystrau i gael mynediad at gymorth a gwasanaethau i bobl ifanc a'u teuluoedd
- Sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol wedi cael hyfforddiant ar fod yn wrth orthrymol, ar fod yn LGBTQ gyfeillgar, ar empathi, gofal wedi ei hysbysu gan drawma a chymhwysedd diwylliannol
- Gweithredu mecanweithiau yn yr ysgol er mwyn sgrinio ar gyfer, a darparu cymorth ar unwaith i, bobl ifanc sydd yn dioddef camdriniaeth, esgeulustod, heriau iechyd meddwl, dibyniaethau a digartrefedd.
- Sicrhau bod yna gynlluniau ôl-ofal cydnerth wedi eu sefydlu ar gyfer pobl ifanc sydd yn pontio o ysbytai, canolfannau adsefydlu, canolfannau dadwenwyo a thai adfer

## Argymhellion pobl ifanc ynghylch atal achosion unigol a pherthynol digartrefedd

- Darparu cwnsela a chyfyngu teuluol am ddim, yn cynnwys i deuluoedd maeth
- Darparu mynediad am ddim at gyrsiau, rhaglenni neu grwpiau cymorth gyda sgiliau rhiantu a sgiliau bywyd, gan alluogi rhieni sydd yn straffaglu gyda thlodi, dibyniaeth a/neu broblemau iechyd meddwl i gael mynediad at gymorth heb ofni cael eu trin fel troseddwr neu ofni y byddant yn cael eu gwahanu oddi wrth eu plant.
- Cynyddu argaeledd gofodau anfeirniadol ble gall pobl ifanc siarad am brofiadau o gamdriniaeth a datblygu hunanwerth, hunan-fri a hunan-barch

Mae mewnwediadau pobl ifanc yn amlygu'r meysydd ffocws allweddol y mae angen eu pwysleisio mewn perthynas ag atal digartrefedd pobl ifanc. Wrth ddylunio polisi ac ymarfer ataliol, mae'n rhaid i ni roi sylw manwl i'r cyfraniad y gall pobl ifanc ei wneud i newid. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn cydnabod hawl y plentyn neu berson ifanc i fynegi eu safbwyntiau, i gael eu clywed, ac i ystyriaeth ddyledus gael ei rhoi i'w safbwyntiau. Mae hynny yn hyrwyddo parch i blant fel cyfranogwyr actif yn eu bywydau eu hunain. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (2011) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried yr UNCRC wrth lunio polisiau ac ymarferion, a bu iddo arwain at gyhoeddi'r Cynllun Hawliau Plant, sydd yn darparu sylfaen ar gyfer llunio polisiau sydd yn canolbwyntio ar bobl ifanc. O ganlyniad i hynny, dylai strategaeth atal ddefnyddio'r egwyddorion canlynol ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc:

- Cynnwys pobl ifanc mewn polisi cyhoeddus yn rheolaidd a pharhaus
- Ymgysylltu ag ieuencid ym mhob agwedd o ymchwil, polisi a datblygu rhaglenni
- Rhoi cyfle i'r holl bobl ifanc rannu eu profiadau a'u safbwyntiau
- Chwilio am gyfleoedd i bobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau

# Crynodeb o'r canfyddiadau

Er gwaethaf degawdau o ymdrechion, mae digartrefedd pobl ifanc yn parhau i godi mewn nifer o wledydd yng Ngogledd y Byd (Yaouancq et al, 2013). Mae'r adolygiad hwn o dystiolaeth ryngwladol yn dangos yr angen am ymagwedd fwy rhagweithiol at ddigartrefedd pobl ifanc. Er mwyn bod mor effeithiol ag sy'n bosibl, dylai atal digartrefedd pobl ifanc gynnwys pob un o'r pum maes atal: ataliaeth strwythurol, ataliaeth systemau, ymyrraeth gynnar, atal troi allan, a sefydlogrwydd tai (Gaetz & Dej, 2017). Wrth symud at ataliaeth yng Nghymru, dylai ymatebion polisi ac ymarfer gael eu harwain gan y canfyddiadau allweddol canlynol o'r adolygiad o'r dystiolaeth:

## Ataliaeth strwythurol

- Mae ymyriadau sydd yn canolbwyntio ar leihau tlodi, cynyddu incwm a lleihau gwrthdaro mewn teuluoedd mewn tlodi yn effeithiol o ran lleihau nifer o'r ffactorau sydd yn arwain pobl ifanc i wynebu risg o fod yn ddigartref.
- Mae cynyddu argaeledd stoc tai fforddiadwy yn cyfrannu'n sylweddol at ostyngiadau mewn digartrefedd ymysg plant, pobl ifanc a theuluoedd.

## Ataliaeth systemau

- Gellir lleihau digartrefedd pobl ifanc yn effeithiol drwy ddefnyddio ymyriadau sydd yn gwella sefydlogrwydd tai i bobl ifanc sydd yn pontio o systemau cyhoeddus. Mae ymyriadau effeithiol ac ymagweddau yn cynnwys: cynllunio rhyddhau cynnar wedi ei arwain gan ieuencid; cyfryngu teuluol ac aduno cyn, yn ystod ac ar ôl gadael systemau cyhoeddus; cymorth ariannol a thai ar ôl gadael gofal neu garchar; rheoli achos wedi ei hysbysu gan drawma; rhaglenni dargyfeirio mewn carchardai; a gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a dibyniaeth ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd / gofalwyr.
- Fel mater polisi cyfunedig sydd yn croesi systemau a sectorau lluosog, dylai atal digartrefedd pobl ifanc gael ei gefnogi gan ddull traws-system integredig sydd yn canolbwyntio ar ddatgymalu'r methiannau system sydd yn cyfrannu at ddigartrefedd pobl ifanc. Mae cofnodi cydlynol a rhannu gwybodaeth ar draws a rhwng sefydliadau a llywodraeth yn ategu'r ymdrechion yma.

## Ymyrraeth gynnar

- Mae ymyriadau atal yn yr ysgol yn arbennig o effeithiol o ran atal digartrefedd pobl ifanc, yn arbennig pan maent yn canolbwyntio ar bobl ifanc a theuluoedd ac yn seiliedig ar bartneriaethau cymunedol ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd ac addysg. Mae technegau sgrinio ar gyfer canfod ansicrwydd tai yn gynnar a

materion eraill yn elfennau pwysig o'r gwaith hwn. Mae tystiolaeth addawol yn bodoli ar gyfer y model COSS a ddefnyddiwyd gan Brosiect Geelong (Awstralia).

- Mae tai seibiant (e.e. Cartrefi Gwesteio), wedi eu cyfuno ag eiriolaeth teuluol a chymorth aduno, yn effeithiol iawn o ran dargyfeirio lloches ac mae'n dangos addewid mawr o ran atal digartrefedd pobl ifanc.

## Atal troi allan

- Mae yna dystiolaeth gydnerth sydd yn dangos effeithiolrwydd tymor byr ymyriadau atal troi allan, yn arbennig cymorth ariannol (e.e. cymorthdaliadau rhent) a chynrychiolaeth gyfreithiol. Mae'r ymyriadau yma yn effeithiol hyd yn oed pan fo'r cymorth lleiaf yn cael ei ddarparu. Mae angen ymchwil er mwyn asesu sut y gall ymyriadau atal troi allan fodloni anghenion pobl ifanc orau.

## Sefydlogrwydd tai

- Mae modelau tai sydd yn canolbwyntio ar ieuenctid, yn cynnwys Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc a Foyer, yn dangos addewid mawr ar gyfer atal digartrefedd pobl ifanc a sicrhau nad yw pobl ifanc yn dychwelyd i ddigartrefedd. Er mwyn gweithredu'r modelau tai yma, mae angen i nifer o gymunedau gynyddu argaeledd tai fforddiadwy penodol ar gyfer pobl ifanc. Bydd ymchwil newydd yn y maes yma yn helpu i asesu effeithiolrwydd y modelau yma ar gyfer gwahanol boblogaethau o bobl ifanc.
- Mae cryfhau cymorth teuluol a naturiol, a chysylltiadau cymunedol ar gyfer pobl ifanc yn elfen gritigol o ymdrechion effeithiol i sefydlogi tai. Mae ymyriadau sydd yn cynnwys cyfryngu teuluol, cwnsela teuluol ac aduno teuluoedd yn adrodd am well deilliannau o ran sefydlogrwydd tai a llesiant pobl ifanc.
- Mae'n rhaid i ymatebion ataliol effeithiol i ddigartrefedd pobl ifanc beidio â chanolbwyntio'n unig ar sefydlogrwydd tai, ond dylent hefyd fynd i'r afael â llesiant pob ifanc, cynhwysiant cymdeithasol, cysylltiad â'r gymuned a diwylliant, ac ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Yn fwy eang, mae ymchwil yn dangos bod ymdrechion i atal digartrefedd pobl ifanc angen ymyriadau a dulliau wedi eu targedu sydd yn delio â'r heriau penodol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu. Dylai'r holl ymyriadau ataliol gael eu teilwra'n ddatblygiadol ac unigol, tra'n sicrhau parch i hawl plant a phobl ifanc i benderfynu drostynt eu hunain. Mae angen mwy o ymchwil i nifer o feysydd atal digartrefedd pobl ifanc, yn arbennig ymchwil sydd yn gymharol, hydredol, sydd yn defnyddio Treialon Ar Hap Dan Reolaeth, ac sy'n asesu deilliannau y tu hwnt i effeithiau rhaglenni unigol.

Wrth weithredu ataliaeth digartrefedd pobl ifanc, dylai Llywodraeth Cymru amcanu at fabwysiadu ymyriadau y dangoswyd eu bod yn effeithiol. Fodd bynnag, mae yna heriau yn gysylltiedig â phenderfynu a yw ymdrechion i atal digartrefedd pobl ifanc yn effeithiol, a sut a

pham. I ddechrau, mae'n anodd asesu a yw ymyriadau yn atal digartrefedd yn effeithiol yn yr hirdymor, neu ond yn lliniaru neu'n ei ddargyfeirio (Culhane et al, 2011). Yn ail, mae'n anodd sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau yn cael eu targedu at y rhai sydd yn fwyaf tebygol o fod yn ddigartref (Burt, 2007; Culhane et al, 2011; Poppe a Gales, 2018). Yn drydydd, pan fo ymyriadau atal yn darparu gwasanaethau lluosog, mae'n anodd asesu cyfraniad perthnasol y gwasanaethau unigol at ddeilliannau ataliol. Yn bedwerydd, mae'r gronfa dystiolaeth sydd yn cefnogi atal digartrefedd pobl ifanc yn amrywiol - tra bod yna dystiolaeth gref ac ymarferion addawol mewn rhai meysydd, nid oes digon o ymchwil wedi ei wneud i nifer o feysydd eraill.

Gan wynebu'r heriau methodolegol yma, mae'n rhaid i ni ddod yn ôl at yr hyn yr ydym yn ei wybod o ddegawdau o ymchwil: mae'r ymateb presennol i ddigartrefedd pobl ifanc, sydd yn canolbwyntio ar achosion brys, yn gwneud cam â phobl ifanc. Mae astudiaethau o bob cwr o'r byd yn dangos ein bod yn colli cyfleoedd allweddol i ymyrryd yn gynnar, ac rydym yn aml yn methu â symud pobl ifanc o ddigartrefedd yn gyflym. Mewn gwledydd ar draws Gogledd y Byd, mae ein systemau cyhoeddus yn cyfrannu at ddigartrefedd pobl ifanc ac yn trapio pobl ifanc ar y strydoedd. Hyd yn oed ar ôl cefnu ar ddigartrefedd, mae pobl ifanc yn dioddef yn fawr am flynyddoedd o ganlyniad i'r niwed a achoswyd gan y profiad.

Mae gan Lywodraeth Cymru y cyfle, gyda'r dystiolaeth a gyflwynwyd, i newid polisi fel na welwyd o'r blaen er mwyn atal digartrefedd pobl ifanc. Bydd buddsoddi a newid cyfeiriad mewn perthynas â digartrefedd pobl ifanc yn creu'r sylfaen sydd ei angen er mwyn llenwi'r bylchau o ran gwybodaeth, rhaglenni a systemau yn genedlaethol. Bydd cyflwyno polisi dewr hefyd yn dilysu'r gwaith sydd yn cael ei wneud mewn cymunedau, ac yn rhoi caniatâd i gymunedau sydd eisiau arloesi, ac yn arwain at yr ymagwedd un llywodraeth sydd ei hangen er mwyn ymateb i gymhlethdod y mater hwn.

# Argymhellion

Bwriedir i'r argymhellion canlynol fod yn arweiniad i bolisi'r llywodraeth ac i fuddsoddiad mewn mynd i'r afael ag atal digartrefedd pobl ifanc. Maent yn deillio'n uniongyrchol o'r gronfa dystiolaeth a mewnwelediad arbenigwyr a gafwyd yn y broses o ddatblygu'r adroddiad yma. Mae rhai o'r argymhellion yn adlewyrchu camau neu symudiad Llywodraeth Cymru sydd ar waith eisoes efallai; ar gyfer y rhai hynny, dylai'r argymhellion ddilysu'r gwaith da sydd yn cael ei wneud. Hefyd, er nad oes gan Lywodraeth Cymru annibyniaeth lwyr efallai i arwain y gwaith yn yr holl feysydd yma, mae ein hargymhellion isod yn adlewyrchu beth sydd yn ddelfrydol ofynnol ar gyfer dull cynhwysfawr o atal digartrefedd pobl ifanc.

Hefyd, wrth weithredu'r argymhellion yma, dylai'r llywodraeth flaenoriaethu ac arwain proses o ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol gyda phobl ifanc sydd wedi profi bywyd digartref wrth ddatblygu polisïau, ymarferion a deddfwriaeth berthnasol. Mae pobl ifanc yn chwarae rôl bwysig wrth hyrwyddo eu blaenoriaethau a'u diddordebau, a dylid eu cefnogi i wireddu eu hawliau sylfaenol i ymgysylltu â phenderfyniadau sydd yn effeithio arnynt.

## Camau gweithredu trawslywodraethol

- Mabwysiadu ymrwymiad trawslywodraethol i atal digartrefedd pobl ifanc, gyda ffocws ar gefnogi gwasanaethau rheng flaen er mwyn gweithredu ymryiadau a pholisïau seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi eu hysbysu gan bobl ifanc ac yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Datblygu a gweithredu strategaeth genedlaethol er mwyn atal a rhoi terfyn ar ddigartrefedd pobl ifanc, a chonglfaen hynny fydd ymrwymiad i atal digartrefedd pobl ifanc wedi ei ymgorffori ar draws holl adrannau a haenau perthnasol y llywodraeth. Dylai'r strategaeth hon gael ei chefnogi gan fuddsoddiad llinell gyllid benodol ac uwch noddwr gwleidyddol. Dylai ymgysylltu'n ystyrion â phobl ifanc digartref wrth iddi gael ei chreu.
- Dylai elfennau strategaeth genedlaethol gynnwys:
  - Diffiniad trawslywodraethol o ddigartrefedd pobl ifanc ac atal digartrefedd pobl ifanc;
  - Targedau uchelgeisiol er mwyn atal a rhoi terfyn ar ddigartrefedd pobl ifanc, wedi eu hategu gan offerynnau i fesur cynnydd;
  - Llywodraethiant drwy bwyllgor trawslywodraethol, fydd yn cynnwys uwch weision sifil, fydd yn gyfrifol am ddatblygu dull systemau cydlynol o atal digartrefedd pobl ifanc. Dylai'r pwyllgor ddefnyddio dull wedi ei ganolbwyntio ar y cleient er mwyn arwain ymdrechion alinio ar draws y llywodraeth;

- Diwygio polisïau ac ymarferion presennol ar draws y llywodraeth er mwyn sicrhau nad yw ymyrraeth systemau cyhoeddus yn creu nac yn meithrin ansicrwydd i bobl ifanc na'u teuluoedd;
- Model cyllido hyblyg a chynaliadwy all symud ymyriadau rhaglenni yn eu blaen, sydd yn ymateb ymhell cyn i berson ifanc ddod yn ddigartref, ac sy'n sicrhau bod pobl ifanc yn cefnu ar ddigartrefedd mor gyflym â phosibl;
- Datblygu Agenda Ymchwil Cenedlaethol i Ddigartrefedd pobl ifanc er mwyn datblygu ffocws traws-systemau ar atal digartrefedd pobl ifanc, wedi eu drefnu yn unol â'r dopoleg atal a nodwyd gan Gaetz & Dej (2017).
- Datblygu asesiad traws-systemau ac offeryn sgrinio er mwyn clustnodi, asesu ac ymateb i anghenion pobl ifanc sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref. Adnabod risg o ddigartrefedd yn gynnar ymysg pobl ifanc a'u teuluoedd ddylai fod y nod i'r offeryn yma, a rhoi cyfle i ymyrryd cyn i bobl ifanc ddod yn ddigartref.
  - Gellid mabwysiadu'r offeryn yma mewn amryw o gyd-destunau cyhoeddus (e.e. gofal iechyd sylfaenol, ysgolion) ynghyd â mecanweithiau er mwyn sicrhau bod pobl ifanc a glustnodir yn cael eu cysylltu ar unwaith â gwasanaethau a chymorth priodol.
[https://healthspark.org/sites/npchf.org/files/attachments/eviction\\_homelessness\\_prevention\\_research\\_report\\_final\\_4-4-18.pdf](https://healthspark.org/sites/npchf.org/files/attachments/eviction_homelessness_prevention_research_report_final_4-4-18.pdf)

Powell, C., Ellasante, I., Korchmaros, J., Haverly, K. & Stevens, S. (2016). **iTEAM: Outcomes of an affirming system of care serving LGBTQ youth experiencing homelessness**. *Families in Society: The Journal of Contemporary Social Services*, 97(3), 181–190.

Poynton, S. & Menendez, P. (2015). **The impact of the NSW Intensive Supervision Program on recidivism**. *NSW Crime and Justice Bulletins*, 186, 1-16.

Protheroe, A., Mudd, J., & Fury, M. (2017). **The experience of Universal Credit: A tenant perspective**. Prifysgol Fetropolitan Caerdydd Retrieved from [https://chcymru.org.uk/uploads/general/The\\_Experience\\_of\\_Universal\\_Credit\\_03.17.pdf](https://chcymru.org.uk/uploads/general/The_Experience_of_Universal_Credit_03.17.pdf)

Quigley, J. & Raphael, S. (2002). **The economics of homelessness: The evidence from North America**. *European Journal of Housing Policy*, 1(3), 323-336.

Quilgars, D., Johnsen, S., & Pleace, N. (2008). **Youth homelessness in the UK**. *York, UK: Joseph Rowntree Foundation*. Adalwyd o:

<https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/2220-homelessness-young-people.pdf>

Raising the Roof. (2018). **Literature Review on Host Homes**. Toronto, Canada: Raising the Roof.



Raithel, J., Yates, M., Dworsky, A., Schretzman, M. & Welshimer, W. (2015). **Partnering to leverage multiple data sources: Preliminary findings from a supportive housing impact study.** *Child Welfare*, 94(1), 73-85.

Ratnam, C., Fitzpatrick, A. & Thang, H. (2018). '2.3 Engaging with newcomer youth experiencing homelessness' in Kidd, S., Slesnik, N., Frederick, T., Karabanow, J. & Gaetz, S. (eds.) **Mental health & addiction intervention for youth experiencing homelessness: Practical strategies for front-line providers.** Toronto: Canadian Observatory on Homelessness Press, 111-124.

Ratnasingham, S., Cairney, J., Manson, H., Rehm, J., Lin, E. & Kurdyak, P. (2013). **The burden of mental illness and addiction in Ontario.** *The Canadian Journal of Psychiatry*, 58(9), 529-537.

Reddy, L. & Pfeiffer, S. (1997). **Effectiveness of treatment foster care with children and adolescents: A review of outcome studies.** *Journal of the American Academy of Child & Adolescent Psychiatry*, 36(5), 581-588.

Rew, L., Taylor-Seehafer, M. & Fitzgerald, M. (2001). **Sexual abuse, alcohol and other drug use, and suicidal behaviors in homeless adolescents.** *Issues in Comprehensive Pediatric Nursing*, 24(4), 225-240.

Rog, D. & Buckner, J. (2007). **Toward understanding homelessness: The 2007 national symposium on homelessness research. Homeless Families and Children.** Washington: U.S. Department of Health and Human Services.

Rolston, H., Geyer, J., Locke, G., Metraux, S. & Treglia, D. (2013). **Evaluation of Homebase Community Prevention Program.** Bethesda: Abt Associates Inc.

Routt, G. & Anderson, L. (2011). **Adolescent violence towards parents.** *Journal of Aggression, Maltreatment & Trauma*, 20 (1), 1-19.

Roy, É., Robert, M., Fournier, L., Laverdière, É., Berbiche, D. & Boivin, J. (2016). **Predictors of residential stability among homeless young adults: A cohort study.** *BMC Public Health*, 16 (131), 1-8. Adalwyd o: <https://doi.org/10.1186/s12889-016-2802-x>

Rumberger, R. (2003). **The causes and consequences of student mobility.** *Journal of Negro Education*, 71(1), 6-21.

Salazar, A., Keller, T., Gowen, L. & Courtney, M. (2013). **Trauma exposure and PTSD among older adolescents in foster care.** *Social Psychiatry and Psychiatric Epidemiology*, 48(4), 545-551.

Salize, H., Dillmann-Lange, C., Kentner-Figura, B. & Reinhard, I. (2006). **Threatened homelessness and mental disorders: Prevalence and influencing factors in populations at risk.** *Der Nervenarzt*, 77(11), 1345-1354.

Seedco. (2010). **Housing Help Program: Homelessness prevention final report.** New York: Seedco.

Seron, C., Frankel, M., Van Ryzin, G. & Kovath, J. (2001). **The impact of legal counsel on outcomes for poor tenants in New York city's housing court: Results of a randomized experiment.** *Law & Society Review*, 35(2), 419-434.

Schwan, K., Gaetz, S., French, D., Redman, M., Thistle, J. & Dej, E. (2018). **What would it take? Youth across Canada speak out on youth homelessness.** Toronto: The Canadian Observatory on Homelessness.

Schwan, K., Kidd, S., Gaetz, S., O'Grady, B. & Redman, M. (2017). **Mental health care for homeless youth: A proposal for federal, provincial, and territorial leadership, coordination, and targeted investment.** Toronto: Canadian Observatory on Homelessness Press.

Shinn, M., Baumohl, J. & Hopper, K. (2001). **The prevention of homelessness revisited.** *Analyses of Social Issues and Public Policy*, 1(1), 95-127.

Shinn, M., Brown, S., & Gubits, D. (2017). **Can housing and service interventions reduce family separations for families who experience homelessness?** *American Journal of Community Psychology*, 60(1–2), 79–90. Adalwyd o: <https://doi.org/10.1002/ajcp.12111>

Shinn, M., Samuels, J., Fischer, S., Thompkins, A. & Fowler, P. (2015). **Longitudinal impact of a family critical time intervention on children in high-risk families experiencing homelessness: A randomized trial.** *American Journal of Community Psychology*, 56(3–4), 205–216. Adalwyd o: <https://doi.org/10.1007/s10464-015-9742-y>

Skott-Myhre, H., Raby, R. & Nikolaou, J. (2008). **Towards a delivery system of services for rural homeless youth: A literature review and case study.** *Child and Youth Care Forum*, 37, 87–102. Adalwyd o: <https://doi.org/10.1007/s10566-008-9052-8>

Slesnick, N., Dashora, P., Letcher, A., Erdem, G. & Serovich, J. (2009). **A review of services and interventions for runaway and homeless youth: Moving forward.** *Children and Youth Services Review*, 31(7), 732–742. Adalwyd o: <https://doi.org/10.1016/j.childyouth.2009.01.006>

Slesnick, N. & Prestopnik, J. (2005a). **Dual and multiple diagnosis among substance using runaway youth.** *The American Journal of Drug and Alcohol Abuse*, 31(1), 179-201.

Slesnick, N. & Prestopnik, J. (2005b). **Ecologically-based family therapy outcome with substance abusing runaway adolescents.** *Journal of Adolescence*, 28(2), 277-298. Adalwyd o: <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC1933523/>

Slesnick, N., Zhang, J. & Brakenhoff, B. (2017). **Personal control and service connection as paths to improved mental health and exiting homelessness among severely marginalized homeless youth.** *Children and Youth Services Review*, 73, 121–127. Adalwyd o: <https://doi.org/10.1016/j.childyouth.2016.11.033>

Slesnick, N. (2018, 22, June). Personal interview.

Spencer, M. & Jones-Walker, C. (2004). **Interventions and services offered to former juvenile offenders reentering their communities: An analysis of program effectiveness.** *Youth Violence and Juvenile Justice*, 2(1), 88-97.

Stapleton, J., Tweedle, A., Procyk, S. Doucet, R. & Pooran, B. (2012). **25 is the new 21: The costs and benefits of providing extended care & maintenance to Ontario youth in care until age 25.** Toronto: Office of the Provincial Advocate for Children and Youth. Adalwyd o: <http://homelesshub.ca/resource/25-new-21-costs-and-benefits-providing-extended-care-maintenance-ontario-youth-care-until>

Ystadegau Cymru. (2016). Mortgage and landlord possession actions taken in the county courts of Wales, 2015-16 PoRetrieved from: <https://gov.wales/docs/statistics/2016/160630-mortgage-landlord-possession-actions-taken-in-county-courts-2015-16-en.pdf>

St. Basils. (2015). **Developing Positive Pathways to Adulthood: Supporting young people on their journey to economic independence and success through housing advice, options and homelessness prevention.** Birmingham: St. Basils. Adalwyd o: [https://stbasils.org.uk/files/2015-08-35/10\\_FINAL\\_pathwaysA4\\_booklet\\_98812.pdf](https://stbasils.org.uk/files/2015-08-35/10_FINAL_pathwaysA4_booklet_98812.pdf)

St. Basils. (2017). **Youth Justice Accommodation Pathway: Preventing homelessness and supporting better outcomes for young people involved in the criminal justice system in England.** Birmingham: St. Basils. Adalwyd o: <https://www.yhne.org.uk/wp-content/uploads/Youth-Justice-Accommodation-Pathway.pdf>

Stein, M. (2006). **Research review: Young people leaving care.** *Child & Family Social Work*, 11(3), 273-279.

Stein, M. (2012). **Young people leaving care: Supporting pathways to adulthood.** Llundain: Jessica Kingsley Publishers.

Stenberg, S., Van Doorn, L. & Gerull, S. (2011). **Locked out in Europe: A comparative analysis of evictions due to rent arrears in Germany, the Netherlands and Sweden.** *European Journal of Homelessness*, 5(2), 39-61

Stirling, T. (2018) **Youth homelessness and care leavers: Mapping interventions in Wales.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Sulkowski, M. & Michael, K. (2014). **Meeting the mental health needs of homeless students in schools: A multi-tiered system of support framework.** *Children and Youth Services Review*, 44, 145–151. Adalwyd o: <https://doi.org/10.1016/j.childyouth.2014.06.014>

Swanson, C. & Schneider, B. (1999). **Students on the move: Residential and educational mobility in America's schools.** *Sociology of Education*, 72, 54-67.

Sylvestre, M. & Bellot, C. (2014). 'Challenging discriminatory and punitive responses to homelessness in Canada' in Jackman, M. & Porter, B. (eds.) **Advancing Social Rights in Canada.** Toronto: Irwin Law, 1-30.

Tarren-Sweeney, M. & Vetere, A. (2013). **Mental health services for vulnerable children and young people: Supporting children who are, or have been, in foster care.** New York: Routledge.

Tevendale, H., Comulada, W. & Lightfoot, M. (2011). **Finding shelter: Two-year housing trajectories among homeless youth.** The Journal of Adolescent Health: Official Publication of the Society for Adolescent Medicine, 49(6), 615–620. Adalwyd o: <https://doi.org/10.1016/j.jadohealth.2011.04.021>

The Forum for Youth Investment. (2014). **Collective impact for policy makers: Working together for children and youth.** Washington: The Forum for Youth Investment.

The Scottish Government. (2013). **Staying put Scotland: Providing care leavers with connectedness and belonging.** Caeredin: Llywodraeth Yr Alban.

Thistle, J. (2017). **Definition of Indigenous Homelessness in Canada.** Toronto: Canadian Observatory on Homelessness Press.

Todis, B., Bullis, M., Waintrup, M., Schultz, R. & D'ambrosio, R. (2001). **Overcoming the odds: Qualitative examination of resilience among formerly incarcerated adolescents.** Exceptional Children, 68(1), 119-139.

Toro, P., Lesperance, T. & Braciszewski, J. (2011). **The heterogeneity of homeless youth in America: Examining typologies.** Washington: Homelessness Research Institute.

Tsemberis, S. & Eisenberg, R. (2000). **Pathways to housing: Supported housing for street-dwelling homeless individuals with psychiatric disabilities.** Psychiatric Services, 51(4), 487–493. Adalwyd o: <https://doi.org/10.1176/appi.ps.51.4.487>

Tuell, J. (2003). **Promoting a coordinated and integrated child welfare and juvenile justice system: An action strategy for improved outcomes.** Washington: Child Welfare League of America.

Turner, A. (2016). **A way home: Youth homelessness community planning toolkit.** Toronto: The Homeless Hub Press.

U.S. Department of Housing and Development. (2016). **Ending youth homelessness guidebook series: Promising program models.** Washington: U.S. Department of Housing and Development. Adalwyd o: <https://www.hudexchange.info/resources/documents/Ending-Youth-Homelessness-Promising-Program-Models.pdf>

Van Laere, I., De Wit, M. & Klazinga, N. (2009). **Evaluation of the signalling and referral system for households at risk of eviction in Amsterdam.** Health & Social Care in the Community, 17(1), 1-8.

Vásquez-Vera, H., Palència, L., Magna, I., Mena, C., Neira, J. & Borrell, C. (2017). **The threat of home eviction and its effects on health through the equity lens: A systematic review.** Social Science & Medicine, 175, 199-208.

Villegas, S., Rosenthal, J., O'Brien, K. & Pecora, P. (2014). **Educational outcomes for adults formerly in foster care: The role of ethnicity**. *Children and Youth Services Review*, 36, 42-52.

Vitopoulos, N., Cerswell Kielburger, L., Frederick, T. J., McKenzie, K. & Kidd, S. (2017). **Developing a trauma-informed mental health group intervention for youth transitioning from homelessness**. *Professional Psychology: Research and Practice*, 48(6), 499-509.

Wade, J. & Dixon, J. (2006). **Making a home, finding a job: Investigating early housing and employment outcomes for young people leaving care**. *Child & Family Social Work*, 11(3), 199-208.

Watts, B. (2018, 22, June). Personal interview.

Webster, C. & Doob, A. (2015). **US punitiveness 'Canadian style'? Cultural Values and Canadian punishment policy**. *Punishment & Society*, 17(3), 299-321.

Llywodraeth Cymru. (2015). **National pathways to homelessness services to children, young people and adults in the secure state**. Adalwyd o: <https://gov.wales/docs/desh/publications/151215-national-pathway-for-homelessness-services-en.pdf>

Wertheimer, R. (2002). **Youth who "age out" of foster care: Troubled lives, troubling prospects**. *Child Trends*, 59, 1-8. Adalwyd o: <https://www.childtrends.org/wp-content/uploads/2014/05/2002-59AgeOutFosterCare.pdf>

Whalen, A. (2015). **Provision for young care leavers at risk of homelessness**. Caerdydd: Public Policy Institute for Wales.

Wilson, B. & Schwarz, D. (2012). **A step in the right direction: Diverting young people from the Victorian justice system**. Moorabbin: Youth Connect.

Wilson, E. (2013). **Youth Justice Interventions: Findings from the Juvenile Cohort Study (JSC)**. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Adalwyd o: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/266405/juvenile-cohort-study.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/266405/juvenile-cohort-study.pdf)

Wolitski, R., Kidder, D., Pals, S., Royal, S., Aidala, A., Stall, R., Holtgrave, D., Harre, D., Courtenay-Quirk, C., for the Housing and Health Study Team. (2010). **Randomized trial of the effects of housing assistance on the health and risk behaviors of homeless and unstably housed people living with HIV**. *AIDS Behavior*, 14(3), 493-503.

Wylie, L. (2014). **Closing the crossover gap: Amending fostering connections to provide independent living services for foster youth who crossover to the justice system**. *Family Court Review*, 52(2), 298-315.

Yaouancq, L., Marpsat, M., Régnier, V., Legleye, S. & Quaglia, M. (2013). **L'hébergement des sans-domicile en 2012: Des modes d'hébergement différents selon les situations familiales**. Paris: Institut national de statistique et des études économiques.

Zivanovic, R., Omura, J., Wood, E., Nguyen, P., Kerr, T. & DeBeck, K. (2016). **Eviction and loss of income assistance among street-involved youth in Canada.** *Journal of Public Health Policy*, 37(2), 244-259



# Geirfa

**Ymyriadau Amser Critigol** - Mae **Ymyriadau Amser Critigol (CTI)** yn “fodel rheoli achos gyda therfyn amser a gefnogir yn empirig, a ddyluniwyd i atal digartrefedd ymysg pobl ag afiechyd meddwl ar ôl eu rhyddhau o ysbytai, llochesi, carchardai a sefydliadau eraill. Mae'r cyfnod pontio yma yn un sydd yn achosi anawsterau i bobl yn aml o ran ailsefydlu eu hunain mewn tai sefydlog gyda mynediad i gymorth angenrheidiol. Mae CTI yn gweithio mewn dwy brif ffordd: drwy ddarparu cymorth emosiynol ac ymarferol yn ystod amser critigol pontio a thrwy atgyfnerthu cysylltiadau hirdymor yr unigolyn â gwasanaethau, teulu a ffrindiau” (Canolfan Hyrwyddo Ymyriadau Amser Critigol, 2009 t. 1).

**“Pobl Ifanc sy'n Croesi”** - Defnyddir y term “pobl ifanc sy'n croesi” i gyfeirio at bobl ifanc sydd wedi dod i gysylltiad â'r system llesiant plant a'r system cyfiawnder ieuencid. Mae ymchwil yn dangos bod pobl ifanc yn y system llesiant plant yn rhyngweithio'n negyddol â'r system cyfiawnder troseddol, ac yn wynebu heriau unigryw wrth lywio drwy'r systemau cyfreithiol a chyfiawnder.

**Ymyrraeth Gynnar** - Mae dulliau ymyrraeth gynnar mewn perthynas ag atal digartrefedd pobl ifanc yn ceisio adnabod a mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc a'u teuluoedd cyn iddynt fod yn ddigartref, gan leihau'r niferoedd fydd yn ddigartref. Mae'r ymyriadau yma yn nodi ac yn mynd i'r afael ag “anghenion corfforol, emosiynol, materol, rhyngpersonol, cymdeithasol ac addysgol pobl ifanc sydd ar fin wynebu risg o fod yn ddigartref neu sydd newydd ddod yn ddigartref (Gaetz, 2014, t. 482). Mae enghreifftiau allweddol o raglenni ymyrraeth gynnar yn cynnwys Prosiect Geelong (Awstralia), Cartrefi Gwesteion (e.e. Nightstop, DU) a dargyfeirio lloches (e.e. The RAFT, Canada).

**Therapi Teuluol Seiliedig ar Ecoleg** - Mae therapi teuluol seiliedig ar ecoleg (EBFT) yn seiliedig ar fodel cadwraeth teuluol Homebuilders. Mae EBFT wedi ei “strwythuro er mwyn darparu gwasanaethau dwys ar unwaith dros gyfnod byr. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r argyfwng yn cael ei achosi gan fygythiad i dynnu plentyn gan Wasanaethau Diogelu Plant, plentyn yn rhedeg i ffwrdd, neu blentyn yn cael ei wrthod gan y teulu” (Slesnick & Prestopnik, 2007, t. 278). Wrth ddefnyddio EBFT “bydd un cwnselydd yn gweld teuluoedd ac mae gwasanaethau yn cynnwys ystod eang o ymyriadau ymddygiadol, gwybyddol ac amgylcheddol, yn ddibynol ar anghenion y teulu. Nid yw'n ofynnol i holl aelodau'r teulu fod yn gyfranogi yn y rhaglen, a defnyddir sesiynau teuluol ac unigol” (Slesnick & Prestopnik, 2007, t. 278).

**Atal Troi Allan a Blaengaeadau** - Yn gyffredinol mae atal troi allan a blaengaeadau yn cyfeirio at unrhyw raglen, polisi, ymyrraeth, neu strategaeth a anelir at gadw unigolion a theuluoedd yn eu cartrefi gyda deiliadaeth, gan osgoi troi allan a blaengaeadau a lleihau'r risg o fod yn ddigartref (gweler Gaetz a Dej, 2016; Poppe a Gale, 2018). Oherwydd hynny,



gellir deall atal troi allan a blaengaeadau fel math o *ymyrraeth gynnar a sefydlogi tai* o fewn topoleg atal digartrefedd (Gaetz a Dej, 2017).

**Atal Digartrefedd** - Mae atal digartrefedd yn cyfeirio at “bolisiau, arferion ac ymyriadau sydd yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn profi digartrefedd. Mae hefyd yn golygu rhoi'r adnoddau a'r cymorth angenrheidiol i bobl sydd wedi bod yn ddigartref er mwyn sefydlogi eu sefyllfa tai, gwella integreiddio a chynhwysiant cymdeithasol, ac yn y pen draw lleihau'r risg o fod yn ddigartref eto.” (Gaetz a Dej, 2017, t. 35)

**Cartrefi Gwesteio** - Mae tai seibiant, y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel “**Cartrefi Gwesteio**,” yn fath o ddargyfeiriad lloches sydd yn darparu tai dros dro a chymorth i bobl ifanc sydd wedi dianc o'u cartrefi neu wedi cael eu hel o'u cartrefi. Nod model Cartrefi Gwesteio yw rhoi cymorth ar unwaith a lle diogel i aros yn y gymuned, gan ddargyfeirio pobl ifanc rhag mynd i'r system loches, a galluogi pobl ifanc i aros mewn cysylltiad â theulu a chyfoedion, tra'n parhau i fynd i'r ysgol (Gaetz a Dej, 2017). Mae'r model yma yn rhoi cyfle i bobl ifanc a'u teuluoedd fynd i'r afael â materion tanategol (ar wahân neu ar y cyd), yn gyfun â strategaeth aduno teuluoedd, pan fo hynny yn briodol a diogel. Er bod modelau Cartrefi Gwesteio yn wahanol, maent yn aml yn cynnwys aelodau'r gymuned sy'n cynnig ystafell yn eu cartrefi i berson ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref, gan alluogi'r bobl ifanc a'u teuluoedd i dderbyn cymorth tra penderfynir ar y camau nesaf i'w cymryd mewn perthynas â thai.

**Tai yn Gyntaf** - Mae 'Tai yn Gyntaf' yn ymagwedd tuag at ddigartrefedd sy'n canolbwyntio ar adfer ac ar symud pobl ddigartref yn gyflym i dai annibynnol a pharhaol, gan ddarparu cymorth a gwasanaethau 'cofleidiol' yn ôl yr angen. Egwyddor sylfaenol Tai yn Gyntaf yw bod pobl yn gallu symud ymlaen â'u bywydau os byddant yn cael tai i ddechrau, beth bynnag fo'r heriau sydd yn eu hwynebu (e.e. dibyniaethau, materion yn ymwneud ag iechyd meddwl). Drwy raglenni Tai yn Gyntaf, mae tai yn cael eu darparu ar unwaith, ac yna darperir cymorth er mwyn mynd i'r afael ag iechyd corfforol a meddwl, addysg, cyflogaeth, defnyddio sylweddau ac arwahanrwydd cymdeithasol. Mae Tai yn Gyntaf yn gyson ag ymagwedd hawliau dynol tuag at dai. Mae'r model wedi ei gefnogi'n sylweddol gan dystiolaeth a gellir ei ystyried fel 'ymarfer gorau'.

**Sefydlogrwydd Tai** - Mae sefydlogrwydd tai yn cyfeirio at strategaethau ac ymyriadau sydd yn sicrhau bod pobl ifanc yn pontio o ddigartrefedd mor gyflym â phosibl, ac nad ydynt yn dod yn ddigartref fyth eto (Gaetz & Dej, 2017, t. 78). Mae sefydlogi tai yn fath o ataliaeth drydyddol, ac mae Tai yn Gyntaf yn enghraifft gref seiliedig ar dystiolaeth o sefydlogrwydd tai. Gellir trefnu sefydlogrwydd tai ymysg pobl ifanc i bum maes allweddol y mae Gaetz a Dej (2017) yn dadlau y dylent fod yn rhan o unrhyw strategaeth sefydlogi tai eang: **cymorth tai; cymorth iechyd, iechyd meddwl, a defnyddio sylweddau, cymorth incwm, addysg a chyflogaeth; cymorth ategol; a chynhwysiant cymdeithasol** (Gaetz, 2017, t. 79; Gaetz, 2014)

**Trawma Rhyng-genedlaethau** - Mae trawma rhyng-genedlaethau yn cyfeirio at drosglwyddo gorthrwm hanesyddol a chanlyniadau hynny ar draws cenedlaethau, gan arwain at ganlyniadau negyddol, megis digartrefedd. Mae trawma traws-genedlaethau yn arwain at anghysonderau iechyd, economaidd a chymdeithasol. Ymdriniwyd yn helaeth â dylanwad trawma rhyng-genedlaethau ar ddigartrefedd brodorol yn **Definition of Indigenous Homelessness in Canada** (Thistle, 2017).

**Model Llwybrau Tai yn Gyntaf** – **Model Llwybrau Tai yn Gyntaf** oedd y model Tai yn Gyntaf cyntaf boblogeiddiwyd, ac a ddatblygwyd gan Sam Tsemberis a Pathways to Housing yn Efrog Newydd yn y 1990au. Roedd y model yn cyflwyno egwyddor darparu tai i bobl i ddechrau, ac yn darparu gwasanaethau triniaeth er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw heriau yr oedd yr unigolyn yn eu hwynebu (e.e. camddefnyddio sylweddau, heriau iechyd meddwl). Mae tystiolaeth sylweddol yn cefnogi'r model yma.

**Ataliaeth Strwythurol** - Mae ataliaeth strwythurol mewn perthynas â digartrefedd yn golygu datgymalu polisïau, deddfwriaeth, arferion a systemau sydd yn cyfrannu at ansicrwydd tai ymhlith ieuencid a'u teuluoedd, a'u hamnewid gyda pholisïau sydd wedi eu dylunio i gynyddu sicrwydd economaidd, sefydlogrwydd tai, a chynhwysiant cymdeithasol i bawb. Oherwydd bod pobl ifanc yn aml yn rhan o berthnasoedd o ddibyniaeth gydag oedolion (Gaetz, 2014), mae'n rhaid i ataliaeth strwythurol hefyd fynd i'r afael â ffactorau strwythurol sydd yn cyfrannu at ansicrwydd tai yn achos oedolion hefyd. Mae enghreifftiau allweddol yn cynnwys ymdrechion i gynyddu argaeledd a fforddiadwyedd tai, lleihau tlodi a buddsoddi mewn gofal iechyd cyffredinol.

**Methiannau yn y System** - Yng nghyd-destun digartrefedd pobl ifanc, mae methiannau yn y system yn cyfeirio at sefyllfaoedd pan fo "polisïau a darpariaeth gwasanaethau annigonol mewn a rhwng systemau yn cyfrannu at y tebygolrwydd y bydd rhywun yn dod yn ddigartref (Schwan et al, 2018, t. 3; gweler Gaetz a Dej, 2017). Mae hynny yn cynnwys rhwystrau rhag cael mynediad at systemau cyhoeddus, methu â phontio o sefydliadau a systemau a gyllidir yn gyhoeddus, a seilos a bylchau mewn a rhwng adrannau a systemau a gyllidir gan y llywodraeth, yn ogystal â mewn sectorau di-elw (Gaetz a Dej, 2017). Mewn nifer o achosion mae'r methiannau sefydliadol a systemig yma yn cyfuno mewn ffyrdd sydd yn cyfuno anfanteision a risgiau digartrefedd yn achos unigolion a theuluoedd.

**Ataliaeth Systemau** - Mae ataliaeth systemau yn mynd i'r afael â'r "methiannau sefydliadol a systemig sydd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn cyfrannu at y risg o fod yn ddigartref" (Gaetz a Dej, 2017, t. 44). Mae tair strategaeth allweddol ar gyfer ataliaeth systemau yn cynnwys: "Datrys rhwystrau polisi a gweithdrefnol er mwyn hwylus mynediad at raglenni a chymorth; gwella mynediad at systemau, gwasanaethau a chymorth priodol cyhoeddus; a hwyluso pontio effeithiol o sefydliadau neu systemau cyhoeddus (Gaetz a Dej, 2017, t. 56-57). Mae systemau cyhoeddus allweddol a dargedir gan ataliaeth systemau yn

cynnwys llesiant plant, addysg, gofal iechyd a dibyniaethau, cyfiawnder troseddol, a mewnfudo.

**Dull Seiliedig ar Drawma** – Mae **dull seiliedig ar drawma** o gynorthwyo pobl ifanc ddigartref yn golygu gweithio “ar lefelau cleient, staff, asiantaeth a systemau gyda egwyddorion craidd ymwybyddiaeth o drawma; diogelwch; dibynadwyedd, dewis a chydweithredu; a meithrin cryfderau a sgiliau.” Ar lefel ymarferol, mae hynny yn cynnwys “trafod y cysylltiad rhwng trawma, iechyd meddwl, a defnyddio sylweddau wrth weithio gyda phob cleient; adnabod symptomau o drawma neu addasiadau; a chynnig cymorth a strategaethau sydd yn gwella diogelwch a chymorth sy’n gysylltiedig â gwasanaethau” (Cyngor Iechyd Meddwl a Chynllunio Defnyddio Sylweddau Rhanbarthol DC, 2013).

**Model Triniaeth Gofal Maeth** – **Triniaeth Gofal Maeth** “y gofal y tu allan i gartref gan rieni maeth sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol i ofalu am amrywiaeth eang o blant a phobl ifanc, fel arfer rhai sydd ag anghenion emosiynol, ymddygiadol neu gymdeithasol arwyddocaol. Mae triniaeth gofal maeth wedi ei ddylunio er mwyn darparu gofal a magwraeth ddiogel i blentyn neu berson ifanc mewn amgylchedd cartref mwy strwythuredig na gofal maeth arferol, a gall fod yn ddewis amgen cost effeithiol i driniaeth preswyl. Fel arfer bydd rhieni maeth yn derbyn cymorth a gwasanaethau ychwanegol” (Porth Gwybodaeth am Lesiant Plant, 2017)

**Digartrefedd pobl ifanc** - Yn ôl **Diffiniad Canada o Digartrefedd Pobl Ifanc**, mae digartrefedd pobl ifanc yn cyfeirio at sefyllfa a phrofiad pobl ifanc rhwng 13 a 24 oed sydd yn byw yn annibynnol ar rieni a/neu ofalwyr, ond nad oes ganddynt y modd na’r gallu i gael preswylfa sefydlog, diogel na chyson. Mae digartrefedd pobl ifanc yn fater cymdeithasol cymhleth oherwydd fel cymdeithas rydym wedi methu â darparu’r cymorth digonol ac angenrheidiol i bobl ifanc a’u teuluoedd fydd yn eu galluogi i symud ymlaen gyda’u bywydau mewn ffordd ddiogel a chynlluniedig. Yn ychwanegol at brofi amddifadedd economaidd a diffyg tai diogel, mae gan nifer o bobl ddigartref ddiffyg profiad personol o fyw yn annibynnol, ac ar yr un pryd gallent fod yng nghanol newidiadau datblygiadol arwyddocaol (cymdeithasol, corfforol, emosiynol a gwybyddol). O ganlyniad i hynny, efallai nad oes ganddynt yr adnoddau, cydnerthedd, addysg, cymorth cymdeithasol na’r sgiliau bywyd sydd eu hangen er mwyn meithrin proses o bontio’n ddiogel i fywyd oedolion ac annibyniaeth. Ychydig o bobl ifanc sydd yn dewis bod yn ddigartref, neu’n dymuno cael eu diffinio gan eu digartrefedd, ac yn gyffredinol mae’r profiad yn un negyddol ac yn achosi straen. Mae digartrefedd pobl ifanc yn gwadu hawliau dynol sylfaenol ac unwaith y caiff hynny ei ganfod, mae’n rhaid ei gywiro. Mae gan pob person ifanc yr hawl i gael hanfodion bywyd, yn cynnwys tai, bwyd, diogelwch addysg a chyfiawnder digonol” (Arsyllfa Canada ar Ddigartrefedd, 2014).

**Polisiau dim goddefgarwch** Mewn amrywiol wasanaethau cyhoeddus a sefydliadau tai (e.e. llochesi pobl ifanc, tai pontio), mae polisiau dim goddefgarwch yn cyfeirio at bolisiau sydd yn gwahardd pobl ifanc rhag defnyddio sylweddau er mwyn cael mynediad at gymorth gwasanaethau. Mewn nifer o achosion mae polisiau dim goddefgarwch yn golygu y bydd pobl ifanc yn cael eu gwahardd rhag cael mynediad at gymorth neu wasanaethau neu dai os ydynt yn defnyddio sylweddau. Mewn cyd-destun cyfiawnder troseddol / trefn gyhoeddus, mae'n cyfeirio at ddull o blismona troseddau lefel isel sydd yn llym a cymharol anhyblyg.

# Atodiad

## A - Canllawiau cyfweld

### Cwestiynau i Ysgolheigion Arbenigol:

1. Yn eich barn chi, beth yw rhai o'r dulliau neu ymarferion mwyaf effeithiol sy'n bodoli sydd yn atal pobl ifanc rhag dod yn ddigartref yn (cymuned/rhanbarth/gwlad)?
  - Allwch chi roi enghreifftiau, cyd-destun, a/neu gysylltiadau â'r dulliau/ymarferion hyn?
  - A ydych wedi gweld gwerthusiadau neu adroddiadau ar yr ymyriadau yma?
2. Allwch chi ddweud wrtha i am unrhyw arloesedd yr ydych yn ei weld yn digwydd yn eich cymuned/rhanbarth/talaith/gwlad allai fod yn addawol o ran atal digartrefedd pobl ifanc?
  - Pwy sydd yn arwain hynny?
3. A yw eich cymuned/talaith/gwlad wedi mabwysiadu unrhyw bolisi neu deddfwriaeth yr ydych chi'n meddwl sydd yn cyfrannu at atal digartrefedd pobl ifanc?
  - Pa effeithiau ydych chi'n meddwl mae'r polisiau/deddfwriaeth yma wedi ei achosi?
4. Ym mhle ydych chi'n meddwl mae yna fylchau mewn gwybodaeth am atal digartrefedd pobl ifanc?
5. A yw polisi taleithiol, rhanbarthol neu lywodraeth ffederal wedi gallu ymateb i'r arloesedd ar lefel gymunedol ynghylch ataliaeth?
6. Beth fydddech chi yn ei ddweud yw'r prif rwystrau i sefydliadau a llywodraethau wrth ystyried symud tuag at fandad mewn perthynas â digartrefedd sydd yn canolbwyntio ar ataliaeth?
7. Sut allwn weithio er mwyn cynyddu hyder sefydliadol a biwrocraidd wrth fabwysiadu gweithgareddau sydd yn canolbwyntio ar atal?
8. Gyda phwy y bydddech yn argymhell i mi siarad â nhw allai roi mwy o fewnwelediad i ymyriadau a pholisiau atal digartrefedd pobl ifanc?

### Cwestiynau i Ymarferwyr:

1. Allwch chi ddweud wrtha i am eich rhaglen/ymyrraeth a sut mae hynny yn cyfrannu at atal digartrefedd pobl ifanc?
  - Ym mha ffordd mae hynny wedi cymharu â dulliau eraill y mae eich sefydliad/asiantaeth wedi eu defnyddio yn y gorffennol?  
*(Holi am: model rhaglen, hyd ymyrraeth, partneriaeth/cydlynu â gwasanaethau eraill, poblogaeth a dargedwyd, staff a ddyrannwyd, swyddi staff, tarddiad y model, effeithiau ac effeithiolrwydd o ran atal digartrefedd etc.)*
2. A oes gennych unrhyw werthusiadau, ymchwil neu adroddiadau sydd yn dangos effeithiau eich rhaglen ymyrraeth?
  - Beth mae'r rhain wedi ei ddangos?

*(Holi am: gwerthusiadau mewnol neu allanol, adroddiadau cyllido, adroddiadau blynyddol, dogfennaeth ar fodel y rhaglen, data lefel uchel, data ar y bobl ifanc a wasanaethwyd etc.)*

3. Allwch chi drafod rhai o'r heriau sydd yn gysylltiedig â'r gwaith atal digartrefedd yr ydych yn ei wneud?

- Pa ffactorau allanol (e.e. cyllido, polisi, diwylliant y sector digartrefedd) sydd yn achosi i'ch gwaith fod yn heriol?

4. Beth fyddai ei angen arnoch er mwyn ymgysylltu'n fwy effeithiol â'ch gwaith atal, a datblygu mwy ar y gwaith hwnnw yn eich sefydliad/cymuned/rhanbarth/gwlad?

*(Holi am: cymorth gan y llywodraeth, newid mewn dealltwriaeth o'r mater, deddfwriaeth/polisi, cyllid, cydlynu systemau etc.)*

5. Ym mhle ydych chi'n meddwl mae yna fylchau mewn gwybodaeth am atal digartrefedd pobl ifanc?

6. Gyda phwy y byddech yn argymhell i mi siarad â nhw allai roi mwy o fewnwelediad i ymyriadau ac ymarferion atal digartrefedd pobl ifanc ar lawr gwlad?

## B - Cyfweleion

Pwy	Sefydliad	Lleoliad	Sail Resymegol dros Ymgysylltu
<b>Darla Bardine, Cyfarwyddwr Gweithredol</b>	National Network for Youth	Washington , District of Columbia, Yr Unol Daleithiau	<b>Mae National Network for Youth (NN4Y)</b> wedi bod yn sefydliad hyrwyddo addysg gyhoeddus a pholisi sydd wedi ymrwymo ei hun i atal a dileu digartrefedd pobl ifanc yn America ers dros 40 mlynedd. Fel y rhwydwaith mwyaf a mwyaf amrywiol o'i fath, mae NN4Y yn defnyddio dros 300 a o aelodau a phobl gysylltiedig - sefydliadau sydd yn gweithio yn y rheng flaen bob diwrnod er mwyn darparu gwasanaethau ataliol ac ymateb i bobl sy'n rhedeg o'u cartrefi a phobl ifanc ddigartref a masnachu mewn pobl.
<b>Carol Caton, PhD., Athro Iechyd Cyhoeddus Clinigol</b>	Adran Seiciatreg, Prifysgol Columbia	Efrog Newydd, Efrog Newydd, Yr Unol Daleithiau	Mae Dr Caton wedi bod â diddordeb ers amser maith mewn digartrefedd a iechyd meddwl ac mae wedi derbyn cyllid allanol sylweddol ar gyfer ymchwilio i'r maes yma. Ar hyn o bryd mae Dr. Caton yn cydweithredu ar grant er mwyn datblygu ymyrraeth seiliedig ar ofal sylfaenol ar gyfer mamau digartref sy'n

<b>Pwy</b>	<b>Sefydliad</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Sail Resymegol dros Ymgysylltu</b>
			dioddef ag iselder, a grant i ddatblygu ymyrraeth adfer gwybyddol i bobl ifanc ddigartref, a ddyluniwyd i wella eu cyflogadwyedd. Bu iddi gymryd rhan yn natblygiad Uniting for Solutions Beyond Shelter, cynllun Dinas Efrog Newydd i roi terfyn ar ddigartrefedd cronig. Ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu ar fyrddau cynghori ar ymchwil Adran Gwasanaethau'r Digartref Dinas Efrog Newydd a'r Gynghrair Genedlaethol i Roi terfyn ar Ddigartrefedd.
<b>Dani Coffey, Dadansoddwr Polisi</b>	Bwrdeistref Rhanbarthol Durham	Whitby, Ontario, Canada	Mae rhanbarth Durham yn cynnig safbwynt pwysig ar sut y gellir gwneud arbedion a threfniadau er mwyn gwasanaethau pobl ifanc yn well drwy gymorth incwm, mynediad at dai a chymorth teuluol. Mae arweiniad drwy'r gwaith yma wedi ymddangos drwy'r rhanbarth. Mae newidiadau a gwelliannau polisi ar y lefel leol yn allweddol ar gyfer newid cyfeiriad atal digartrefedd pobl ifanc.
<b>Suzanne Fitzpatrick, PhD., Cyfarwyddwr Sefydliad Polisi Cymdeithasol</b>	Ymchwil Tai, Cydraddoldeb Prifysgol Heriot-Watt	Caeredin, Yr Alban	Bu i Suzanne gwblhau ei PhD ar ddigartrefedd pobl ifanc ym Mhrifysgol Glasgow yn 1998. Yn dilyn hynny bu iddi ddal nifer o swyddi yn Adran Astudiaethau Dinesig ym Mhrifysgol Glasgow, yn cynnwys fel Cymrawd Ymchwil ESRC mewn Tai ac Allgau Cymdeithasol, ac yna fel Darlithydd mewn Tai a Pholisi Cymdeithasol. Mae Suzanne yn arbenigo mewn ymchwil ar ddigartrefedd ac allgau tai, ac mae yna ddimensiwn cymharol rhyngwladol i lawer o'i gwaith.
<b>Jasmine Hayes, Dirprwy Gyfarwyddwr</b>	Cyngor Rhyngasiantaeth ar Ddigartrefedd yr Unol Daleithiau	Washington, District of Columbia, Yr Unol Daleithiau	Mae Cyngor Rhyngasiantaeth ar Ddigartrefedd yr Unol Daleithiau yn gyfrifol am gydlynu a chataleiddio yr ymateb ffederal i ddigartrefedd yn y DU. Drwy drefnu a chefnogi arweinwyr megis Llywodraethwyr, Meiri, Continwmm o

<b>Pwy</b>	<b>Sefydliad</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Sail Resymegol dros Ymgysylltu</b>
			Arweinwyr Gofal, a swyddogion lleol eraill, y camau ysgogol er mwyn gwireddu amcanion y cynllun strategol ffederal i atal digartrefedd - a sicrhau bod digartrefedd yn America yn dod i ben unwaith ac am byth. Mae Jasmine wedi gwasanaethu fel Cyfarwyddwr Polisi i USICH, gan arwain eu gwaith ar atal a rhi terfyn ar ddigartrefedd pobl ifanc a theuluoedd.
<b>Nora Landry, Cynghorydd Polisi</b>	Bwrdeistref Rhanbarthol Durham	Whitby, Ontario, Canada	Mae rhanbarth Durham yn cynnig safbwynt pwysig ar sut y gellir gwneud arbedion a threfniadau er mwyn gwasanaethau pobl ifanc yn well drwy gymorth incwm, mynediad i dai a chymorth teuluol. Mae arweiniad drwy'r gwaith yma wedi ymddangos drwy'r rhanbarth. Mae newidiadau a gwelliannau polisi ar y lefel leol yn allweddol ar gyfer newid cyfeiriad atal digartrefedd pobl ifanc.
<b>Kim Ledene, Cyfarwyddwr Tai a Lloches</b>	Clwb Bechgyn a Merched Calgary	Calgary, Alberta, Canada	Mae Clwb Bechgyn a Merched Calgary wedi bod yn rhan flaenllaw o atal digartrefedd pobl ifanc a thai ers nifer o flynyddoedd. Maent yn gweithio â theuluoedd, poblogaethau amrywiol o bobl ifanc, ac mae addasu modelau tai pwysig (yn cynnwys Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc) wedi bod yn drawsnewidiol yng Nghanada. Ystyrir bod Kim Ledene yn un o arweinwyr syniadau mwyaf blaenllaw Canada mewn perthynas â digartrefedd pobl ifanc.
<b>David MacKenzie, PhD., Athro Cyswllt</b>	Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Gweithredol Datblygiad Ieuenctid Awstralia	Hawthorn, Victoria, Australia	Mae David MacKenzie yn Athro Cyswllt yn Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Gweithredol Datblygiad Ieuenctid Awstralia (YDA). Mae gan David hanes clodwiw mewn perthynas ag ymchwil ac arbenigedd datblygu polisi cyhoeddus, ymchwil cymdeithasol cymhwysol, yn arbennig yng nghyswllt polisi ieuenctid a digartrefedd. Mae David MacKenzie yn



Pwy	Sefydliad	Lleoliad	Sail Resymegol dros Ymgysylltu
			<p>arbenigwr blaenllaw ym maes atal digartrefedd pobl ifanc gyda ffocws penodol ar Brosiect Geelong (TGP). Mae TGP yn bartneriaeth arloesol seiliedig ar dystiolaeth sydd yn helpu pobl ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref. Mae TGP, a sefydlwyd dros 5 mlynedd yn ôl, yn defnyddio model 'cymuned o ysgolion a gwasanaethau ieuencid' o ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl ifanc sydd yn wynebu risg o ddatgysylltu eu hunain oddi wrth yr ysgol, o fod yn ddigartref a dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder.</p>
<p><b>Matthew Morton, PhD., Cymrawd Ymchwil, Prif Arolygydd</b></p>	<p>Neuadd Chapin Prifysgol Chicago.</p>	<p>Chicago, Illinois, Yr Unol Daleithiau</p>	<p>Mae'r Dr. Matthew Morton yn Gymrawd Ymchwil yn Neuadd Chapin Prifysgol Chicago. Mae gan Morton arbenigedd mewn datblygiad pobl ifanc, digartrefedd pobl ifanc, gwerthuso ymyriadau cymhleth ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth. Ar hyn o bryd mae'n arwain agenda digartrefedd pobl ifanc Neuadd Chapin. Mae Morton yn Brif Arolygydd Voices of Youth Count, menter ymchwil a pholisi genedlaethol sydd yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth er mwyn cefnogi camau er mwyn rhoi terfyn ar ddigartrefedd pobl ifanc, a Phrosiect Deilliannau Pobl Ifanc, ymdrech i wella deilliannau a mesuriadau ar draws nifer o feysydd mewn systemau, gwasanaethau, ac ymchwil mewn perthynas â digartrefedd pobl ifanc.</p>
<p><b>Natasha Slesnick, PhD., Athro,</b></p>	<p>Datblygiad Dynol a Gwyddor Teulu, Adran Gwyddorau Dynol, Prifysgol Talaith Ohio</p>	<p>Columbus, Ohio, Yr Unol Daleithiau</p>	<p>Mae Natasha Slesnick yn Athro Datblygiad Dynol a Gwyddor Teulu ac yn gadeirydd cyswllt ymchwil yn Adran Gwyddorau Dynol Prifysgol Talaith Ohio. Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar ddatblygu ymyriadau gyda phobl ifanc a theuluoedd digartref. Mae wedi ymgynghori â nifer o sefydliadau ar y strategaethau gorau ar gyfer ymyrryd mewn</p>

Pwy	Sefydliad	Lleoliad	Sail Resymegol dros Ymgysylltu
			digartrefedd pobl ifanc. Ar ôl agor canolfan galw heibio i bobl ifanc ddigartref yn Albuquerque, New Mexico, symudodd i Columbus, Ohio ac agorodd ail ganolfan galw heibio.
<b>Beth Watts, PhD., Ymchwilydd Cyswllt yn y Sefydliad Tai</b>	Ymchwil Dinesig ac Eiddo Tiro, Prifysgol Heriot-Watt	Caeredin, Yr Alban	Mae Beth yn Uwch Gymrawd Ymchwil yn <a href="#">L-SPHERE</a> , Prifysgol Heriot-Watt. Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar ddigartrefedd, digartrefedd pobl ifanc, cysgu ar y stryd ac anghenion cymhleth, tai cymdeithasol a thlodi. Mae ei gwaith ar hyn o bryd yn cynnwys monitro effeithiau diwygio lles a'r cyd-destun polisi ac economaidd ehangach ar ddigartrefedd yn y DU a thystiolaethu am effeithiau amodau llesiant ar bobl ifanc, rhai sy'n cysgu ar y stryd a thenantiaid tai cymdeithasol.

*\*Mae'r rhestr ond yn adlewyrchu ychydig o'r arbenigwyr/ymarferwyr y bu i'r awduron ymgysylltu â nhw fel rhan o'r adolygiad. O ystyried argaeledd ac amseroldeb y prosiect, nid oedd pawb y gobeithiwyd y byddai'n gallu cyfrannu yn gallu rhoi eu hamser a'u gwybodaeth.*

## Manylion am yr Awduron

**Kaitlin Schwan**, PhD, Uwch Ymchwilydd yn Arsyllfa Canada ar Ddigartrefedd ym Mhrifysgol Efrog. Gan weithio mewn partneriaeth â phobl ifanc sydd wedi profi digartrefedd, mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar atal digartrefedd pobl ifanc ac atal digartrefedd ymysg merched a genethod.

**David French**, Cyfarwyddwr Polisi a Chynllunio gyda A Way Home Canada. Gan weithio gyda phob math o lywodraethau, cymunedau a sefydliadau sy'n gwasanaethu pobl ifanc, mae David yn canolbwyntio ei waith ar anrhydeddu lleisiau pobl ifanc a meithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth o'r mater. Mae ei waith wedi arwain at ddatrysiadau polisi pwysig a thrawsnewidiol ar draws Canada.

**Stephen Gaetz**, PhD, Athro yng Nghyfadrannau Addysg Prifysgol Efrog, a Llywydd a Phrif Weithredwr Arsyllfa Canada ar Ddigartrefedd a Chanolbwynt i'r Digartref. Mae Dr. Gaetz yn chwarae rôl ryngwladol arweiniol mewn perthynas ag atal digartrefedd pobl ifanc a rhannu gwybodaeth ym maes digartrefedd pobl ifanc.

**Ashley Ward**, PhD, Ymchwilydd Arweiniol yn *Making the Shift Youth Homelessness Social Innovation Lab* (Canada). Gan weithio'n agos â nifer o bartneriaid yn y gymuned, mae'n goruchwyllo gweithgareddau ymchwil a gwerthuso ar gyfer cyfres o brosiectau arddangos ar draws Ontario ac Alberta, Canada.

**Jennifer Akerman**, myfyriwr ymchwil graddedig yn Arsyllfa Canada ar Ddigartrefedd, ac ar hyn o bryd mae'n dilyn cwrs Meistr mewn Iechyd Cyhoeddus mewn Gwyddorau Cymdeithasol ac Iechyd Ymddygiadol ym Mhrifysgol Toronto.

**Melanie Redman**, Cyd Sylfaenydd, Llywydd a Phrif Weithredwr A Way Home Canada. Mae Melanie yn arweinydd rhyngwladol ym maes polisi, cynllunio ac ymarferion digartrefedd pobl ifanc, ac ar hyn o bryd mae'n arwain proses ymgynghori rhyngwladol er mwyn mireinio a chreu consensws ynghylch model rhaglen Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc a sefydlwyd yng Nghanada.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag:

**Andrew Connell neu Jonathan Webb**

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

[info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)

**OGL** Mae'r adroddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored